



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales**  
**(The Official Record)**

**Dydd Mercher 27 Tachwedd 2002**

**Wednesday 27 November 2002**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
*Questions to the Minister for Health and Social Services*
- 15 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes  
*Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning*
- 24 Cwestiwn Brys: Swyddi Zurich Warranty Management Service  
*Urgent Question: Zurich Warranty Management Services Jobs*
- 29 Datganiad ar Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer  
Cymru Ddwyieithog  
*Statement on the Assembly Government's National Action Plan for a Bilingual Wales*
- 52 Cymeradwyo Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Diwygio) 2002  
*Approval of the General Teaching Council for Wales (Amendment) Order 2002*
- 56 Cymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni  
Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002  
*Approval of Local Authority (Executive Arrangements) (Discharge of Functions)  
(Amendment) (Wales) Regulations 2002*
- 61 Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchymynion  
*Composite Motion: Approval of Orders*
- 63 Pwynt o Drefn  
*Point of Order*
- 64 Adolygiad Pum Mlynedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
*The National Library of Wales Quinquennial Review*
- 81 Dadl Fer: Ailgoddi'r Cymoedd  
*Short Debate: Rebuilding the Valleys*

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were  
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been  
included.*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services**

### **Mynediad i Wasanaethau Gofal Sylfaenol Access to Primary Care Services**

**Q1 Huw Lewis:** How is the Welsh Assembly Government helping to improve access to primary care services in the south Wales Valleys? (OAQ20588)

**C1 Huw Lewis:** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n helpu i sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol ar gael yn rhwyddach yng Nghymoedd y De? (OAQ20588)

**The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt):** The primary care strategy aims to offer universal and faster access to quality services. I appreciate that there are issues particular to the Valleys, and we have been addressing them in partnership with local health boards. A number of imaginative schemes are in place, and we must ensure that the lessons learned from these are disseminated throughout the south Wales Valleys.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Nod y strategaeth gofal sylfaenol yw cynnig mynediad cyffredinol a chyflymach i wasanaethau o safon. Deallaf fod materion sy'n ymwneud yn benodol â'r Cymoedd, a buom yn mynd i'r afael â hwy mewn partneriaeth â byrddau iechyd lleol. Mae nifer o gynlluniau creadigol ar waith, a rhaid inni sicrhau y caiff y gwersi a ddysgir o'r rhain eu lledaenu ledled Cymoedd de Cymru.

**Huw Lewis:** You know that I am concerned about the provision of pharmacy services in Wales and, in particular, the provision of 24-hour coverage in the Valleys. The current consultation on pharmacy services sets out the importance of providing such 24-hour provision in hospitals. Will you make an early statement regarding the roll-out of 24-hour provision at the end of the consultation, and will you speed up the development of these services in those communities with the greatest levels of ill health?

**Huw Lewis:** Gwyddoch fy mod yn pryderu ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol yng Nghymru ac, yn enwedig, y ddarpariaeth o wasanaeth 24 awr yn y Cymoedd. Mae'r ymgynghoriad cyfredol ar wasanaethau fferyllol yn nodi pa mor bwysig yw darpariaeth 24 awr o'r fath mewn ysbytai. A wnewch chi ddatganiad cynnar ar y broses o gyflwyno'r ddarpariaeth 24 awr ar ddiwedd yr ymgynghoriad, ac a wnewch chi gyflymu'r broses o ddatblygu'r gwasanaethau hyn yn y cymunedau hynny sydd â'r salwch mwyaf?

**Jane Hutt:** Our consultation on pharmacy, 'Remedies for Success: a Strategy for Pharmacy in Wales', recognises that appropriate emergency pharmaceutical care should be available in every locality in Wales, 24-hours a day. We are consulting on that document and it will be completed by the end of December. We will commission a study of patient and professional needs for out-of-hours services by March 2003. The Health and Social Services Committee has discussed this, and clearly, there are issues on which the initiative has already been taken, such as the emergency drugs that general

**Jane Hutt:** Mae ein hymgynghoriad ar wasanaethau fferyllol, 'Moddion i Lwyddo: Strategaeth ar gyfer Fferylliaeth yng Nghymru', yn cydnabod y dylai gofal fferyllol brys priodol fod ar gael ym mhob ardal yng Nghymru, 24 awr y dydd. Bydd yr ymgynghori ar y ddogfen honno yn dod i ben erbyn diwedd mis Rhagfyr. Byddwn yn comisiynu astudiaeth o anghenion cleifion a gweithwyr proffesiynol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau gwaith erbyn mis Mawrth 2003. Trafodwyd hyn gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac, yn amlwg, aethpwyd i'r

practitioners can carry for out-of-hours services. However, it is also clear that we must build these into the primary care resource centres that are now developing as a result of the Welsh Assembly Government's primary care strategy.

**Geraint Davies:** Faint o amser, yn eich barn chi, sy'n rhesymol i bobl orfod aros i weld eu meddyg teulu?

**Jane Hutt:** We suggest in our plan, 'Improving Health in Wales', that nobody should wait more than 24 hours to see a primary care professional. It is important that we in Wales consider the whole primary care team. That is the essence of our primary care strategy. People can have access to a practice nurse, for example, which is often as important as seeing a GP. That is why we aim to ensure that we have the whole primary care team on board in our communities.

**Lorraine Barrett:** Will you look at ways to encourage and perhaps educate people to approach their pharmacist in the first instance for advice? As Huw Lewis said, pharmacies can offer an invaluable service, particularly in the primary care field.

**Jane Hutt:** That is a key theme in our 'Remedies for Success' strategy. We have placed community pharmacy at the forefront. Pharmacists are members of each of our health boards; indeed, two pharmacists chair local health boards. That recognises the pharmacist's role in the primary healthcare team and the whole range of services that community pharmacists can provide at the sharp end in every community, particularly the most disadvantaged communities in Wales. It is well recognised and well supported in the consultation document.

**William Graham:** Will you outline how the delay in the GP provision estate survey will be reflected in meeting requirements under the Disability Discrimination Act 1995?

afael â rhai materion eisoes, megis y cyffuriau brys sydd ar gael i feddygon teulu ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau gwaith. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd y dylem ymgorffori'r rhain yn y canolfannau adnoddau gofal sylfaenol sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd o ganlyniad i strategaeth gofal sylfaenol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Geraint Davies:** In your opinion, what constitutes a reasonable time for people to have to wait to see their GP?

**Jane Hutt:** Awgrymwn yn ein cynllun, 'Gwella Iechyd yng Nghymru', na ddylai neb aros dros 24 awr i weld gweithiwr proffesiynol gofal sylfaenol. Mae'n bwysig ein bod ni yng Nghymru yn ystyried y tîm gofal sylfaenol yn ei gyfanrwydd. Dyna hanfod ein strategaeth gofal sylfaenol. Gall pobl gael apwyntiad i weld nyrs bractis, er enghraifft, sydd, yn aml, yr un mor bwysig â gweld meddyg teulu. Dyma pam yr anelwn at sicrhau bod gennym gefnogaeth y tîm gofal sylfaenol cyfan yn ein cymunedau.

**Lorraine Barrett:** A wnewch chi edrych ar ffyrdd o annog ac efallai addysgu pobl i fynd at eu fferylllydd yn y lle cyntaf am gyngor? Fel y dywedodd Huw Lewis, gall fferyllfeydd gynig gwasanaeth gwerthfawr iawn, yn enwedig ym maes gofal sylfaenol.

**Jane Hutt:** Dyna yw un o themâu allweddol ein strategaeth 'Moddion i Lwyddo'. Yr ydym wedi gosod gwasanaethau fferyllol cymunedol yn y rheng flaen. Mae gennym fferyllwyr ar bob un o'n byrddau iechyd; yn wir, mae dau fferylllydd yn cadeirio byrddau iechyd lleol. Mae hynny'n cydnabod rôl y fferylllydd yn y tîm gofal iechyd sylfaenol ynghyd ag ystod eang y gwasanaethau y gall fferyllwyr cymunedol eu darparu yn y rheng flaen ym mhob cymuned, yn enwedig yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Cydnabyddir a chefnogir hynny yn y ddogfen ymgynghori.

**William Graham:** A wnewch chi amlinellu sut y caiff yr oedi yn yr arolwg o ystadau darpariaeth meddygon teulu ei adlewyrchu o ran bodloni gofynion o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995?

**Jane Hutt:** I will reply to your question in writing, William.

**Jane Hutt:** Atebaf eich cwestiwn yn ysgrifenedig, William.

### **Amddiffyn Plant mewn Gofal Protection of Children in Care**

**Q2 The Leader of Welsh Conservatives (Nick Bourne):** Will the Minister make a statement on the protection of children in care? (OAQ20547)

**C2 Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch amddiffyn plant mewn gofal? (OAQ20547)

**Jane Hutt:** Local authorities are responsible for the protection of children in their care. The Welsh Assembly Government has introduced significant changes to improve standards of care and protect children. It has also made considerable additional resources available to local authorities and the voluntary sector to enable them to implement the changes.

**Jane Hutt:** Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am amddiffyn plant yn eu gofal. Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru newidiadau sylweddol i wella safonau gofal ac amddiffyn plant. Yn ogystal, sicrhodd fod swm sylweddol o adnoddau ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i'w galluogi i weithredu'r newidiadau.

**Nick Bourne:** You will remember that we have corresponded regarding the alleged ill-treatment of a child at Caerlan House, which is an independent community living in Llantrisant. The constituents who consulted me were the mother and step-father of Jamie Barker, dedicated parents who wish to draw attention to his case and the allegations of abuse, negligence and theft that they allege he experienced at the home. If I give you the considerable correspondence that I have on this issue, will you look at it?

**Nick Bourne:** Byddwch yn cofio ein bod wedi gohebu ynglŷn â'r achos honedig o gam-drin plentyn yn Camden House, sy'n gymuned annibynnol yn Llantrisant. Yr etholwyr a gysylltodd â mi oedd mam a llystad Jamie Barker, rhieni ymroddedig sydd am dynnu sylw at ei achos a'r honiadau o gam-drin, esgeulustod a lladrata y maent yn honni iddo brofi yn y cartref. Os rhoddaf yr ohebiaeth gynhwysfawr sydd gennyf ar y mater hwn ichi, a wnewch chi ei darllen?

**Jane Hutt:** I certainly will. We now have the Care Standards Act 2000 and the Care Standards Inspectorate for Wales, which has given the Assembly powers to register and regulate children's homes and independent centres such as the one that you have described, and to set standards for the care of children. The Children First programme, which is supported by the Welsh Assembly Government, also has a vital role to play in the delivery of services for our most vulnerable children. I will receive that correspondence.

**Jane Hutt:** Gwnaf yn wir. Bellach mae gennym Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, a roddodd bwerau i'r Cynulliad gofrestru a rheoleiddio cartrefi plant a chanolfannau annibynnol fel yr un a ddisgrifiwyd gennych, a gosod safonau ar gyfer gofal plant. Mae gan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a gynorthwyr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, rôl hanfodol i'w chwarae hefyd yn y broses o ddarparu gwasanaethau ar gyfer ein plant mwyaf diamddiffyn. Derbyniaf yr ohebiaeth honno.

**Mick Bates:** Are you aware of the massive increase in insurance premiums, which is causing the closure of children's care homes? For example, one premium has increased from £2,000 per annum to £45,000 per annum. I have plenty of evidence on this matter. What action will the Minister take to

**Mick Bates:** A ydych yn ymwybodol o'r cynnydd enfawr mewn premiymau yswiriant, sy'n achosi i gartrefi gofal plant gau? Er enghraifft, mae un premiwm wedi cynyddu o £2,000 y flwyddyn i £45,000 y flwyddyn. Mae gennyf ddigon o dystiolaeth ar y mater hwn. Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu

cope with this looming crisis in children's care?

**Jane Hutt:** You have made information on this issue available to me, and I have asked for advice on it. It is clearly important that we safeguard those children's homes in Wales that are meeting our regulation minimum standards and have rigorous policies that are in accordance with the Care Standards Act 2000. We need to look at the example that you have given.

**David Lloyd:** Will the Minister make a financial commitment to support the delivery of advocacy services for children in Wales?

**Jane Hutt:** That is important in taking forward the work that was carried out by the Children's Society. We ensured that money was available to support the services that replaced those that were lost when the Children's Society moved from Wales. I ensured considerable funding for that. However, that funding is being accompanied by a study into the independent children's advocacy services that are needed across the board in Wales, and I will make a statement and report on that in due course. The Children's Commissioner is also carrying out a similar study and survey.

**The Presiding Officer:** Question 3 (OAQ20597) has been withdrawn.

cymryd i ymdopi â'r argyfwng posibl hwn mewn gofal plant?

**Jane Hutt:** Yr ydych wedi cyflwyno gwybodaeth ar y mater hwn imi, ac yr wyf wedi gofyn am gyngor arno. Mae'n bwysig ein bod yn diogelu y cartrefi plant hynny yng Nghymru sy'n bodloni ein safonau rheoleiddio gofynnol ac sydd â pholisïau trylwyr sy'n unol â Deddf Safonau Gofal 2000. Mae angen inni edrych ar yr enghraifft a roesoch.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ymrwymiad ariannol i gynnal y broses o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i blant yng Nghymru?

**Jane Hutt:** Mae hynny'n bwysig er mwyn datblygu'r gwaith a gyflawnwyd gan Gymdeithas y Plant. Sicrhasom fod arian ar gael i gynnal y gwasanaethau a gyflwynwyd yn lle y rhai a gollwyd pan symudodd Cymdeithas y Plant o Gymru. Sicrheais gyllid sylweddol ar gyfer hynny. Fodd bynnag, caiff y cyllid hwnnw ei ategu gan astudiaeth o'r gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant sydd eu hangen ledled Cymru, a gwnaf ddatganiad ac adroddiad ar hynny maes o law. Mae'r Comisiynydd Plant hefyd yn cynnal astudiaeth ac arolwg tebyg.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 3 (OAQ20597) yn ôl.

### Cymhorthion Clywed Digidol Digital Hearing Aids

**Q4 Karen Sinclair:** Will the Minister give a brief update on the roll-out of digital hearing aids in Wales by the NHS? (OAQ20594)

**Jane Hutt:** In February 2001, I announced funding and a package of measures to modernise and improve audiology services in Wales. I paved the way for the introduction of new technology hearing aids, which has led to a sudden and sharp increase in waiting list figures for those aids. Trusts in Wales have been advised to consider opportunities to improve skill mix within audiology services to release more audiology time for patient contact with a view to reducing the waiting

**C4 Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog sôn am hynt cyflwyno cymhorthion clywed digidol yng Nghymru gan y GIG? (OAQ20594)

**Jane Hutt:** Ym mis Chwefror 2001, cyhoeddais gyllid a phecyn o fesurau i foderneiddio a gwella gwasanaethau clywedeg yng Nghymru. Paratois y ffordd ar gyfer cyflwyno cymhorthion clywed y dechnoleg ddiweddaraf, a arweiniodd at gynnydd sydyn a sylweddol yn ffigurau'r rhestr aros ar gyfer y cymhorthion hynny. Cynghorwyd ymddiriedolaethau yng Nghymru i ystyried cyfleoedd i wella'r cymysgedd o sgiliau o fewn gwasanaethau

list as quickly as possible.

**Karen Sinclair:** One of the key issues that adds to the pressure on audiology departments across Wales is the lack of available trained audiologists. Departments need additional staff but they are not available to recruit. For the departments to deliver effectively on 'Modernising Audiology Services in Wales' and on universal neonatal hearing screening, we must respond quickly. Will the Minister ensure that a proportion of the £21 million announced for the education and training of NHS staff is earmarked for the fast-track training of audiology staff?

**Jane Hutt:** The expansion of audiology services is welcome. The £2.2 million initially invested was followed by £1.7 million and £0.7 million this year and that has resulted in an expansion of services. More people have been employed, but Karen is right to say that there are not enough staff in the service. A pilot project in Shrewsbury is examining ways in which that shortfall in capacity can be addressed, and we will learn from that. We are also funding the development of a new degree course for technicians at the University of Wales, Swansea. The course started in September and extends the training course that was previously available there. We have a five-year education contract for that. I recognise that that will include the cost of students' fees to the professional body for dental technicians and student bursaries. This will expand the numbers with updated graduate status in the system. We will also have to work on the skill mix.

2:10 p.m.

**Pauline Jarman:** I understand that there are around 100 audiologists in Wales, but that 130 are needed. Do audiologists' current contracts allow them to work privately, or are they exclusively contracted to the NHS to avoid long waiting times?

clywedeg er mwyn rhyddhau mwy o amser yn y gwasanaethau hynny i weld cleifion er mwyn ceisio lleihau'r rhestr aros cyn gynted â phosibl.

**Karen Sinclair:** Un o'r prif faterion sy'n ychwanegu at y pwysau ar adrannau clywedeg ledled Cymru yw'r prinder clywedegwyr hyfforddedig sydd ar gael yng Nghymru. Mae angen staff ychwanegol ar adrannau ond nid ydynt ar gael i'w recriwtio. Er mwyn i'r adrannau allu gweithredu'n effeithiol yn sgîl 'Moderneiddio Gwasanaethau Clywedeg yng Nghymru' ac yng nghyd-destun y broses gyffredinol o sgrinio clyw plant newydd-anedig, rhaid inni ymateb yn gyflym. A wnaiff y Gweinidog sicrhau bod cyfran o'r £21 miliwn a gyhoeddwyd ar gyfer addysg a hyfforddiant staff y GIG yn cael ei chlustnodi ar gyfer dull carlam o hyfforddi staff clywedeg?

**Jane Hutt:** Croesewir y broses o ehangu gwasanaethau clywedeg. Rhoddwyd £1.7 miliwn a £0.7 miliwn eleni, wedi'r £2.2 miliwn a fuddsoddwyd i ddechrau, ac arweiniodd hyn at ehangu'r gwasanaethau. Cyflogwyd mwy o bobl, ond mae Karen yn iawn pan ddywed nad oes digon o staff yn y gwasanaeth. Mae prosiect peilot yn Amwythig yn archwilio ffyrdd o fynd i'r afael â'r diffyg hwnnw yn y capasiti, a dysgwn o'r prosiect hwnnw. Yr ydym hefyd yn ariannu'r broses o ddatblygu cwrs gradd newydd i dechnegwyr ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe. Mae'r cwrs, a ddechreuodd ym mis Medi, wedi ychwanegu at y cwrs hyfforddi a oedd ar gael yno eisoes. Mae gennym gontract addysg pum mlynedd ar gyfer hwnnw. Cydnabyddaf y bydd hynny'n cynnwys cost ffioedd myfyrwyr i'r corff proffesiynol ar gyfer technegwyr deintyddol a bwrsariaethau myfyrwyr. Bydd hyn yn cynyddu'r niferoedd â statws graddedig diweddaredig yn y system. Bydd angen inni hefyd weithio ar y cymysgedd o sgiliau.

**Pauline Jarman:** Deallaf fod tua 100 o glywedegwyr yng Nghymru, ond bod angen 130. A yw contractau cyfredol clywedegwyr yn galluogi iddynt weithio'n breifat, neu a ydynt wedi'u contractio i'r GIG yn unig er mwyn osgoi amseroedd aros hir?

**Jane Hutt:** We need to expand that workforce, Pauline. As you know, we need another 2,000 allied health professionals, including audiologists, audiology scientists and technicians, by 2008. There are audiologists working in the private sector. However, through our bursary support, we must ensure that we engage students coming into the national health service so that they eventually provide the services needed to deliver the digital hearing aids that we funded.

**Jane Hutt:** Mae angen inni ehangu'r gweithlu hwnnw, Pauline. Fel y gwyddoch, mae angen 2,000 yn fwy o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gan gynnwys clywedegwyr, gwyddonwyr clywedeg a thechnegwyr, erbyn 2008. Ceir clywedegwyr sy'n gweithio yn y sector preifat. Serch hynny, drwy gyfrwng ein cymorth bwrsariaeth, rhaid inni sicrhau ein bod yn denu myfyrwyr sy'n dod i'r gwasanaeth iechyd gwladol, fel y gallant hwy, yn y pen draw, gynnig y gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn darparu'r cymhorthion clywed digidol a ariannwyd gennym.

**Peter Rogers:** Jane, I am sure that you are aware that, in the last three months, waiting times for ear, nose and throat surgery have increased by 30 per cent. Can you account for that increase and explain what steps you are taking to reduce waiting times for this important surgery?

**Peter Rogers:** Jane, yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod amseroedd aros ar gyfer llawdriniaeth ar y glust, y trwyn a'r gwddf wedi cynyddu 30 y cant yn ystod y tri mis diwethaf. A wnewch chi esbonio'r cynnydd hwnnw ac egluro pa gamau yr ydych yn eu cymryd i leihau amseroedd aros ar gyfer y llawdriniaethau pwysig hyn?

**Jane Hutt:** You will know, as it has been well rehearsed in the Assembly, that there have been issues with tonsillectomy operations. The Chief Medical Officer has written to all Assembly Members explaining the situation. In the latest statistics on out-patients published today, the number of people waiting more than six months for a first out-patient appointment has fallen, which is important. In addition, I am sure that Peter will be pleased to hear of a recent favourable statistical analysis showing that waiting times targets are being achieved in north Wales.

**Jane Hutt:** Gan ein bod wedi trafod hyn yn aml yn y Cynulliad, fe wyddoch fod problemau o ran llawdriniaethau tonsillectomi. Ysgrifennodd y Prif Swyddog Meddygol at Aelodau'r Cynulliad i egluro'r sefyllfa. Yn yr ystadegau diweddaraf ar gleifion allanol a gyhoeddwyd heddiw, mae nifer y bobl sy'n aros dros chwe mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol wedi gostwng. Mae hynny'n bwysig. Yn ogystal, yr wyf yn siŵr y bydd Peter yn falch o glywed am ddadansoddiad ffafriol o ystadegau yn ddiweddar a oedd yn dangos bod targedau amseroedd aros yn cael eu cyflawni yng ngogledd Cymru.

### **Gwasanaethau Deintyddol yng Ngwent Dental Services in Gwent**

**Q5 Lynne Neagle:** What proposals does the Minister have for improving dental services in Gwent? (OAQ20596)

**C5 Lynne Neagle:** Pa gynigion sydd gan y Gweinidog ar gyfer gwella gwasanaethau deintyddol yng Ngwent? (OAQ20596)

**Jane Hutt:** Officials are working with Gwent Health Authority on a personal dental service pilot scheme to improve access to NHS dentistry in some deprived areas. We are confident that that will be launched shortly. Further proposals for improving primary dental care are outlined in my consultation document, 'Routes to Reform: A Strategy for

**Jane Hutt:** Mae swyddogion yn gweithio gydag Awdurdod Iechyd Gwent ar gynllun peilot i gyflwyno gwasanaeth deintyddol personol er mwyn ei gwneud yn haws i weld deintyddion y GIG mewn rhai ardaloedd difreintiedig. Yr ydym yn hyderus y caiff hwnnw ei lansio'n fuan. Amlinellir cynigion pellach ar gyfer gwella gofal deintyddol



Primary Dental Care in Wales', published recently. That was informed by the dental workforce review undertaken in Wales last year. The strategy presents challenges that demand new and innovative approaches in the delivery of primary dental services.

**Lynne Neagle:** I welcome your commitment to considering the needs of deprived communities. The consultation on dental services makes it clear that access is crucial to many communities in Wales. Do you agree that, before we even start to consider fluoridation—about which I have serious reservations—we must, among other issues, address basic access to services? I refer particularly to the expansion of community dental services in deprived communities, where the incidence of dental disease is higher.

**Jane Hutt:** I am glad that Gwent Health Authority has been allocated £150,000 over two years to purchase additional access sessions for people who are unable or, in some cases, unwilling to register with a dentist for continuing care. The number of adults and children registering with dentists in Gwent is higher than in the rest of Wales and in England. The number of principal dentists in Wales has risen by 17 per cent over the last 10 years, compared with only a 10 per cent rise in England. The £4.8 million invested in the Welsh dental initiative is making an impact.

I also believe that the £0.5 million allocated to the dental fissure sealant scheme, to prevent oral decay among children and people living in our most deprived communities, will make the sort of difference expected to our dental services.

**David Davies:** Minister, you say that you are making an impact, but you may be interested to know that one of my constituents recently moved to Abergavenny and was appalled to discover that gaining access to an NHS dentist

sylfaenol yn fy nogfen ymgynghorol, 'Ffurdd i Ddiwygio: Strategaeth ar gyfer Gofal Deintyddol Sylfaenol yng Nghymru' a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Llywiodd y ddogfen honno gan yr adolygiad o'r gweithlu deintyddol a gynhaliwyd yng Nghymru y llynedd. Mae'r strategaeth yn cyflwyno heriau sy'n gofyn am fabwysiadu ymagweddau newydd ac arloesol wrth ddarparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol.

**Lynne Neagle:** Croesawaf eich ymrwymiad i ystyried anghenion cymunedau difreintiedig. Mae'r ymgynghoriad ar wasanaethau deintyddol yn amlygu'r ffaith bod mynediad yn hanfodol i lawer o gymunedau yng Nghymru. A gytunwch, cyn inni hyd yn oed ddechrau ystyried fflworideiddio—y mae gennyf amheuan difrifol yn ei gylch—fod rhaid inni, ymhlith materion eraill, fynd i'r afael â mynediad sylfaenol i wasanaethau? Cyfeiriaf yn arbennig at ehangu gwasanaethau deintyddol cymunedol mewn cymunedau difreintiedig, lle y mae clefydau deintyddol yn fwy cyffredin.

**Jane Hutt:** Yr wyf yn falch bod £150,000 o gyllid wedi'i ddyrannu i Awdurdod Iechyd Gwent dros ddwy flynedd i brynu sesiynau mynediad ychwanegol i bobl nad ydynt yn gallu, neu nad ydynt yn fodlon, mewn rhai achosion, cofrestru â deintydd am ofal parhaus. Mae nifer yr oedolion a'r plant sy'n cofrestru â deintyddion yng Ngwent yn uwch na'r ffigurau yng ngweddill Cymru ac yn Lloegr. Mae nifer yr uwch-ddeintyddion yng Nghymru wedi codi 17 y cant dros y 10 mlynedd diwethaf, o'i gymharu â chynnydd o 10 y cant yn unig yn Lloegr. Mae ein menter ddeintyddol gwerth £4.8 miliwn yng Nghymru yn cael effaith.

Credaf hefyd y bydd y £0.5 miliwn a ddyrannwyd i'r cynllun selio holltau deintyddol, i atal pydredd dannedd ymhlith plant a phobl sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, yn gwneud y math o wahaniaeth a ddisgwylir i'n gwasanaethau deintyddol.

**David Davies:** Weinidog, yr ydych yn dweud eich bod yn cael effaith, ond efallai yr hoffech wybod bod un o'm hetholwyr wedi symud i'r Fenni yn ddiweddar ac yr oedd yn rhyfeddu at ganfod bod cofrestru â deintydd y GIG bron

is virtually impossible. In fact, he wrote an article lamenting the state of NHS dental care under your administration in the local newspaper. That constituent was none other than the local Member of Parliament, Huw Edwards. If the local Labour MP cannot gain access to an NHS dentist, what hope is there for the rest of us?

**Jane Hutt:** I have mentioned the £4.8 million Welsh dental initiative, which resulted in a 17 per cent increase in principal dentists in Wales, compared with a 10 per cent increase in England. Since the launch of stage 3 in March, a practice in Abertillery has expanded its NHS commitment, and grants have been approved—you will be interested in this, David—for new or expanded practices in Caldicott, Abergavenny and Brynmawr. This demonstrates that the Welsh Assembly Government's Welsh dental initiative is making a difference, and I am sure that Huw Edwards will write a positive article as a result of my answer to your question today.

**Elin Jones:** Pa drafodaethau a gawsoch gydag Ysgrifennydd Iechyd San Steffan ynglŷn â diwygio system taliadau deintyddion NHS, er mwyn arbed yr hyn sy'n weddill o wasanaeth deintyddol yr NHS?

**Jane Hutt:** General dental service legislation will be introduced in the new year. That will be important in terms of raising the retirement age. Currently, health authorities are required to remove their general dental practitioners from their dental lists on the grounds of age, but the new legislation will enable older dentists to stay in the service for longer, until the age of 70. It will also extend the range of occasional treatments available to those patients in Wales who are unable or unwilling to register with a dentist. An assessment fee will also be introduced for treatment courses or occasional treatment undertaken, which is important in relation to the payment of dentists. Patient charge exemptions will be consistent with those applied to dental examinations in Wales. In addition, we will be considering a new dental contract in future, which will address the issue that you raised, Elin.

yn amhosibl. Yn wir, ysgrifennodd erthygl yn disgrifio cyflwr gofal deintyddol y GIG o dan eich gweinyddiaeth yn y papur lleol. Nid oedd yr etholwr hwnnw yn neb llai na'r Aelod Seneddol lleol, Huw Edwards. Os na all yr AS Llafur lleol gofrestru â deintydd y GIG, pa obaith sydd i'r gweddill ohonom?

**Jane Hutt:** Crybwyllais y fenter ddeintyddol gwerth £4.8 miliwn yng Nghymru a arweiniodd at 17 y cant o gynnydd mewn uwch-ddeintyddion yng Nghymru, o gymharu â 10 y cant yn Lloegr. Ers lansio cam 3 ym mis Mawrth, mae practis yn Abertyleri wedi ehangu ei ymrwymiad i'r GIG, a chymeradwywyd grantiau—bydd hyn o ddiddordeb i chi, David—ar gyfer ehangu practisau neu sefydlu rhai newydd yn Caldicot, y Fenni a Brynmawr. Dengys hyn fod menter ddeintyddol Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud gwahaniaeth, ac yr wyf yn siŵr y bydd Huw Edwards yn ysgrifennu erthygl gadarnhaol o ganlyniad i'm hateb i'ch cwestiwn heddiw.

**Elin Jones:** What discussions have you had with the Secretary of State for about reforming the payment system for NHS dentists, in order to save what is left of the NHS dental service?

**Jane Hutt:** Cyflwynir deddfwriaeth gyffredinol yn ymwneud â gwasanaethau deintyddol yn y flwyddyn newydd. Bydd hynny'n bwysig o ran codi oedran ymddeol. Ar hyn o bryd, mae angen i awdurdodau iechyd dynnu enwau eu hymarferwyr deintyddol cyffredinol o'u rhestrau deintyddol ar sail oedran, ond bydd y ddeddfwriaeth newydd yn galluogi deintyddion hŷn i aros yn y gwasanaeth am gyfnod hwy, tan 70 oed. Bydd hefyd yn ehangu ystod y triniaethau achlysurol sydd ar gael i'r cleifion hynny yng Nghymru nad ydynt yn gallu neu nad ydynt yn fodlon cofrestru â deintydd. Cyflwynir ffi asesu hefyd ar gyfer cyfres o driniaethau neu driniaethau achlysurol a gyflawnir, sy'n bwysig o ran talu deintyddion. Bydd y system ar gyfer eithrio cleifion rhag talu yn gyson â'r un a gymhwysir i archwiliadau deintyddol yng Nghymru. Yn ogystal, byddwn yn ystyried contract deintyddol newydd yn y dyfodol, a fydd yn mynd i'r afael â'r mater a godwyd gennych, Elin.

## **Cartrefi Gofal i'r Henoed** **Care Homes for the Elderly**

**C6 Rhodri Glyn Thomas:** Pa gymorth ychwanegol fydd y Gweinidog yn ei estyn eleni i gartrefi gofal i'r henoed? (OAQ20646)

**Jane Hutt:** Local authorities and the NHS—as is appropriate—contract the services from care homes. Over and above the mainstream funding that I have provided this year, an additional £12 million in grants to local authorities will be provided to help protect capacity in the care home sector. That money is also tackling delayed transfers of care. From next year, that support will be consolidated with additional resources from the local government revenue settlement.

**Rhodri Glyn Thomas:** Bydd y Gweinidog yn ymwbyddol o fwriad Cyngor Sir Gaerfyrddin i gadw'r cyfrifoldeb am gartrefi gofal o fewn yr awdurdod. Bydd cost gwneud hynny yn llawer mwy na'r hyn y mae'r Gweinidog yn ei gynnig i Gymru gyfan. Sut y mae hi am gynorthwyo'r cyngor i sicrhau bod cyfrifoldeb am y cartrefi hyn yn cael ei gadw o fewn yr awdurdod a'u bod o'r safon uchaf posibl?

**Jane Hutt:** It is up to the local authorities, through the Wales Programme for Improvement and the Best Value regime, to consider how they want to take forward their provision of care for the elderly. Carmarthenshire has decided, on the basis of this review, that it wishes to retain its homes and ensure that they meet the minimum standards of the Care Standards Act 2000. It will take that forward in partnership with the local health board, which will share responsibility for commissioning intermediate care from 1 April. The extra £12 million, which will be provided to local government over the next three years, year on year, will assist that. However, we have also made available a £12 million capital allocation for local authorities that wish to bring their homes to the minimum regulation standard of the Care Standards Act 2000.

**Kirsty Williams:** Capacity and resources in

**Q6 Rhodri Glyn Thomas:** What additional assistance will the Minister offer this year to homes for the elderly? (OAQ20646)

**Jane Hutt:** Mae awdurdodau lleol a'r GIG—fel sy'n briodol—yn contractio'r gwasanaethau o gartrefi gofal. Yn ychwanegol at y cyllid prif ffrwd a ddarparwyd gennyf eleni, darperir £12 miliwn ychwanegol mewn grantiau i awdurdodau lleol i helpu i ddiogelu capasiti yn y sector cartrefi gofal. Mae'r arian hwnnw hefyd yn mynd i'r afael ag achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal. O'r flwyddyn nesaf, caiff y cymorth hwnnw ei gyfuno ag adnoddau ychwanegol o setliad refeniw llywodraeth leol.

**Rhodri Glyn Thomas:** The Minister will be aware of Carmarthenshire County Council's intention to retain responsibility for care homes within the authority. The cost of doing that will be far higher than the total amount offered by the Minister for the whole of Wales. How will she assist the council to ensure that responsibility for these homes is retained within the authority and that they will be of the highest possible standard?

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol, drwy Raglen Cymru ar gyfer Gwella a'r gyfundrefn Gwerth Gorau, yw ystyried sut y bwriadant ddatblygu eu darpariaeth gofal ar gyfer yr henoed. Mae Sir Gaerfyrddin wedi penderfynu, ar sail yr adolygiad hwn, ei bod yn dymuno cadw ei chartrefi a sicrhau eu bod yn bodloni safonau gofynnol Deddf Safonau Gofal 2000. Bydd yn datblygu hynny mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd lleol, a fydd yn rhannu'r cyfrifoldeb dros gomisiynu gofal canolraddol o 1 Ebrill. Bydd y £12 miliwn ychwanegol, a gaiff ei ddarparu i lywodraeth leol dros y tair blynedd nesaf, blwyddyn ar ôl blwyddyn, yn cynorthwyo o ran hynny. Fodd bynnag, yr ydym hefyd wedi sicrhau bod dyraniad cyfalaf o £12 miliwn ar gael i awdurdodau lleol sydd am sicrhau bod eu cartrefi yn cyrraedd safon reoleiddio gofynnol Deddf Safonau Gofal 2000.

**Kirsty Williams:** Mae capasiti ac adnoddau yn

the social care sector affect acute NHS facilities and account for approximately 57 per cent of delayed transfers of care cases. What will you do to ensure that the money that has been made available to local authorities is spent on social services, which, unfortunately, have not received a high level of political priority in the past?

**Jane Hutt:** The political priority for personal social services is now strongly shared with our local government colleagues. I meet with social services cabinet leaders on a regular basis across all the unitary authorities in Wales, and we discuss the issues of personal social services and include them in the agenda. I also meet with the leader of the Welsh Local Government Association, Sir Harry Jones, and his colleagues, together with the NHS, to discuss these issues. We are carefully monitoring the way that money is being spent on delayed transfers of care. You know that information has already been provided to the Health and Social Services Committee, and we have a Wales care strategy group, which includes local government, the independent sector and voluntary sector. That group's discussions informs our strategy for the care sector as a whole for the next decade. I also envisage that it will put personal social services at the top of the agenda.

2:20 p.m.

**David Ian Jones:** I am sure that you recognise the fundamental importance that private care homes play in the delivery of the health service in Wales. I am sure that you share my concern at the alarming rate of closure of private care homes, which is putting an intolerable burden on the NHS. Will you help to relieve that burden by making an immediate ring-fenced cash injection into the system to enable private homes to charge a proper rate for their services, equivalent to that charged by council-run homes? Secondly, will you enter into urgent negotiations with bodies such as Care Forum Wales to ensure that clear guidance is given on the implementation of the Care Standards Act 2000, which is

the y sector gofal cymdeithasol yn effeithio ar gyfleusterau aciwt y GIG ac yn cyfrif am tua 57 y cant o achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal. Beth a wnewch chi i sicrhau y caiff yr arian a glustnodwyd ar gyfer awdurdodau lleol ei wario ar wasanaethau cymdeithasol, na chafodd, yn anffodus, flaenoriaeth wleidyddol uchel yn y gorffennol?

**Jane Hutt:** Bellach, rhennir y flaenoriaeth wleidyddol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol personol yn gadarn gyda'n cydweithwyr mewn llywodraeth leol. Byddaf yn cyfarfod ag arweinwyr cabinet gwasanaethau cymdeithasol yn rheolaidd ar draws yr holl awdurdodau unedol yng Nghymru, a thrafodwn faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol personol a'u cynnwys yn yr agenda. Byddaf hefyd yn cwrdd ag arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Syr Harry Jones, a'i gydweithwyr, ynghyd â'r GIG, i drafod y materion hyn. Yr ydym yn monitro'n ofalus y ffordd y caiff arian ei wario ar achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal. Gwyddoch fod gwybodaeth wedi'i darparu eisoes i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a bod gennym grŵp strategaeth gofal Cymru, sy'n cynnwys llywodraeth leol a'r sectorau annibynnol a gwirfoddol. Mae trafodaethau'r grŵp hwnnw yn llywio ein strategaeth ar gyfer y sector gofal yn gyffredinol ar gyfer y degawd nesaf. Rhagwelaaf hefyd y bydd yn gosod gwasanaethau cymdeithasol personol ar frig yr agenda.

**David Ian Jones:** Yr wyf yn siŵr eich bod yn cydnabod pwysigrwydd sylfaenol cartrefi gofal preifat i ddarparu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Yr wyf yn siŵr eich bod yn rhannu fy mhryder ynghylch nifer sylweddol y cartrefi gofal preifat sy'n cau, sy'n gosod baich annioddefol ar y GIG. A wnewch chi helpu i leddfu'r baich hwnnw drwy neilltuo arian ar unwaith i'r system er mwyn galluogi cartrefi preifat i godi cyfradd briodol am eu gwasanaethau eu hunain, sy'n cyfateb â'r gyfradd honno a godir gan gartrefi a gaiff eu rhedeg gan gynghorau? Yn ail, a wnewch chi gychwyn negodiadau brys â chyrff megis Fforwm Gofal Cymru i sicrhau y rhoddir canllawiau clir ar y broses o weithredu Deddf Safonau Gofal 2000, sy'n achosi pryder

causing massive concern to private care home proprietors?

**Jane Hutt:** I have to excuse you as a new boy because you are clearly not aware of the fact that for the past three and a half years, I have been taking these issues seriously. I meet regularly with Care Forum Wales, with which I enjoy an excellent working relationship and representatives of which are members of the Wales care strategy group. Furthermore, I have invested an extra £12 million into reducing delayed care transfers throughout Wales. Half of that sum has contributed towards increasing the fees paid to private sector care homes. I assure you that this work has been well-monitored, well-resourced, and is being taken forward through a partnership brief.

sylweddol i berchenogion cartrefi gofal preifat?

**Jane Hutt:** Rhaid imi eich esgusodi fel bachgen newydd oherwydd, yn amlwg, nid ydych yn ymwybodol o'r ffaith, ers y tair blynedd a hanner diwethaf, i mi roi ystyriaeth ddifrifol i'r materion hyn. Byddaf yn cyfarfod yn rheolaidd â Fforwm Gofal Cymru, y mae gennyf berthynas waith ardderchog â'i aelodau. Mae gan y fforwm gynrychiolwyr yn grŵp strategaeth gofal Cymru. Ymhellach, yr wyf wedi clustnodi £12 miliwn ychwanegol ar gyfer lleihau achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal ledled Cymru. Mae hanner y swm hwnnw wedi cyfrannu at leihau'r ffioedd a delir i gartrefi gofal sector preifat. Fe'ch sicrhaf fod y gwaith hwn wedi'i fonitro'n dda, bod digon o adnoddau ar gael ar ei gyfer, a'i fod yn cael ei ddatblygu drwy friff partneriaeth.

### Archwiliad Cofnodion Troseddol Criminal Records Checks

**Q7 Eleanor Burnham:** Will the Minister make a statement on the number of people working in the social care sector currently awaiting criminal records checks? (OAQ20532)

**Jane Hutt:** Information on the number of people working in social care who await disclosure is not held centrally. The Care Standards Inspectorate for Wales has around 990 outstanding disclosure applications to be checked. I have written to Lord Falconer, Minister of State at the Home Office, outlining my concerns.

**Eleanor Burnham:** Care staff in England, and possibly Wales, will not be checked and vetted by the Criminal Records Bureau for the foreseeable future. Should we not take a different approach to the one pursued by the Department of Health on this serious matter? Do you share my concerns about the decision not to vet carers providing one-to-one help to vulnerable people in their own homes?

**Jane Hutt:** The balance must be struck. I am aware of many organisations that are unable

**C7 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y bobl sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol nad oes archwiliad cofnodion troseddol wedi ei gynnal arnynt eto? (OAQ20532)

**Jane Hutt:** Ni chaiff y wybodaeth am nifer y bobl sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol sy'n aros am ddatleniad ei gadw'n ganolog. Mae gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru tua 990 o geisiadau dadleniad sy'n aros i'w harchwilio. Yr wyf wedi ysgrifennu at Arglwydd Falconer, y Gweinidog Gwladol yn y Swyddfa Gartref, yn amlinellu fy mhryderon.

**Eleanor Burnham:** Ni chaiff staff gofal yn Lloegr, ac efallai yng Nghymru, eu harchwilio a'u gwirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn y dyfodol agos. Oni ddylem gymryd ymagwedd wahanol i'r un y mae'r Adran Iechyd yn ei dilyn ar y mater difrifol hwn? Oni rannwch fy mhryderon am y penderfyniad i beidio ag archwilio gofalwyr sy'n darparu cymorth personol i bobl ddi-amddiffyn yn eu cartrefi eu hunain?

**Jane Hutt:** Rhaid sicrhau cydbwysedd. Yr wyf yn ymwybodol o sawl sefydliad na allant

to provide care to their full potential and capacity. I visited Home-Start recently, where there are many volunteers waiting to take on an enhanced role to help families in the community. We have to ensure that they can move forward to undertake that work under proper supervision. As you know, I recently introduced amendments to regulations in England and Wales, which should help to reduce the demand for disclosures. However, such a process must be carefully monitored and supervised. It is a question of balance. We must ensure that we are flexible regarding the current circumstances and that appropriate safeguards are in place.

**Alun Cairns:** Perhaps I could help the Minister. She said that the information on the number of people working in social care and awaiting disclosure was not held centrally, but it was confirmed this morning that more people are waiting to be vetted now than ever before. The chief executive confirmed that on the radio this morning. With that in mind, what hope can she offer these voluntary sector organisations, whose operations have been hampered and are now under threat of closure because of a lack of action by her Government?

**Jane Hutt:** I share the Members' concerns and those of the voluntary sector. We must ensure that we have a correct balance between flexibility and appropriate safeguards. I am confident that the voluntary sector is handling and managing this carefully. I am working closely with the voluntary and statutory sectors to ensure that work can progress. We are also applying pressure on the Government to ensure that it sorts out the Criminal Records Bureau.

ddarparu gofal i'w llawn potensial a'u gallu. Ymwelais â Home-Start yn ddiweddar, lle mae llawer o wirfoddolwyr yn aros i ddechrau ymgymryd â'u rôl ehangach o helpu teuluoedd yn y gymuned. Rhaid inni sicrhau y gallant symud ymlaen i ymgymryd â'r gwaith hwnnw o dan oruchwyliaeth briodol. Fel y gwyddoch, cyflwynais welliannau yn ddiweddar i reoliadau yng Nghymru a Lloegr, a ddylai fod o help i leihau'r galw am ddatleniadau. Fodd bynnag, rhaid monitro a goruchwyllo proses o'r fath yn ofalus. Mae'n ymwneud â chydbwysedd. Rhaid inni sicrhau ein bod yn hyblyg o ran yr amgylchiadau presennol a bod dulliau diogelu priodol ar waith.

**Alun Cairns:** Efallai y gallaf helpu'r Gweinidog. Dywedodd na chaiff y wybodaeth am nifer y bobl sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol ac sy'n aros am ddatleniad ei chadw'n ganolog, ond cadarnhawyd y bore yma fod mwy o bobl nag erioed yn aros i gael eu harchwilio. Cadarnhaodd y prif weithredwr hynny ar y radio y bore yma. O gofio hynny, pa obaith y gall y Gweinidog ei gynnig i'r sefydliadau sector gwirfoddol hyn, y mae eu gweithgareddau wedi eu llesteirio ac sydd bellach yn wynebu'r bygythiad o orfod cau oherwydd diffyg gweithredu gan ei Llywodraeth?

**Jane Hutt:** Rhannaf bryderon yr Aelodau ynghyd â rhai'r sector gwirfoddol. Rhaid inni sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng hyblygrwydd a diogelwch priodol. Yr wyf yn hyderus bod y sector gwirfoddol yn ymdrin â hyn ac yn ei reoli'n ofalus. Yr wyf yn cydweithio'n agos â'r sectorau gwirfoddol a statudol i sicrhau y gall y gwaith fynd rhagddo. Yr ydym hefyd yn pwysu ar y Llywodraeth i sicrhau ei bod yn datrys problemau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol.

### **Cartrefi Preswyl a Chartrefi Nyrsio yn y Sector Annibynnol Residential and Nursing Homes in the Independent Sector**

**Q8 David Melding:** Will the Minister make a statement on the current fee levels for residential and nursing homes in the independent sector? (OAQ20590)

**Jane Hutt:** Fee levels vary according to the care and facilities provided, the nature of the

**C8 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefel y ffioedd mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio yn y sector annibynnol ar hyn o bryd? (OAQ20590)

**Jane Hutt:** Mae lefelau ffioedd yn amrywio yn ôl y gofal a'r cyfleusterau a ddarperir,

commissioning arrangement, and local circumstances. It is for self-funders, the NHS and local authorities, as appropriate, to negotiate fee levels with service providers. For local authority commissioned care, Best Value provides the framework to assess the services provided and for comparisons to be made to gauge quality and cost.

**David Melding:** Since you became Minister for Health and Social Services, we have lost approximately 10 per cent of our nursing home beds in Wales. Does that not indicate that fee levels are inadequate and that, therefore, the market cannot sustain the current number of beds? This is having a dramatic effect on healthcare as it makes waiting lists longer and denies people more home-like care, leaving them instead stacked up in hospitals, which is not an appropriate environment for them.

**Jane Hutt:** As I said in reply to an earlier question, we have responded to this by providing an additional £5 million to local government. That was increased to £12 million, and is £12 million recurrently for the next three years. As you know, David, about half of that additional money has been invested in the care home sector to increase fees. Local authorities have made that decision. We must also remember that the majority of people would prefer to remain independent and stay in their homes if possible. I am glad that the Care and Repair Agency's rapid adaptations response teams are making a huge difference, as is the six weeks' free home care scheme that I launched. That enables people to return to their own homes and to live independently. It is a matter of choice and balance, and resources are being invested in intermediate care in the care home sector as well as in support for independent living.

natur y trefniant comisiynu, ac amgylchiadau lleol. Y rhai sy'n ariannu eu hunain, y GIG ac awdurdodau lleol, fel y bo'n briodol, sy'n gyfrifol am negodi lefel y ffioedd gyda darparwyr y gwasanaethau. O ran y gofal a gomisiynir gan awdurdodau lleol, mae Gwerth Gorau yn darparu'r fframwaith ar gyfer asesu'r gwasanaethau a ddarperir a gwneud cymariaethau i fesur ansawdd a chost.

**David Melding:** Ers ichi ddod yn Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr ydym wedi colli tua 10 y cant o'r gwelyau mewn cartrefi nyrsio yng Nghymru. Onid yw hynny yn dangos bod lefel y ffioedd yn annigonol ac felly, nad yw'r farchnad yn gallu cynnal y nifer presennol o welyau? Mae hyn yn cael cryn effaith ar ofal iechyd drwy wneud rhestrau aros yn hwy a thrwy atal pobl rhag derbyn mwy o ofal sy'n debyg i ofal cartref, gan adael iddynt bentyrru mewn ysbytai, nad yw'n amgylchedd priodol ar eu cyfer.

**Jane Hutt:** Fel y dywedais mewn ymateb i gwestiwn blaenorol, yr ydym wedi ymateb i hynny drwy roi £5 miliwn yn ychwanegol i lywodraeth leol. Cynyddwyd hynny i £12 miliwn, ac mae'n £12 miliwn y flwyddyn ar gyfer y tair blynedd nesaf. Fel y gwyddoch, David, cafodd oddeutu hanner yr arian ychwanegol hwnnw ei fuddsoddi yn y sector cartrefi gofal i gynyddu ffioedd. Awdurdodau lleol a wnaeth y penderfyniad hwnnw. Rhaid inni gofio hefyd y byddai'n well gan y mwyafrif o bobl barhau'n annibynnol ac aros yn eu cartrefi eu hunain os yn bosibl. Yr wyf yn falch bod timau ymateb cyflym i addasiadau yr Asiantaeth Gofal a Thrsio yn gwneud gwahaniaeth enfawr, yn ogystal â'r cynllun gofal cartref chwe wythnos am ddim a lansiwyd gennyf. Mae hynny yn galluogi pobl i ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain a byw'n annibynnol. Mae'n ymwneud â dewis a chydbwysedd, a buddsoddir adnoddau ar hyn o bryd yn y sector cartrefi gofal yn ogystal â chefnogi byw'n annibynnol.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning**

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 1 (OAQ20627) yn ôl.

**The Presiding Officer:** Question 1 (OAQ20627) has been withdrawn.

## Defnydd o Ysgolion Use of School Premises

**Q2 John Griffiths:** Will the Minister make a statement on the progress in developing greater community use of school premises in Wales? (OAQ20636)

**C2 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau o ran annog cymunedau i ddefnyddio mwy ar ysgolion yng Nghymru? (OAQ20636)

**The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson):** The report 'Narrowing the Gap in the Performance of Schools', which was sent to schools, local education authorities and other bodies, sets out the case for developing the interface between schools and their local communities. Provisions in the Education Act 2002, which I hope will come into effect in September 2003, will enable governing bodies to provide community facilities for the benefit of pupils, their families and local people. Consultation will take place on statutory guidance. The Assembly's budget plans for 2004-05 and 2005-06 indicate provision of £2 million and £7.1 million respectively to develop the community focus of schools. Schools, local education authorities and others will be consulted on the use of this funding.

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae'r adroddiad 'Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion', a anfonwyd i ysgolion, awdurdodau addysg lleol, a chyrrff eraill, yn nodi'r rhesymau dros ddatblygu cyswllt rhwng ysgolion a'u cymunedau lleol. Bydd darpariaethau o fewn Deddf Addysg 2002, y gobeithiaf a ddaw i rym ym mis Medi 2003, yn galluogi cyrrff llywodraethol i ddarparu cyfleusterau cymunedol a fydd o fudd i ddisgyblion, eu teuluoedd a phobl leol. Cynhelir ymgynghoriad ar arweiniad statudol. Mae cynlluniau cyllideb y Cynulliad ar gyfer 2004-05 a 2005-06 yn nodi darpariaeth o £2 filiwn a £7.1 miliwn yn eu tro i ddatblygu ffocws cymunedol yr ysgolion. Ymgynghorir ag ysgolion, awdurdodau addysg lleol ac eraill ynglŷn â defnyddio'r arian hwn.

**John Griffiths:** I hear what you say on funding, but will you monitor the situation to ensure that any necessary changes to funding mechanisms and how they work in practice are made so that community use of school premises is facilitated and encouraged, especially with regard to lifelong learning?

**John Griffiths:** Deallaf yr hyn a ddywedwch am ariannu, ond a wnewch chi fonitro'r sefyllfa i sicrhau y bydd unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i ddulliau ariannu a sut y'u gweithredir fel y gellir hwyluso a hybu defnydd y gymuned o adeiladau ysgolion, yn arbennig o ran dysgu gydol oes?

**Jane Davidson:** We took the power for this in the Education Act 2002—it is a power not a duty—because we knew that many of our governing bodies in Wales had ambitions with regard to opening school doors to many other different kinds of services. I spoke to representatives of Governors Wales last week, and they were broadly delighted with the powers. I am sure that many imaginative proposals will come forward, which will not just relate to education, but also to health and social care activities, for example, on school premises. There is an exciting future ahead of our schools as they extend further into community provision.

**Jane Davidson:** Cymerasom y pŵer dros hyn yn Neddf Addysg 2002—pŵer ydyw, nid dyletswydd—gan y gwyddem fod gan lawer o'n cyrrff llywodraethol yng Nghymru obeithion o ran agor drysau ysgolion i sawl math o wasanaethau gwahanol. Siaradais â chynrychiolwyr Llywodraethwyr Cymru yr wythnos diwethaf, ac yr oeddent yn falch iawn o'r pwerau. Yr wyf yn siŵr y caiff sawl cynnig creadigol eu cyflwyno, a fydd yn ymwneud, er enghraifft, â gweithgareddau iechyd a gofal cymdeithasol mewn ysgolion yn ogystal ag addysg. Mae dyfodol cyffrous yn wynebu ein hysgolion wrth iddynt ymestyn ymhellach i ddarpariaeth gymunedol.

**Gareth Jones:** Er mwyn cael cymunedau i

**Gareth Jones:** If communities are to make



ddefnyddio mwy ar ysgolion yng Nghymru, bydd angen i wahanol gyrff, megis awdurdodau a chynghorau lleol, clybiau a chymdeithasau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion, gydweithio. I ba raddau y mae'r gwahanol ddulliau o gyllido'r cyrff hyn, a'r ffaith bod ganddynt eu hagendâu eu hunain yn aml, yn tansilio cydweithio cymunedol? A fydd y strategaeth yr ydych wedi cyfeirio ati yn ddigon cydlynol i sicrhau y cyd-ddealltwriaeth angenrheidiol yn y maes hwn?

**Jane Davidson:** Ni chredaf fod y gwahanol ddulliau o gyllido yn tansilio prosiectau. Y ffactor bwysicaf yw pwerau newydd llywodraethwyr ysgolion. Pan oeddwn i yn gadeirydd corff llywodraethu ysgol, yr oedd yn amhosibl inni ddefnyddio'r ysgol ar gyfer gweithgareddau cymunedol, gan nad oedd gennym y pwerau i wneud hynny. Bydd y pwerau newydd yn datrys y broblem honno.

**Nick Bourne:** I draw your attention to the junior artisans club that is run at Llwyn yr Eos primary school, near Aberystwyth, in the electoral region that I represent. Pupils attend classes in cooking, horticulture, carpentry, joinery, and metalwork there and at Ceredigion's training centre at Llanbadarn Fawr. It is a successful project and has been promoted by local councillors Gareth Ellis and Goronwy Edwards who deserve great credit for that. [AN ASSEMBLY MEMBER: 'Are they Tories?'] They are Independent councillors.

**The Presiding Officer:** Order. There is no need for the Leader of the Welsh Conservatives to explain his supplementary—it only adds to its length.

**Nick Bourne:** Indeed not. However, I thought it was an interesting question. Given the possibility that we could face a severe shortage of skilled tradesmen and tradeswomen in the future, do you agree that this is an excellent project that should be rolled out throughout Wales?

**Jane Davidson:** I would be happy to receive more details on the project. There is a tremendous amount of out-of-school-hours activity throughout Wales. It is a way for

greater use of schools in Wales, various organisations, such as local authorities and councils, local clubs and societies and school governing bodies, must co-operate. To what extent do the various methods of funding these organisations, and the fact that they often have their own agendas, undermine community co-operation? Will the strategy to which you have referred be cohesive enough to ensure the mutual understanding required in this regard?

**Jane Davidson:** I do not believe that the different funding methods undermine projects. The most important factor is the new powers of school governors. When I chaired a school governing body, it was impossible for us to use the school for community activities, as we did not have the powers to do that. These new powers will solve that problem.

**Nick Bourne:** Tynnaf eich sylw at y clwb crefftwyr i bobl ifanc a gaiff ei gynnal yn ysgol gynradd Llwyn yr Eos, ger Aberystwyth, yn y rhanbarth etholaethol yr wyf yn ei chynrychioli. Bydd disgyblion yn mynychu dosbarthiadau coginio, garddio, gwaith coed, saernïaeth, a gwaith metel yn yr ysgol ac yng nghanolfan hyfforddiant Ceredigion yn Llanbadarn Fawr. Mae'n brosiect llwyddiannus ac fe'i hyrwyddwyd gan y cynghorwyr lleol Gareth Ellis a Goronwy Edwards sy'n haeddu clod mawr am hynny. [AELOD O'R CYNULLIAD: 'Ai Torïaid ydynt?'] Maent yn gynghorwyr Annibynnol.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid oes unrhyw angen i Arweinydd Ceidwadwyr Cymru egluro ei gwestiwn atodol—dim ond ychwanegu at ei hyd y mae hynny.

**Nick Bourne:** Yn sicr ddim. Fodd bynnag, yr oeddwn o'r farn ei fod yn gwestiwn diddorol. O gofio'r posibilrwydd y gallem wynebu prinder dybryd o grefftwyr medrus yn y dyfodol, a gytunwch fod hwn yn brosiect ardderchog y dylid ei gyflwyno ledled Cymru?

**Jane Davidson:** Byddwn yn falch o gael mwy o fanylion am y prosiect. Mae nifer fawr o weithgareddau y tu allan i oriau ysgol yn digwydd yng Nghymru. Mae'n fodd i

schools to reach out to their communities and to use the skills of people in the community, as well as the skills of those within the school. There are science, construction, sports and arts clubs across Wales. This year, we have given additional money to Education Extra to continue developing out-of-school-hours learning. I am confident that, with these new powers, the governing bodies will embrace these issues more widely.

ysgolion ymestyn allan i'w cymunedau a defnyddio sgiliau pobl yn y gymuned, yn ogystal â sgiliau rheini yn yr ysgol. Ceir clybiau gwyddoniaeth, adeiladu, chwaraeon a chelf ledled Cymru. Eleni, rhoddasom arian ychwanegol i Addysg a Mwy i barhau i ddatblygu dysgu yn ystod oriau y tu allan i'r ysgol. Gyda'r pwerau newydd hyn, yr wyf yn hyderus y bydd y cyrff llywodraethol yn ymgorffori'r materion hyn yn ehangach.

2:30 p.m.

### **Dysgu Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru Early Years Learning in Wales**

**Q3 Huw Lewis:** Will the Minister make a statement on the development of early years learning in Wales? (OAQ20579)

**C3 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygiad dysgu y blynyddoedd cynnar yng Nghymru? (OAQ20579)

**Jane Davidson:** We are on course to achieve our objective of providing all three-year-olds with a free half-time place by September 2004. I anticipate that in 2002-03 we will have created or brought forward the admission date for over 5,000 new places. We are also developing a new foundation phase for those aged three to seven, and I intend to consult on that in January 2003.

**Jane Davidson:** Yr ydym yn prysur gyrraedd ein nod o ddarparu lle hanner amser am ddim i bob plentyn teirblwydd oed erbyn mis Medi 2004. Erbyn 2002-03, disgwyliaf y byddwn wedi creu dyddiad mynediad, neu ei ddwyn ymlaen, ar gyfer 5,000 o leoedd newydd. Yr ydym hefyd yn datblygu cam sylfaen newydd ar gyfer plant tair i saith oed, a bwriadaf ymgynghori ar hynny ym mis Ionawr 2003.

**Huw Lewis:** I know that you will agree that getting early years education right is key to extending opportunities in the communities that we both represent. It is fundamental to the life chances of entire generations in our communities. I welcome the roll-out of integrated early years education centres as a positive step forward. The plans for centres in Pentre-bach and New Tredegar in my constituency have been warmly welcomed. Will you monitor the impact of those centres on the most deprived communities, and will you pledge to consider whether, in future, additional funding could be earmarked to provide more such centres in communities with the greatest need?

**Huw Lewis:** Gwn y byddwch yn cytuno bod sicrhau addysg briodol yn y blynyddoedd cynnar yn allweddol o ran ehangu cyfleoedd yn y cymunedau a gynrychiolir gan y ddau ohonom. Mae'n sylfaenol bwysig i gyfleoedd bywyd cenedlaethau cyfan yn ein cymunedau. Croesawaf gyflwyno canolfannau addysg blynyddoedd cynnar integredig fel cam cadarnhaol ymlaen. Mae'r cynlluniau ar gyfer canolfannau ym Mhentre-bach a Thredegar Newydd yn fy etholaeth i wedi cael croeso cynnes. A wnewch chi fonitro effaith y canolfannau hyn ar y cymunedau mwyaf difreintiedig, ac a wnewch chi addo ystyried a ellir clustnodi arian ychwanegol yn y dyfodol i ddarparu mwy o ganolfannau o'r fath yn y cymunedau sydd â'r angen mwyaf?

**Jane Davidson:** The purpose of the policy is to give every child the best start in life—to enhance educational achievements and to give children a better social base and a solid foundation for future development. I think that Merthyr, of all the local authorities, has

**Jane Davidson:** Diben y polisi yw rhoi'r dechrau gorau bosibl i bob plentyn—i wella cyflawniadau addysgol a rhoi gwell sail gymdeithasol i blant a sylfaen gadarn ar gyfer datblygiad yn y dyfodol. Credaf mai Merthyr, o bob un o'r awdurdodau lleol, sydd wedi

received the largest single investment in integrated centres to date. We will examine the impact of these centres on children's early development and we will work with local authorities to continue expansion in the coming year. Our colleagues in Estyn, and in the Social Services Inspectorate for Wales, will be involved in quality assurance work to ensure that children receive quality provision.

**Alun Cairns:** Un o bolisiau allweddol y Gweinidog yw annog dysgu drwy chwarae. Er mwyn sicrhau bod cyfle cyfartal o ran dysgu'r Gymraeg drwy chwarae, a yw'r Gweinidog yn cytuno bod eisiau ehangu gwasanaethau'r Mudiad Ysgolion Meithrin, yn enwedig yn ne ddwyrain Cymru?

**Jane Davidson:** Eleni yw'r flwyddyn gyntaf yr wyf wedi rhoi arian i'r Mudiad Ysgolion Meithrin. Darparwyd yr arian hwnnw i dalu am weithwyr datblygu. Penderfynais wneud hynny oherwydd yr wyf yn cytuno bod rôl Mudiad Ysgolion Meithrin mewn gweithredu'r agenda hon ar gyfer plant ifanc yn bwysig.

**Cynog Dafis:** Mae croeso cynnes i'r cynlluniau sydd ar y gweill yn awr ar gyfer plant o dair i bump oed, ond gofynnaf am y cyfnod cynharaf. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod angen datblygu, yn ogystal, addysgofal integredig ar gyfer y cyfnod o enedigaeth hyd at dair oed? Sut mae'n bwriadu cryfhau'r cydweithio rhyngddi hi a'r adran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod hyn yn digwydd?

**Jane Davidson:** Ni fedraf ddweud '*early entitlement*' yn Gymraeg, ond mae'n bolisi pwysig ac mae Jane Hutt a minnau yn gweithio gyda'n gilydd i'w ddatblygu. Mae Jane yn gyfrifol am blant o dan dair oed ac yr wyf i yn gyfrifol am blant yn y system addysg sydd dros dair oed. Yr ydym wedi datblygu'r polisi o ganolfannau addysg blynyddoedd cynnar integredig ar y cyd. Bu Jane a minnau yn trafod yr athroniaeth y tu ôl i'r polisi hwnnw yn ein cyfarfodydd misol i drafod y materion sydd yn gyffredin i bortffolio Jane a minnau.

derbyn y buddsoddiad unigol mwyaf mewn canolfannau integredig hyd yn hyn. Byddwn yn archwilio effaith y canolfannau hyn ar ddatblygiad cynnar y plant a byddwn yn cydweithio ag awdurdodau lleol i barhau â'r gwaith ymestyn yn y flwyddyn i ddod. Bydd ein cydweithwyr yn Estyn, ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, yn rhan o'r gwaith sicrwydd ansawdd i sicrhau bod plant yn derbyn darpariaeth o safon.

**Alun Cairns:** One of the Minister's key policies is to encourage learning through play. In order to ensure equality of opportunity with regard to learning Welsh through play, does the Minister agree that Mudiad Ysgolion Meithrin's services must be expanded, especially in south east Wales?

**Jane Davidson:** This year is the first year that I have given money to Mudiad Ysgolion Meithrin. That money was provided to fund development workers. I decided to do that because I agree that Mudiad Ysgolion Meithrin's role in implementing this agenda for young children is important.

**Cynog Dafis:** The proposed plans for children between three and five years of age have been warmly welcomed, but I will ask about the earliest period. Does the Minister agree that we must also develop integrated educare for the period from birth to three years of age? How does she intend to strengthen the collaboration between herself and the health and social services department to ensure that this happens?

**Jane Davidson:** I do not know how to say '*early entitlement*' in Welsh, but it is an important policy and Jane Hutt and I are working together to develop it. Jane is responsible for children up to three years of age, and I am responsible for children in the education system over three years of age. We have jointly developed the policy of integrated early years education centres. Jane and I have discussed the philosophy behind this policy in the monthly meetings held to discuss portfolio matters that overlap.

**Continwwm Addysgiadol drwy Gyfrwng y Gymraeg  
Welsh-medium Educational Continuum**

**C4 Rhodri Glyn Thomas:** Beth yw cynlluniau'r Gwenidog ar gyfer creu continwwm addysgiadol drwy gyfrwng y Gymraeg? (OAQ20650)

**Jane Davidson:** Yn 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol', argymhellodd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y dylid ymchwilo'n drylwyr i ymarferoldeb mesur hyfedredd disgyblion yn yn Gymraeg ar hyd gontinwwm ieithyddol. Edrychaf ymlaen at ganlyniadau'r ymchwil hwnnw.

**Rhodri Glyn Thomas:** Llongyfarchaf y Gweinidog am ateb mor dda yn y Gymraeg. Mae continwwm addysgiadol drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig. Cyfeiriodd y Gweinidog yn gynharach at yr angen i fuddsoddi mewn addysg feithrin ac addysgofal hefyd. Os oes galw yn cael ei greu yn y sectorau hynny, sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau y bydd gwir continwwm o addysg gynradd hyd at addysg uwch? A fydd hi'n disgwyl tan y bydd galw, neu a fydd hi'n paratoi i sicrhau y bydd yr adnoddau ar gael pan gyfyd y galw?

**Jane Davidson:** Ni allaf wneud sylw ar hynny, gan fydd Jenny yn gwneud datganiad ar yr iaith Gymraeg yn nes ymlaen heddiw. Mae continwwm yn bwysig, ond ni ddylid ei ystyried ar wahân. Er bod pawb yn cytuno ar bwysigrwydd continwwm, nid oes cytundeb ar y ffordd orau o fynd ati. Bydd yn rhaid ystyried materion fel dilyniant, trosglwyddiad a'r gwahanol ddulliau o ddysgu Cymraeg yn y cwricwlwm. Bydd rhaid hefyd meddwl am asesu dwbl ac achredu dwbl; dywedodd nifer o bobl wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig ystyried hynny. Ystyriwn y materion hynny, a bydd ymchwil ar hynny hefyd.

Pan ymwelais â Chanada, gwelais nifer o gynlluniau da yno i helpu plant i symud o'i mamiaith at ail iaith. Yr wyf yn ystyried gwneud hynny yng Nghymru o fis Medi 2003 ymlaen.

**Q4 Rhodri Glyn Thomas:** What are the Minister's plans to create a Welsh-medium educational continuum? (OAQ20650)

**Jane Davidson:** In 'Our Language: Its Future', the Education and Lifelong Learning Committee recommended that thorough research should be undertaken into the feasibility of measuring pupils' competence in Welsh along a linguistic continuum. I look forward to the fruits of that research.

**Rhodri Glyn Thomas:** I congratulate the Minister on answering so well in Welsh. A Welsh-medium educational continuum is important. The Minister referred earlier to the need to invest in nursery education and educare. However, if demand is generated in those sectors, how will the Minister ensure a genuine continuum from primary education through to higher education? Will she wait until that demand becomes apparent, or will she make provision to ensure that the resources are in place when it does become apparent?

**Jane Davidson:** I cannot comment on that as Jenny will make a statement on the Welsh language later on today. A continuum is important but we should not consider it in isolation. Although everyone agrees on the importance of a continuum, agreement has yet to be reached as to the best way to deliver that. We must consider issues such as continuity, transition and the different methods of teaching Welsh within the curriculum. We will also need to think about dual assessment and dual accreditation; several people told the Committee that it is important to consider those issues. We will consider those matters and there will also be research on that.

When I visited Canada, I saw several good schemes to help children move from their mother tongue to a second language. I am considering how to do that in Wales from September 2003 onwards.

**Peter Rogers:** English-speaking children who move into my area, Ynys Môn, attend a Welsh-speaking unit to learn basic Welsh before being integrated into local schools. That has had good results. Is this the practice throughout Wales and, if not, will funding be made available for such units in other parts of Wales?

**Peter Rogers:** Bydd plant Saesneg eu hiaith a fydd yn symud i mewn i'm hardal i, sef Ynys Môn, yn mynychu uned iaith Gymraeg er mwyn dysgu Cymraeg sylfaenol cyn cael eu hintegreiddio i'r ysgolion lleol. Ceir canlyniadau da o hynny. Ai dyma'r arfer ledled Cymru, ac os nad, a roddir arian tuag at unedau o'r fath mewn rhannau eraill o Gymru?

**Jane Davidson:** I have visited that unit and it works effectively. We are considering a range of potential policies to further encourage young people to learn Welsh, and to develop a second entry point into Welsh-medium education. That is what is unusual about Wales as a bilingual country: you must take your decision about whether to receive Welsh-medium education at the age of three or five. If you come from an English-speaking family, there are no other opportunities for you to move into Welsh-medium education. I am looking hard at this issue. It is not only a matter of straightforward moves into Welsh-medium education, but about creating other opportunities for young children to have a better understanding and use of the Welsh language.

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi ymweld â'r uned honno ac mae'n gweithio'n effeithiol. Yr ydym yn ystyried ystod o bolisiau posibl i annog pobl ifanc i ddysgu Cymraeg, a datblygu ail bwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Dyna sy'n anarferol am Gymru fel gwlad ddwyieithog: rhaid ichi wneud penderfyniad ynglŷn â derbyn addysg cyfrwng Cymraeg pan yn dair neu'n bump oed. Os ydych yn dod o deulu Saesneg ei iaith, nid oes cyfleoedd eraill i chi symud i mewn i addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Yr wyf yn edrych yn fanwl ar y mater hwn. Nid mater o symudiadau syml i addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ydyw, mae'n ymwneud â chreu cyfleoedd eraill i blant ifanc gael gwell dealltwriaeth a gwneud gwell defnydd o'r Gymraeg.

2:40 p.m.

### **Y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol The Basic Skills Strategy**

**Q5 Huw Lewis:** Will the Minister make a statement on the implementation of the basic skills strategy in Wales? (OAQ20580)

**C5 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar weithredu'r strategaeth sgiliau sylfaenol yng Nghymru? (OAQ20580)

**Jane Davidson:** The Basic Skills Agency is overseeing the implementation of our all-age strategy, which includes a wide range of actions to raise standards across the board. The strategy is progressing well and, earlier this month, I was delighted to launch a key component of the strategy for adults—the employer pledge scheme—which will support employers in improving the literacy and numeracy skills of their employees.

**Jane Davidson:** Mae'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn goruchwylio'r gwaith o weithredu ein strategaeth i bob oedran, sy'n cynnwys ystod eang o weithgareddau i godi safonau yn gyffredinol. Mae'r strategaeth yn datblygu'n dda, ac yn gynharach y mis hwn, yr oeddwn yn falch o lansio rhan allweddol o'r strategaeth i oedolion—y cynllun addewid cyflogwyr—a fydd yn cynorthwyo cyflogwyr i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd eu cyflogeion.

**Huw Lewis:** At a recent meeting of the Valleys Forward group of Assembly Members and Members of Parliament, we discussed the importance of the basic skills agenda to the communities that we represent.

**Huw Lewis:** Mewn cyfarfod diweddar y grŵp Valleys Forward, sy'n cynnwys Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol, trafodwyd pwysigrwydd yr agenda sgiliau sylfaenol i'r cymunedau a gynrychiolwn. Mae'n wir y

Arguably, the agenda will have a far greater impact in our communities than in some other parts of Wales. Are you prepared to work with the Basic Skills Agency to consider new ways of improving the take-up of basic skills education among adults? You have already referred to that in part. In particular, will you consider extending the Workers' Educational Association's work and building on its excellent work at Coleg Harlech? That could perhaps be rolled out to other parts of Wales, through the Wales Union Learning Fund and further education colleges in the Valleys, which have a wealth of experience in the field.

**Jane Davidson:** It is important that we can work with all partners on this agenda. The vast majority of people who have basic skills needs are in the workplace now and will still be there in 10 years' time. Therefore, it is important that we tackle their skills needs and address that. We are keen to ensure that we target programmes at areas of greatest need within local education authority areas. Those could be Valleys communities, rural communities or urban housing estates. All LEAs have strategic intervention grants to support local plans based on analysis of local data. That is also about considering programmes that help family literacy, for example. Those programmes are becoming effective in our schools. We must ensure that communities do not get left behind. That is why the work being carried out in the 43 projects funded by the Wales Union Learning Fund and the work by FE colleges is crucial. It ensures that there are many opportunities for people to participate in the basic skills agenda.

**Elin Jones:** Mae'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn datgan bod economi Cymru yn colli rhyw £600 miliwn y flwyddyn oherwydd lefel isel sgiliau sylfaenol. Mae rhai yn honni fod y golled yn agosach at £1 biliwn. Pryd y rhagwelwch y bydd sgiliau sylfaenol wedi codi i lefel sy'n sicrhau na fydd colled o'r fath yn digwydd?

**Jane Davidson:** Nodais y ffaith hon wrth lansio'r cynllun addewid cyflogwyr oherwydd bod ffigur o'r fath yn dweud

caiff yr agenda lawer mwy o effaith ar ein cymunedau ni nac ar rannau eraill o Gymru. A ydych yn barod i gydweithio â'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i ystyried ffyrdd newydd o gynyddu'r nifer o oedolion sy'n ymgymryd ag addysg sgiliau sylfaenol? Cyfeiriasoch eisoes at hynny yn rhannol. Yn benodol, a ystyriwch ymestyn gwaith Cymdeithas Addysg y Gweithwyr ac adeiladu ar ei waith ardderchog yng Ngholeg Harlech? Efallai y gellid cyflwyno hynny mewn rhannau eraill o Gymru, drwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru a cholegau addysg bellach yn y Cymoedd, sydd â chyfoeth o brofiad yn y maes.

**Jane Davidson:** Mae'n bwysig ein bod yn gallu cydweithio â'n holl bartneriaid ar yr agenda hon. Mae'r rhan fwyaf o bobl sydd ag anghenion sgiliau sylfaenol o fewn y gweithle yn awr a byddant yn dal yno ymhen 10 mlynedd. Felly, mae'n bwysig ein bod yn mynd i'r afael â'u hanghenion sgiliau hwy. Yr ydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn targedu rhaglenni mewn ardaloedd lle mae'r anghenion ar eu huchaf o fewn ardaloedd awdurdodau addysg lleol. Gallai'r rheini fod mewn cymunedau yn y Cymoedd, cymunedau gwledig neu ystadau tai trefol. Mae gan yr holl AALI grantiau ymyriad strategol i gynorthwyo cynlluniau lleol yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata lleol. Mae hynny hefyd yn ymwneud ag ystyried rhaglenni sy'n cynorthwyo llythrennedd teuluoedd, er enghraifft. Mae'r rhaglenni hynny yn dod yn effeithiol yn ein hysgolion. Rhaid inni sicrhau na chaiff cymunedau eu gadael ar ôl. Dyna pam bod gwaith y 43 o brosiectau a ariennir gan Gronfa Ddysgu Undebau Cymru a gwaith colegau addysg bellach mor hanfodol. Mae'n sicrhau bod sawl cyfle i bobl gyfranogi yn yr agenda sgiliau sylfaenol.

**Elin Jones:** The Basic Skills Agency states that Wales's economy loses around £600 million a year due to a low level of basic skills. Some suggest that the figure is closer to £1 billion. When do you anticipate that basic skills will be improved to a level that ensures the elimination of such losses?

**Jane Davidson:** I noted that fact when launching the employer pledge scheme because such a figure speaks volumes in terms

llawer wrth bobl am yr hyn y bydd yn rhaid i ni ei gyflawni. Yr wyf wedi darparu bron i £30 miliwn ar gyfer y strategaeth dros dair blynedd. Mae'r cynllun addewid cyflogwyr yn ffordd bwysig o alluogi cyflogwyr i weithio gyda'u staff. Gobeithiaf y bydd pob Aelod yn cefnogi'r polisi ac yn gofyn i gyflogwyr yn eu hetholaethau i gymryd rhan yn y cynllun.

**Brian Gibbons:** In relation to encouraging employers to take part in the scheme, a trade union academy has been established in my constituency. It uses the trade union movement as a vehicle to improve basic skills in the workplace. However, we have had some trouble in engaging employers in that. More effort is probably needed to persuade employers of the importance of this particular approach.

**Jane Davidson:** That is partly why we launched the employer pledge scheme. The basic skills agenda has been incredibly successful in schools in Wales. It has been more successful here than in any other part of the UK. Forty eight per cent of schools now have the primary quality mark. All schools in Newport and Gwynedd are well on target to get the primary and secondary quality marks shortly and are likely to be ahead of anywhere else in the UK. Twenty per cent of our schools have the secondary quality mark. There is huge engagement at that level. Our new early years material—launched recently at an enormous conference in Cardiff City Hall—demonstrates the full take-up of the agenda in that regard. However, as the Basic Skills Agency said when it gave a presentation to the Committee, reaching adults, particularly those who are already in work, is the most difficult task. That is why the employer pledge scheme is so important. We should encourage small and medium-sized enterprises, as well as larger enterprises, to sign up to it. The Assembly has signed up to it, and I have written to all the Assembly sponsored public bodies to ask them to do likewise. This scheme needs to be established with employers throughout Wales.

**Jonathan Morgan:** For any strategy to work, funding must be available. In particular, for

of what we need to achieve. I have provided nearly £30 million for the strategy over three years. The employer pledge scheme is an important way of enabling employers to work with their staff. I hope that all Members will support the policy and ask employers in their constituencies to participate in the scheme.

**Brian Gibbons:** O ran annog cyflogwyr i gymryd rhan yn y cynllun, sefydlwyd academi undeb llafur yn fy etholaeth i. Mae'n defnyddio'r mudiad undebau llafur fel cyfrwng i wella sgiliau sylfaenol yn y gweithle. Fodd bynnag, cawsom beth trafferth i gynnwys cyflogwyr yn hynny. Mae'n debygol bod angen mwy o ymdrech i argyhoeddi cyflogwyr o bwysigrwydd yr ymagwedd arbennig hon.

**Jane Davidson:** Dyna yn rhannol pam y lanswyd y cynllun addewid cyflogwyr. Bu'r agenda sgiliau sylfaenol yn llwyddiannus iawn mewn ysgolion yng Nghymru. Bu'n fwy llwyddiannus yma nac mewn unman arall yn y DU. Mae gan 48 y cant o ysgolion nod ansawdd cynradd bellach. Mae pob ysgol yng Nghasnewydd a Gwynedd yn prysur gyrraedd y targed o gael y nod ansawdd cynradd ac uwchradd ac maent yn debygol o fod ar y blaen i unman arall yn y DU. Mae gan 20 y cant o'n hysgolion nod ansawdd uwchradd. Mae'r cyfranogiad yn enfawr ar y lefel honno. Mae ein deunydd blynyddoedd cynnar newydd—a lanswyd yn ddiweddar mewn cynhadledd enfawr yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd—yn dangos cyfranogiad llawn yn yr agenda yn hynny o beth. Fodd bynnag, fel y dywedodd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol pan wnaeth gyflwyniad i'r Pwyllgor, cyrraedd rhieni, yn arbennig y rhai sydd eisoes mewn gwaith, yw'r dasg anoddaf. Dyna pam bod cynllun addewid y cyflogwyr mor bwysig. Dylem annog busnesau bach a chanolig eu maint, yn ogystal â mentrau mwy, i ymuno ag ef. Mae'r Cynulliad wedi dod yn rhan ohono, ac yr wyf wedi ysgrifennu at bob un o'r cyrff cyhoeddus a noddur gan y Cynulliad yn gofyn iddynt hwythau wneud hynny hefyd. Rhaid sefydlu'r cynllun hwn ymysg cyflogwyr ledled Cymru.

**Jonathan Morgan:** Rhaid bod arian ar gael er mwyn i unrhyw strategaeth lwyddo. Yn

the basic skills strategy to be successful, funding must be available to allow schools to deliver as we expect them to do. Given that, and given Cardiff County Council's review of school funding formulae, how on earth can schools in Cardiff North deliver on this or any other strategy that you may publish in the next few years? Some of the region's primary and secondary schools will lose tens of thousands of pounds from their annual budget if plans go ahead as expected. Will you meet the headteachers of those schools so that you can understand their concerns and better inform yourself of the damage that will be done if these plans proceed?

arbennig, er mwyn i'r strategaeth sgiliau sylfaenol lwyddo, rhaid bod arian ar gael i alluogi ysgolion i ddarparu'r hyn y disgwyliwn iddynt ei gyflawni. O gofio hynny, ac o ystyried adolygiad Cyngor Sir Caerdydd o fformiwlâu cyllido ysgolion, sut yn y byd y gall ysgolion yng Ngogledd Caerdydd ddarparu hyn neu unrhyw strategaeth arall y gallech ei chyhoeddi yn yr ychydig flynyddoedd nesaf? Bydd rhai o ysgolion cynradd ac uwchradd y rhanbarth yn colli degau o filoedd o bunnoedd o'u cyllideb flynyddol os bydd y cynlluniau yn datblygu yn ôl y disgwyl. A wnewch chi gwrdd â phenaethiaid yr ysgolion hynny er mwyn ichi ddeall eu pryderon a dod i ddeall mwy am y niwed a wneir pe bai'r cynlluniau hyn yn mynd rhagddynt?

**Jane Davidson:** You are like a parrot on this issue, given that you asked the same question in the Education and Lifelong Learning Committee. I answered the question then. As we have said on many occasions, local authorities are responsible for the delivery of education in their areas. If you, or anyone else, has concerns about how local authorities fund schools, you need to take those concerns to the relevant authority. As a result of the work on 'Narrowing the Gap in the Performance of Schools', we know that Members of all parties have concerns about the overall funding formula set by the Assembly, 75 per cent of which is related to pupil numbers. I have told the Committee, and now tell the Assembly, that we will consult on this issue after Christmas. I will write to all local authorities to inform them that this consultation will take place on the back of the suggestion made in the Audit Commission report, 'Money Matters', that authorities should review their formulae.

**Jane Davidson:** Yr ydych yn debyg i barot ar y mater hwn, gan ichi ofyn yr un cwestiwn yn y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Atebais y cwestiwn yr adeg honno. Fel y dywedasom ar sawl achlysur, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu addysg yn eu hardaloedd hwy. Os oes gennych chi, neu unrhyw un arall, bryderon am sut y mae awdurdodau lleol yn ariannu ysgolion, rhaid ichi gyflwyno'r pryderon hynny gerbron yr awdurdod perthnasol. O ganlyniad i'r gwaith ar 'Cau'r Bwlch ym Merfformiad Ysgolion', gwyddom fod gan Aelodau pob plaid bryderon am y fformiwla ariannu cyffredinol a bennwyd gan y Cynulliad, gyda 75 y cant ohono yn gysylltiedig â nifer y disgyblion. Dywedais wrth y Pwyllgor, ac yn awr dywedaf wrth y Cynulliad, y byddwn yn ymgynghori ar y mater hwn ar ôl y Nadolig. Byddaf yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol i'w hysbysu o'r ffaith y bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal o ganlyniad i awgrym a wnaed yn adroddiad 'Money Matters', y Comisiwn Archwilio, sef y dylai awdurdodau adolygu eu fformiwlâu.

### **Cwestiwn Brys Urgent Question**

#### **Swyddi Zurich Warranty Management Service Zurich Warranty Management Services Jobs**

**Janet Ryder:** Will the Minister please make a statement on the 120 jobs that are to be relocated from Zurich Warranty Management

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y 120 o swyddi sy'n cael eu hadleoli o Zurich Warranty Management



Services in Prestatyn to the midlands?  
(EAQ21041)

**The Minister for Economic Development (Andrew Davies):** I am disappointed to hear of these job losses. It is a significant blow to the local economy. However, I am encouraged that Zurich Warranty Management Services has pledged to provide assistance to the employees to find alternative employment and to offer redundancy compensation. Although the announcement was only made yesterday, I have already asked Team Wales to deal with the case, and the Welsh Development Agency is pursuing job opportunities for staff with other companies in the area. I met Ann Jones, the local Assembly Member, this morning to discuss the situation.

**Janet Ryder:** It is good to hear that you are already addressing the situation. This area previously suffered a blow as a result of the job losses at the Kwik Save headquarters. The development of the jobs at Zurich were welcome because they were highly-paid jobs for well qualified staff. Wales can ill afford to lose that type of employment. Losing a job is never easy, particularly so close to Christmas. Do you agree that there is a certain irony in this situation, in that the loss of 120 jobs is a massive blow to a town like Prestatyn, yet, according to *The Western Mail*, the same firm proposes to create 200 jobs in Cardiff? In addition to the work that you are already doing to help replace the jobs and sell the skills of workers in Prestatyn, will you press the company to consider locating those 200 jobs in Prestatyn, rather than Cardiff, to give this north Wales town hope and a future?

**Andrew Davies:** We will work with the WDA to look at securing alternative employment in Prestatyn. We will discuss with Zurich, and the related companies, how we could use their facilities to create jobs in the town. At least one company in the area is looking to recruit staff to carry out similar work, and the WDA and Team Wales are pursuing that opportunity. We will discuss with the company its employment and investment programme, which will obviously include Cardiff.

Services ym Mhrestatyn i ganolbarth Lloegr?  
(EAQ21041)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Mae'n siomedig gennyf glywed am y swyddi hyn a gollwyd. Mae'n gryn ergyd i'r economi leol. Fodd bynnag, fe'm calonogir gan y ffaith bod Zurich Warranty Management Services wedi addo rhoi cymorth i gyflogeion ddod o hyd i waith arall a chynnig iawndal oherwydd colli swydd. Er mai dim ond ddoe y gwnaethpwyd y cyhoeddiad, yr wyf eisoes wedi gofyn i Dîm Cymru ymdrin â'r achos, ac mae Awdurdod Datblygu Cymru yn ymchwilio i gyfleoedd am swyddi i'r staff gyda chwmnïau eraill yn yr ardal. Cyfarfûm ag Ann Jones, yr Aelod Cynulliad lleol, y bore yma i drafod y sefyllfa.

**Janet Ryder:** Mae'n dda clywed eich bod eisoes yn mynd i'r afael â'r sefyllfa. Cafodd yr ardal hon ergyd o'r blaen yn sgîl colli swyddi ym mhencadlys Kwik Save. Croesawyd y swyddi a ddatblygwyd o fewn Zurich gan eu bod yn swyddi â chyflog uchel i staff â chymwysterau da. Ni all Cymru fforddio colli'r math hwnnw o gyflogaeth. Nid yw colli swyddi byth yn hawdd, yn enwedig mor agos i'r Nadolig. A gytunwch bod y sefyllfa hon braidd yn eironig, yn yr ystyr bod colli 120 o swyddi yn ergyd drom i dref fel Prestatyn, ond eto, yn ôl *The Western Mail*, mae'r un cwmni yn creu 200 o swyddi yng Nghaerdydd? Yn ogystal â'r gwaith yr ydych eisoes yn ei wneud i helpu i gael swyddi newydd yn lle'r swyddi a gollwyd, a marchnata sgiliau gweithwyr ym Mhrestatyn, a wnewch chi bwysu ar y cwmni i ystyried lleoli'r 200 o swyddi ym Mhrestatyn, yn hytrach nag yng Nghaerdydd, a rhoi gobaith a dyfodol i'r dref hon yn y Gogledd?

**Andrew Davies:** Byddwn yn gweithio gyda'r WDA i geisio sicrhau cyflogaeth arall ym Mhrestatyn. Byddwn yn trafod gyda Zurich, a chwmnïau cysylltiedig, sut y gallwn ddefnyddio eu cyfleusterau i greu swyddi yn y dref. Mae o leiaf un cwmni yn yr ardal yn disgwyl recriwtio staff i wneud gwaith cyffelyb, ac mae'r WDA a Thîm Cymru yn mynd ar drywydd hynny. Byddwn yn trafod ei raglen gyflogi a buddsoddi gyda'r cwmni, a fydd yn amlwg yn cynnwys Caerdydd.

2:50 p.m.

**Ann Jones:** I am grateful to you for your rapid intervention, and also for meeting me this morning to discuss the situation. As I explained at that meeting, and as Janet has mentioned, this is a bitter blow for Prestatyn and, in particular, for the Zurich workforce, many of whom face redundancy for the second time, having been made redundant previously as a result of the closure of Kwik Save's headquarters. As Janet has alluded, these are highly-skilled jobs and we must ensure that such jobs remain in Prestatyn. Will you pledge to remain on top of this issue and work alongside myself, Chris Ruane—the local Member of Parliament—the WDA, Denbighshire County Council and the workforce to ensure that alternative employment is found, particularly given the time of year?

**Andrew Davies:** I pay tribute to your work, and that of the local MP, Chris Ruane. I know that you have already held discussions with the WDA, Denbighshire County Council and Jobcentre Plus, and I discussed the situation with you this morning. We take seriously all significant job losses, be they on the scale of the Corus job losses, the Dewhirst job losses in Swansea, Cardigan and Fishguard, or these job losses at Zurich. We will always take an active role in helping to combat job losses. We must remember, as a background to this, that unemployment in Wales is at its lowest for a generation. When I visited Fishguard recently, many employers told me that they face problems in terms of skill shortages. I am hopeful that the highly skilled Zurich workforce will find alternative employment. As Team Wales, we will do everything possible to find alternative employment for these workers.

**Alun Cairns:** I express the Welsh Conservative Party's sympathy to those who have lost their jobs. I want to question you about your complacency and about the self-congratulatory comments that you and Ann Jones have made on the communication that has taken place. The people of Prestatyn and the surrounding area who have lost their jobs want to know what action you are taking.

**Ann Jones:** Yr wyf yn ddiolchgar ichi am ymateb yn gyflym, a hefyd am gyfarfod â mi y bore yma i drafod y sefyllfa. Fel yr esboniais yn y cyfarfod hwnnw, ac fel y soniodd Janet, mae hon yn ergyd drom i Brestatyn ac, yn arbennig, i weithlu Zurich, y mae llawer ohonynt yn wynebu colli eu swyddi am yr ail dro, ar ôl colli swyddi o'r blaen o ganlyniad i gau pencadlys Kwik Save. Fel yr awgrymodd Janet, mae'r swyddi hyn yn rhai sy'n gofyn am lawer o sgiliau a rhaid inni sicrhau bod swyddi o'r fath yn aros ym Mhrestatyn. A wnewch chi addo parhau i lywio'r mater hwn a gweithio ochr ac ochr â minnau, Chris Ruane—yr Aelod Seneddol lleol—y WDA, Cyngor Sir Ddinbych a'r gweithlu i sicrhau y deur o hyd i gyflogaeth arall, yn enwedig o gofio'r adeg o'r flwyddyn?

**Andrew Davies:** Talaf deyrnged i'ch gwaith a gwaith yr AS lleol, Chris Ruane. Gwn eich bod eisoes wedi cynnal trafodaethau gyda'r WDA, Cyngor Sir Ddinbych a Chanolfan Byd Gwaith, a thrafodais y sefyllfa gyda chi y bore yma. Yr ydym yn cymryd pob achos lle y collir nifer sylweddol o swyddi o ddifrif, boed hynny ar raddfa'r swyddi a gollwyd yn Corus, a'r swyddi a gollwyd yn Dewhirst yn Abertawe, yn Aberteifi ac yn Abergwaun, neu'r swyddi hyn a gollir yn Zurich. Byddwn bob amser yn mynd ati i helpu i ddelio â cholli swyddi. Rhaid inni gofio, fel cefndir i hyn, bod diweithdra yng Nghymru ar ei hisaf ers cenhedlaeth. Pan ymwelais ag Abergwaun yn ddiweddar, dywedodd llawer o gyflogwyr wrthyf eu bod yn wynebu problemau o ran prinder sgiliau. Yr wyf yn obeithiol y daw gweithlu Zurich, sydd â llawer o sgiliau, o hyd i gyflogaeth arall. Fel Tîm Cymru, gwnawn bopeth o fewn ein gallu i ddod o hyd i waith arall i'r gweithwyr hyn.

**Alun Cairns:** Hoffwn fynegi cydymdeimlad Plaid Geidwadol Cymru i'r rhai a gollodd eu swyddi. Hoffwn eich holi ynglŷn â'ch hunanfodlonrwydd a'r sylwadau hunanglodforus a wnaethoch chi ac Ann Jones ar yr hyn sydd wedi'i gyfleu. Mae pobl Prestatyn a'r cyffiniau a gollodd eu swyddi am wybod pa gamau yr ydych yn eu cymryd. Maent am wybod pryd y byddwch yn mynd i

They want to know when you will go to meet them to look them in the eye and tell them why they have lost their jobs and what policies you are introducing to ensure that the site will be reused. Ann Jones commended you on the rapid action that you have taken. I hope that it is more rapid than the action that you took when jobs were lost in Fishguard, when five months passed before you visited the area. Will you commit to visiting Prestatyn as soon as possible, to look these workers in the eye and tell them why they have lost their jobs and how your policies have contributed to that? The recent trend is worrying. It is widely acknowledged that manufacturing is in recession. Jobs are also now being lost in the service sector, which undermines the economy. Will you reconsider the answer that you gave last week to a written Assembly question that I tabled, when you said that you had no plans to change the targets in 'A Winning Wales'? Even the Chancellor of the Exchequer is downgrading growth targets. Will you accept the reality that the Welsh economy is in a mess? At least then you can move on and introduce the right policies to prevent this from happening again.

**Andrew Davies:** You can look at a situation from many angles. The truth is that unemployment in Wales is at its lowest for a generation, there is a record number of people in employment and average earnings in Wales are rising—the rise in average earnings in Wales last year outstripped that of the rest of the UK. Those are hardly signs of an economy in crisis. We need to get real about this. The Government has responded immediately to job losses. We did so with Corus and Dewhirst and we are now doing so with Zurich. Zurich only made this announcement at 4 p.m. yesterday, I believe. The WDA and Team Wales are already working on this. As always, I am more than happy to meet the employers, the employees and the trade unions. I have always been ready to do so, be it in the Assembly or in the location of the job losses.

**Eleanor Burnham:** The Welsh Liberal Democrats sympathise with the employees

gyfarfod â hwy ac edrych ym myw eu llygaid a dweud wrthynt pam maent wedi colli eu swyddi a pha bolisiâu yr ydych yn eu cyflwyno i sicrhau y caiff y safle ei aildddefnyddio. Bu i Ann Jones eich canmol am weithredu'n gyflym. Gobeithio eich bod yn gweithredu'n gynt nag y gwnaethoch pan gollwyd swyddi yn Abergwaun, pan aeth pum mis heibio cyn ichi ymweld â'r ardal. A wnewch chi ymrwymo i ymweld â Phrestatyn mor fuan â phosibl, i edrych ym myw llygaid y gweithwyr hyn a dweud wrthynt pam maent wedi colli eu swyddi a sut mae'ch polisiâu wedi cyfrannu at hynny? Mae'r duedd ddiweddar yn achos pryder. Cydnabyddir yn gyffredinol bod dirwasgiad yn y sector gweithgynhyrchu. Erbyn hyn collir swyddi yn y sector gwasanaeth hefyd, sy'n tansilio'r economi. A wnewch chi ailystyried yr ateb a roesoch yr wythnos diwethaf i gwestiwn ysgrifenedig y Cynulliad a gyflwynais, pan ddywedasoch nad oeddech yn bwriadu newid y targedau yn 'Cymru'n Ennill'? Mae hyd yn oed Canghellor y Trysorlys yn lleihau'r targedau ar gyfer twf. A wnewch chi dderbyn y realiti bod economi Cymru mewn llanast? O leiaf wedyn gallwch symud ymlaen a chyflwyno'r polisiâu cywir i atal hyn rhag digwydd eto.

**Andrew Davies:** Gallwch edrych ar y sefyllfa mewn sawl ffordd. Y gwir amdani yw bod diweithdra yng Nghymru ar ei hisaf ers cenhedlaeth, mae'r nifer mwyaf o bobl erioed mewn cyflogaeth yng Nghymru ac mae enillion cyfartalog yng Nghymru ar gynnydd—yr oedd y cynnydd mewn enillion cyfartalog yng Nghymru y llynedd yn fwy na gweddill y DU. Go brin bod hynny'n arwydd o economi mewn argyfwng. Mae angen inni wynebu realiti. Ymatebodd y Llywodraeth ar unwaith pan gollwyd swyddi. Gwnaethom hynny yn achos Corus a Dewhirst ac yr ydym yn gwneud hynny yn awr yn achos Zurich. Dim ond ddoe am 4 p.m. y gwnaeth Zurich y cyhoeddiad hwn, fe gredaf. Mae'r WDA a Thîm Cymru eisoes yn gweithio ar hyn. Yn ôl fy arfer, yr wyf yn fwy na pharod i gwrdd â'r cyflogwyr, y gweithwyr a'r undebau llafur. Bûm erioed yn barod i wneud hynny, boed yn y Cynulliad neu yn yr ardal lle y collir y swyddi.

**Eleanor Burnham:** Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cydymdeimlo â'r

and their families, particularly given the time of year at which this announcement has been made. I understand the impact that this will have, as I have been in similar circumstances. I am grateful to Ann, Chris Ruane and yourself for your help. I am reassured that immediate support is available. I presume that the unions will be contacted to ensure that workers' rights are protected, as this has not always happened in the past, particularly in terms of pension rights. I understood, perhaps erroneously, that these jobs were being moved to the midlands. Could you enlighten me on that? If that is so, what does the midlands have that Wales does not? Can you reassure us that we will not lose these jobs? What is your strategy to ensure that we do not suffer these job losses? These threats are traumatic, and I ask for your reassurance that you are doing everything possible to secure the jobs, and to attract more jobs to this part of north Wales.

**Andrew Davies:** This is a private company, which entered into an agreement with another company, Home Service (GB) Ltd of Birmingham, in terms of sourcing that particular facility. I am not aware of the reasons why it has done that at this stage; we will try to find out what the exact circumstances were. However, irrespective of that, as I said, we understand that another company in the Prestatyn locality is looking for additional workers. We will help the company, and any other employer in the area, to take on the workers who have been made redundant. I do not have a deadline for Zurich Warranty Management Services' decision. It says from December 2002 in its letter—I presume that that means the end of the month, but we need to check that.

**Elin Jones:** Mae adroddiad yn *The Western Mail* bod Zurich Warranty Management Services yn ystyried sefydlu presenoldeb yng Nghaerdydd. A yw'r Llywodraeth mewn unrhyw drafodaethau â Zurich Warranty Management Services i roi cymorth ariannol iddo i sefydlu presenoldeb o'r fath yng Nghaerdydd?

**Andrew Davies:** We will consider that issue. As I said, we only heard about the situation

gweithwyr a'u teuluoedd, yn enwedig o gofio'r adeg o'r flwyddyn pan wnaed y cyhoeddiad hwn. Deallaf yr effaith a gaiff, gan fy mod wedi wynebu amgylchiadau tebyg. Yr wyf yn ddiolchgar i Ann, Chris Ruane a chithau am eich cymorth. Mae'r ffaith bod cymorth ar gael ar unwaith wedi tawelu fy meddwl. Cymeraf yn ganiataol y cysylltir â'r undebau i sicrhau y diogelir hawliau gweithwyr, gan nad yw hynny bob amser wedi digwydd yn y gorffennol, yn enwedig o ran hawliau pensiwn. Deallais, efallai ar gam, fod y swyddi hyn yn cael eu symud i ganolbarth Lloegr. A allwch egluro hynny imi? Os yw hynny'n wir, beth sydd yng nghanolbarth Lloegr nad oes ar gael yng Nghymru? A allwch roi sicrwydd inni na chollwn y swyddi hyn? Beth yw'ch strategaeth i sicrhau na cholli'r swyddi hyn? Mae'r bygythiadau yn ysgytwol, a gofynnaf ichi roi sicrwydd inni eich bod yn gwneud popeth o fewn eich gallu i sicrhau'r swyddi, ac i ddenu mwy o swyddi i'r rhan hon o'r Gogledd.

**Andrew Davies:** Mae hwn yn gwmni preifat, sydd wedi llunio cytundeb â chwmni arall, Home Service (GB) Ltd o Birmingham, o ran darparu'r cyfleuster penodol hwnnw. Ni wn pam y gwnwaeth hynny ar hyn o bryd; byddwn yn ceisio darganfod beth yn union yw'r amgylchiadau. Beth bynnag am hynny, fel y dywedais, deallwn fod cwmni arall yn ardal Prestatyn yn chwilio am weithwyr ychwanegol. Byddwn yn helpu'r cwmni, ac unrhyw gyflogwr arall yn yr ardal, i gyflogi'r gweithwyr sydd wedi colli eu swyddi. Nid oes gennyf ddyddiad terfynol ar gyfer penderfyniad Zurich Warranty Management Services. Mis Rhagfyr 2002 ymlaen sydd yn ei lythyr—cymeraf fod hynny'n golygu diwedd y mis, ond mae angen inni gadarnhau hynny.

**Elin Jones:** There is a report in *The Western Mail* that Zurich Warranty Management Services is considering establishing a presence in Cardiff. Is the Government in any discussion with Zurich Warranty Management Services to give it financial assistance to establish such a presence in Cardiff?

**Andrew Davies:** Ystyriwn y mater hwnnw. Fel y dywedais, dim ond diwedd prynhawn

late yesterday afternoon, so much fact gathering is now taking place. Therefore, I am not in a position to comment on that, and to do so at this stage would be premature.

ddoe clywsom am y sefyllfa, felly yr ydym wrthi'n casglu'r ffeithiau. Felly ni allaf wneud sylwadau ar hynny, a byddai'n gynamserol gwneud hynny ar hyn o bryd.

**Datganiad ar Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru Ddwyeithog**  
**Statement on the Assembly Government's National Action Plan for a Bilingual Wales**

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Mae'n bleser gennyf lansio 'Iaith Pawb' yma heddiw. Mae'r cynllun gweithredu yn uchelgeisiol. Gallwn greu Cymru wirioneddol ddwyieithog drwy weithio gyda'n gilydd.

**The Minister for Culture, Sport and the Welsh Language (Jenny Randerson):** I am pleased to launch 'Iaith Pawb' here today. The action plan is ambitious. We can create a truly bilingual Wales by working together.

'Iaith Pawb' is the Assembly Government's national action plan for a bilingual Wales. It sets out the actions and commitments that will take us forward to our goal of a truly bilingual Wales. Earlier this year, the Culture Committee and the Education and Lifelong Learning Committee published their joint report, 'Our Language: Its Future', which has helped inform our final policy. The Assembly Government's proposals were previewed in our policy document, 'Dyfodol Dwyieithog: Bilingual Future'.

'Iaith Pawb' yw cynllun gweithredu cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru ddwyieithog. Noda'r gweithrediadau a'r ymrwymadau a fydd yn ein harwain at ein nod o Gymru wirioneddol ddwyieithog. Yn gynharach eleni, cyhoeddodd y Pwyllgor Diwylliant a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes eu hadroddiad ar y cyd, 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol', sydd wedi helpu i lywio ein polisi terfynol. Adolygwyd cynigion Llywodraeth y Cynulliad yn ein dogfen bolisi, 'Dyfodol Dwyieithog: Bilingual Future'.

I thank all my Cabinet colleagues for their valuable contribution to this plan. Adopting a holistic approach, and embracing policies across all portfolios, is essential for the future growth of the language. The strategy set out in the action plan is constructed around the three main strands outlined in 'Dyfodol Dwyieithog: Bilingual Future'. First, at the national level, the Assembly Government is committed to providing strategic direction and political leadership on Welsh language policy. We will mainstream Welsh language considerations within the Assembly Government. All Ministers and their officials will take ownership of the language in their own policy and service delivery areas. We will establish a Welsh language unit in the Assembly Government. This will be responsible for implementing the Welsh language scheme and the action plan, overseeing mainstreaming, and providing strategic direction on language policy.

Diolchaf i'm holl gyd-aelodau Cabinet am eu cyfraniad gwerthfawr i'r cynllun hwn. Mae mabwysiadu ymagwedd gyfannol, a chynnwys polisiâu ar draws pob portffolio, yn hanfodol ar gyfer dyfodol twf yr iaith. Adeiladwyd y strategaeth a nodir yn y cynllun gweithredu o amgylch y tri phrif llyn y amlinellir yn 'Dyfodol Dwyieithog: Bilingual Future'. Yn gyntaf, ar y lefel genedlaethol, ymrwymodd Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu cyfeiriad strategol ac arweiniad gwleidyddol ar y polisi iaith Gymraeg. Byddwn yn prif-ffrydio ystyriaethau'r Gymraeg o fewn Llywodraeth y Cynulliad. Bydd pob Gweinidog a'u swyddogion yn perchenogi'r iaith yn eu polisiâu ac yn eu meysydd darparu gwasanaethau eu hunain. Byddwn yn sefydlu uned Gymraeg yn Llywodraeth y Cynulliad. Bydd hon yn gyfrifol am roi'r cynllun iaith Gymraeg a'r cynllun gweithredu ar waith, goruchwylio prif-ffrydio a darparu cyfeiriad strategol ar

bolisi iaith.

The Welsh Language Board will be developed as the national language planning body. The Assembly Government has allocated an additional £16 million to the board over the next three years to enable it to undertake an enhanced role. This will bring the board's spending over the next three years to over £37 million. This represents a 75 per cent increase in the board's budget. The board will continue to develop its work on, among other things: community based language initiatives, including the mentrau iaith and nine new local language action plans; the Twf project; and promoting the use of the language among the private sector and young people.

Bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael ei ddatblygu fel y corff cynllunio iaith cenedlaethol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu £16 miliwn ychwanegol i'r bwrdd dros y tair blynedd nesaf i'w alluogi i ymgymryd â rôl ehangach. Bydd hyn yn cynyddu gwariant y bwrdd dros y tair blynedd nesaf i dros £37 miliwn. Cynrychiola hyn gynnydd o 75 y cant yng nghyllideb y bwrdd. Bydd y bwrdd yn parhau i ddatblygu ei waith, ymhlith pethau eraill, ar: mentrau iaith yn y gymuned, yn cynnwys y mentrau iaith a naw cynllun gweithredu iaith lleol newydd; prosiect Twf; a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith ymhlith y sector preifat a phobl ifanc.

3:00 p.m.

I am also pleased to announce today that the preparation of Welsh language schemes will become obligatory for all housing associations from April 2004. The National Assembly, as regulator of all Welsh housing associations, will implement and monitor this obligation. We are also working to bring utilities within the ambit of the Welsh Language Act 1993.

Mae'n dda gennyf hefyd gyhoeddi heddiw y bydd paratoi cynlluniau iaith Gymraeg yn dod yn orfodol i bob cymdeithas dai o Ebrill 2004. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol, fel rheolydd pob cymdeithas dai yng Nghymru, yn gweithredu a monitro'r ddyfletswydd hon. Yr ydym hefyd yn gweithio i ddod â'r cyfleustodau o fewn cwmipas Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

The second strand in our strategy focuses on the language in the community. We will promote policies that help support and strengthen the social and economic framework of all communities. A social and economic future for Welsh-speaking communities equates to a viable future for the language. We shall ensure that our multi-million pound national programmes, such as Communities First, 'A Winning Wales', and Farming Connect, are tailored to respect and take account of local circumstances, including the linguistic character of communities. The work of the mentrau iaith and local language action plans demonstrate what can be achieved by bringing together local organisations and local people to devise, coordinate and take forward local initiatives.

Mae'r ail liny yn ein strategaeth yn canolbwyntio ar yr iaith yn y gymuned. Byddwn yn hyrwyddo polisiau sy'n helpu i gynnal a chryfhau fframwaith cymdeithasol ac economaidd pob cymuned. Mae dyfodol cymdeithasol ac economaidd i gymunedau sy'n siarad Cymraeg yn gyfystyr â dyfodol hyfyw i'r iaith. Byddwn yn sicrhau bod ein rhaglenni cenedlaethol, gwerth sawl miliwn o bunnoedd, megis Cymunedau yn Gyntaf, 'Cymru'n Ennill', a Chyswllt Ffermio, wedi'u teilwra i barchu a rhoi ystyriaeth i amgylchiadau lleol, gan gynnwys cymeriad ieithyddol cymunedau. Dengys gwaith y mentrau iaith a chynlluniau gweithredu iaith lleol beth y gellir ei gyflawni drwy ddwyn cyrff lleol a phobl leol ynghyd i ddyfeisio, cydlynu a datblygu mentrau lleol.

The availability of affordable housing for local people is a real concern in many communities. We shall encourage and advise local authorities to use all tools at their disposal to implement housing and planning

Mae argaeledd tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol yn bryder gwirioneddol mewn llawer cymuned. Byddwn yn annog a chynghori awdurdodau lleol i ddefnyddio'r offer sydd at eu defnydd i weithredu polisiau tai a

policies that help sustain communities. We have provided additional funding of £1.5 million for the homebuy low-cost home ownership scheme in rural areas, and we are also undertaking a review of homebuy in rural areas to consider the scheme's effectiveness. We are also reviewing the effectiveness of the implementation of our planning policies in relation to the language, and are participating in a linguistic impact study to this end.

The third strand in our strategy will focus on the rights and responsibilities of the individual. Our policies will continue to encourage individuals to learn Welsh and empower them to use the language. Education and training have a crucial role to play in realising our aspirations for the Welsh language. The younger that children start to acquire Welsh the better. We will channel significant additional support to the Twf project. I am also pleased to announce an additional £9.5 million allocation within the education portfolio for 2004-06 to directly support the Welsh language. This will allow us to tackle the key areas of early years provision and expanding the supply of people who can teach through the medium of Welsh. We will work to ensure that there are opportunities to use the language in all walks of life. We are determined to stress the importance of being able to deliver services in the service users' language of choice throughout the public sector, and assisting and encouraging the private and voluntary sectors to do likewise. We are funding the Welsh Language Board to enable it to increase the range of advice and expertise it is able to provide to this end.

The measures in 'Iaith Pawb', which I have merely touched on today, are substantial and significant—an additional £26.8 million directly for the language over the next three years through the Welsh Language Board, the Welsh Books Council and specific education programmes. This demonstrates the extent of our commitment. However, this needs to be a joint effort. I cannot overstate the importance of the contribution that others—organisations and individuals—can make. There is a positive future for the language if all parties at all levels embrace our vision. I look forward

chynllunio a fydd yn helpu i gynnal cymunedau. Yr ydym wedi darparu arian ychwanegol o £1.5 miliwn ar gyfer y cynllun perchenogaeth prynu cartref cost isel mewn ardaloedd gwledig, ac yr ydym hefyd yn ymgymryd ag adolygiad o'r cynllun prynu cartref mewn ardaloedd gwledig i ystyried effeithiolrwydd y cynllun. Yr ydym hefyd yn adolygu effeithiolrwydd gweithredu ein polisiau cynllunio mewn perthynas â'r iaith ac yr ydym yn cymryd rhan mewn astudiaeth effaith ieithyddol i'r perwyl hwn.

Bydd y trydydd llinyn yn ein strategaeth yn canolbwyntio ar hawliau a chyfrifoldebau'r unigolyn. Bydd ein polisiau yn parhau i annog unigolion i ddysgu Cymraeg ac yn eu galluogi i ddefnyddio'r iaith. Mae gan addysg a hyfforddiant ran hanfodol i'w chwarae i wireddu ein dyheadau ar gyfer y Gymraeg. Gorau po gyntaf y bydd plant yn medru'r Gymraeg. Byddwn yn sianelu cefnogaeth ychwanegol sylweddol i'r prosiect Twf. Mae'n dda gennyf gyhoeddi hefyd ddyraniad ychwanegol o £9.5 miliwn o fewn y portffolio addysg ar gyfer 2004-06 i gefnogi'r Gymraeg yn uniongyrchol. Bydd hyn yn caniatáu inni fynd i'r afael â meysydd allweddol darpariaeth blynnyddoedd cynnar ac ehangu'r cyflenwad o bobl a all ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd. Yr ydym yn benderfynol o bwysleisio pwysigrwydd gallu darparu gwasanaethau yn newis iaith y defnyddiwr ar draws y sector cyhoeddus, a chynorthwyo ac annog y sectorau preifat a gwirfoddol i wneud yr un fath. Yr ydym yn ariannu Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'w alluogi i gynyddu'r ystod o gyngor ac arbenigedd y gall ei ddarparu i'r diben hwn.

Mae'r mesurau yn 'Iaith Pawb', yr wyf ond wedi cyffwrdd â hwy heddiw, yn sylweddol ac arwyddocaol—£26.8 miliwn ychwanegol yn uniongyrchol i'r iaith dros y tair blynedd drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Llyfrau Cymru a rhaglenni addysg penodol. Dengys hyn faint ein hymrwymiad. Fodd bynnag, mae angen i hyn fod yn ymdrech ar y cyd. Ni allaf or-bwysleisio pwysigrwydd y cyfraniad y gall eraill—cyrff ac unigolion—ei wneud. Mae dyfodol cadarnhaol i'r iaith os bydd pob un o'r partion ar bob lefel yn ymgorffori ein gweledigaeth. Edrychaf

to hearing your views today and those of the members of the Culture Committee and the Education and Lifelong Learning Committee who will consider this document in December.

**Owen John Thomas:** Yr wyf yn hapus â thôn gyfeillgar 'Iaith Pawb', ac yr wyf yn falch y bydd addysg cyfrwng Cymraeg, o ddim i bump oed, yn sylfaen i greu Cymru ddwyieithog.

Gosodwch darged o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o hyd at 5 y cant erbyn 2011, Weinidog. Nid oes targed ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, er eich bod yn bwriadu cynyddu nifer y siaradwyr. Os oes gennych ffigur o 5 y cant ar gyfer yr holl siaradwyr, rhaid bod gennych is-elfennau sy'n cyfrannu at hynny. Gan mai'r sylfaen i'r cynnydd yw addysg cyfrwng Cymraeg, mae'n bwysig gwneud mwy o waith yn y maes hwn.

Yr wyf yn falch o weld y bydd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg mwy o allu i fonitro cynlluniau iaith. Bu i rai awdurdodau lleol rwystru twf addysg cyfrwng Gymraeg yn y gorffennol—rhaid oherwydd diffyg arian ar gyfer ysgolion newydd, ac eraill drwy ddiffyg ewyllys. Mae'n bwysig bod y bwrdd yn cael pŵer go iawn i wneud hynny, gan mai dyna sy'n llusgo twf addysg cyfrwng Gymraeg ar hyn o bryd.

Rhoddwch bwyslais ar addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant hyd at bump oed, ond beth yw cynlluniau'r Llywodraeth i hybu addysgofal drwy gyfrwng y Gymraeg? Ar hyn o bryd, fel y gwyddoch, Weinidog, cwmnïau preifat sy'n rhedeg y mwyafrif llethol o'r ddarpariaeth ar gyfer addysgofal, felly mae angen ymdrech arbennig i sicrhau y darparir mwy o addysgofal yn y sector cyhoeddus. Dyna un o amcanion yr adroddiad—nid 'Iaith Pawb', ond yr adroddiad gwreiddiol—a gobeithiaf fod bwriad i ddelio â hynny.

Mae ambell bwynt yn 'Iaith Pawb' yn niwlog, er enghraifft adran 4.13 ynghylch hybu addysg plant dros bump oed. Mae diffyg arweiniad clir. Ai drafft neu'r ddogfen derfynol yw hon?

ymlaen at glywed eich barn heddiw a barn aelodau'r Pwyllgor Diwylliant a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a fydd yn ystyried y ddogfen hon ym mis Rhagfyr.

**Owen John Thomas:** I am pleased by the friendly tone of 'Iaith Pawb', and I am glad that Welsh-medium education, from zero to five years old, will be a foundation on which to build a bilingual Wales.

Minister, you set a target of an increase of up to 5 per cent in the numbers of Welsh speakers by 2011. There is no target for Welsh-medium education, even though you intend to increase the number of speakers. If you have a figure of 5 per cent for all speakers, you must have sub-factors supporting that. As Welsh-medium education is the basis for the increase, it is important that more work be done in this area.

I am pleased to see that the Welsh Language Board will be better equipped to monitor language schemes. Some local authorities have impeded the growth of Welsh-medium education in the past—some through lack of finance for new schools and others through a lack of will. It is important that the board is given real power to do that because that is what is currently hindering the growth of Welsh-medium education.

You emphasise early years education for children up to the age of five, but what are the Government's plans to promote educare through the medium of Welsh? At present, as you know, Minister, the vast majority of educare provision is run by private companies, so we need to make a special effort to secure more educare in the public sector. That is one of the aims of the report—not 'Iaith Pawb' but the original report—and I hope that you intend to address that.

Some points in 'Iaith Pawb' are hazy, for example section 4.13 concerning the promotion of education for children over the age of five. There is a lack of clear direction. Is this a draft version or is it the final document?



I ba bwrpas y rhoddir £9.5 miliwn ychwanegol i addysg? A yw'n bosibl cael dadansoddiad o hynny? Er enghraifft, faint fydd yn mynd i helpu cylchoedd meithrin i dalu cyflogau go iawn i'w hathrawon a'u cynorthwywragedd? Ar hyn o bryd, maent yn colli athrawon am fod cyflogau mor isel, a hynny ar adeg pan fo presenoldeb yr athrawon hynny mor bwysig os ydym am greu Cymru ddwyieithog.

**Jenny Randerson:** I welcome your positive response. When you have time to consider the document in detail, you will see that the targets come with a bit of a health warning. We are just a few months away from the publication of the 2001 census figures and, to have meaningful and realistic targets, we need to use those figures. Interestingly, we received optimistic figures from the labour force survey less than a month ago. I would love to believe that 30 per cent of people in Wales can now speak Welsh, but I fear that that may be over-optimistic. To achieve a proper comparison, we must compare the 1991 census figures with those for 2001. We will do further work on targets once those figures are published.

I am sure that you agree that we should not delay this document to wait for the publication of the census figures. Let us get on with it and start doing the job. Let us ensure that the money is distributed and that the new policies are in place as soon as possible. We will then consider the targets and work on them in more detail.

You asked whether this is a draft, and the answer is 'yes'. The Education and Lifelong Learning Committee and the Culture Committee will review it, and Jane Davidson and I will then take comments on board. As I said, other Ministers are involved, and we may need to take comments on other aspects into account. I anticipate this becoming a fully-fledged, final document early in the new year, because I am anxious to carry on with it.

3:10 p.m.

For what purpose is an additional £9.5 million given for education? Is it possible to have a breakdown of that? For example, how much will go towards helping Welsh-medium playgroups to pay proper salaries to their teachers and assistants? At present, they are losing teachers because salaries are so low, and that at a time when the presence of such teachers is so important if we are to achieve a bilingual Wales.

**Jenny Randerson:** Croesawaf eich ymateb cadarnhaol. Pan gewch amser i ystyried y ddogfen yn fanwl, fe welwch fod rhybudd ynghlwm wrth y targedau. Dim ond ychydig fisoedd sydd cyn cyhoeddi ffigurau cyfrifiad 2001 ac, er mwyn cael targedau ystyrlon a realistig, rhaid inni ddefnyddio'r ffigurau hynny. Yn ddiddorol, derbyniasom ffigurau optimistig o'r arolwg o'r gweithlu lai na mis yn ôl. Byddwn yn hoffi meddwl bod 30 y cant o boblogaeth Cymru yn gallu siarad Cymraeg yn awr, ond ofnaf y gallai hynny fod yn or-optimistig. Er mwyn cael cymhariaeth gywir, rhaid inni gymharu ffigurau cyfrifiad 1991 gyda rhai 2001. Byddwn yn gwneud gwaith pellach ar dargedau unwaith y caiff y ffigurau hynny eu cyhoeddi.

Yr wyf yn sicr y cytunwch na ddylem ohirio cyhoeddi'r ddogfen hon hyd i ffigurau'r cyfrifiad gael eu cyhoeddi. Gadewch inni fynd ati a dechrau gwneud y gwaith. Gadewch inni sicrhau y dosberthir yr arian ac y caiff polisïau newydd eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl. Rhoddwn ystyriaeth i'r targedau wedyn a gweithio arnynt mewn rhagor o fanylder.

Gofynasoch ai drafft yw hwn, a'r ateb yw 'ie'. Bydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Pwyllgor Diwylliant yn ei adolygu, a bydd Jane Davidson a minnau wedyn yn ystyried unrhyw sylwadau a wneir. Fel y dywedais, mae Gweinidogion eraill yn gysylltiedig â hyn, ac efallai y bydd rhaid inni ystyried sylwadau ar agweddau eraill. Rhagwelaf y cyhoeddir y ddogfen lawn, derfynol, yn gynnar yn y flwyddyn newydd, oherwydd yr wyf yn awyddus i fynd ymlaen â'r gwaith.

You asked for details of the education spending and education issues. The Minister for Education and Lifelong Learning has already given informal advice to local education authorities on Welsh-medium education, and further work is currently being undertaken on six fronts in Welsh-medium education. The Minister for Education and Lifelong Learning referred to that during her question time session. An additional £7 million is being made available to bilingual nursery education to train practitioners—you cannot have further bilingual nursery provision if you do not train the teachers. In early years education, 18 per cent of children already receive their education through the medium of Welsh. We have doubled the budget for the Welsh-medium incentive supplement, from £115,000 to £230,000 from 2004. That is available to trainee teachers to encourage them to improve their competence so that they can teach through the medium of Welsh.

An additional £1 million is being provided for teacher sabbaticals at all levels, and to support special educational needs practitioners from 2005. The Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales will receive an additional £400,000 per annum to support Welsh-medium materials and qualifications from 2004. An additional £1 million will be provided for non-higher education post-16 education from 2005-06 to support Welsh-medium training sabbaticals and to improve Welsh for adults provision. If you want more detail, you should ask the Minister for Education and Lifelong Learning.

**Alun Pugh:** Diolch am eich datganiad. Gofynnaf gwestiwn am arwyddion dwyieithog mewn mannau cyhoeddus. Yn y sector cyhoeddus, nid oes problem—gwelwn arwyddion dwyieithog ym mhob man. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n wahanol yn y sector preifat. Mae'r ddogfen 'Iaith Pawb' yn nodi:

'We shall also aim to bring about an increase in the use and visibility of the Welsh language in all aspects of everyday life.'

Dylai pob arwydd newydd fod yn ddwyieithog, fel datganiad cyhoeddus a phwysig. A wnewch drafod hyn gyda'r

Gwnaethoch ofyn am fanylion y gwariant addysg a materion addysg. Mae'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes eisoes wedi rhoi cyngor anffurfiol i awdurdodau addysg lleol ar addysg Gymraeg, ac mae gwaith pellach yn cael ei wneud yn awr mewn chwe maes o fewn addysg Gymraeg. Cyfeiriodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes at hynny yn ystod ei sesiwn gwestiynau hi. Bydd £7 miliwn ychwanegol yn cael ei ddarparu i addysg feithrin ddwyieithog i hyfforddi ymarferwyr—ni allwch gael darpariaeth feithrin ddwyieithog ychwanegol os na hyfforddych yr athrawon. O ran addysg blynyddoedd cynnar, mae 18 y cant o blant eisoes yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr ydym wedi dyblu'r gyllideb ar gyfer yr atodiad cymhelliant Cymraeg, o £115,000 i £230,000 o 2004. Bydd yr arian hwnnw ar gael i athrawon dan hyfforddiant i'w hannog i wella'u cymhwysedd fel eu bod yn gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Darperir £1 filiwn ychwanegol ar gyfer cyfnodau sabothol athrawon ar bob lefel, ac i gefnogi ymarferwyr anghenion addysgol arbennig o 2005 ymlaen. Bydd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru yn derbyn £400,000 y flwyddyn yn ychwanegol i gefnogi deunyddiau Cymraeg a chymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg o 2004 ymlaen. Rhoddir £1 filiwn ychwanegol i addysg ôl-16 nad yw'n addysg uwch o 2005-06 i gefnogi cyfnodau sabothol hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg ac i wella'r ddarpariaeth Gymraeg i oedolion. Os hoffech gael rhagor o fanylion na hynny, gofynnwch i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**Alun Pugh:** Thank you for your statement. I have a question about bilingual signs in public places. In the public sector, there is no problem—we see bilingual signs everywhere. However, the situation is different in the private sector. The document, 'Iaith Pawb', states:

'Byddwn ni hefyd yn ceisio ysgogi cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg a'i hamlygrwydd ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd.'

Every new sign should be bilingual, as a public and important statement. Will you discuss this with the Minister for

Gweinidog dros yr Amgylchedd, gan fod angen nodyn cyngor technegol ar hyn?

**Jenny Randerson:** I would be happy to discuss it with the Minister for Environment. It is important to bear in mind that considerable additional resources will be available in the budget for the Welsh Language Board from next April, which will enable it to work with the private and voluntary sectors. A considerable amount of that money will go towards assisting the board with policies, signage and so on. However, we must work within the framework of the Welsh Language Act 1993—it was agreed by all parties, and across Committees, that we should continue to work within its guidelines. Under the Act, we cannot compel the private sector to obey the rules applied to the public sector. However, one hopes that the general mood and movement within Wales demonstrates to private sector organisations that there is a great deal to be gained from operating in a way that takes full account of the Welsh language. It is good for business: the Wales Tourist Board has conducted surveys that

**Jonathan Morgan:** We welcome the plan and your statement this afternoon. A minor improvement could be made to the plan when the final draft is considered; there are no firm targets in the plan. It would be useful for people in the real world to see the medium and long-term targets, as well as those targets that you believe could be achieved quickly in the short term. There is much good work to be done here. It would be useful to establish a time frame within which you expect certain aspects of this plan to be delivered. There are significant budgetary considerations, as we know, and we will need to examine these more fully when this plan is discussed by the Culture Committee and the Education and Lifelong Learning Committee, as you suggest.

On the education section of the report, and section 4 in particular, to which Owen John Thomas has already referred, wonderful advances have been made by Welsh-medium primary schools, particularly in south-east Wales where the demand for Welsh-medium primary and nursery education is growing rapidly and is not always easy to satisfy. The

Environment, because a technical advice note is needed on this?

**Jenny Randerson:** Bydd yn dda gennyf ei drafod gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd. Mae'n bwysig cadw mewn cof y bydd adnoddau ychwanegol sylweddol ar gael yn y gyllideb ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg o fis Ebrill nesaf, a fydd yn ei alluogi i weithio gyda'r sectorau preifat a gwirfoddol. Bydd swm sylweddol o'r arian hwnnw yn mynd tuag at gynorthwyo'r bwrdd gyda pholisiau, arwyddion ac yn y blaen. Fodd bynnag, rhaid inni weithio o fewn fframwaith Deddf yr Iaith Gymraeg 1993—cytunodd pob plaid a phob Pwyllgor y dylem barhau i weithio oddi mewn i'w chanllawiau. O dan y Ddeddf, ni allwn orfodi'r sector preifat i ufuddhau i'r rheolau a osodir ar gyfer y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, gobeithiaf y bydd y naws a'r duedd gyffredinol o fewn Cymru yn dangos i gyrff yn y sector preifat bod llawer i'w ennill drwy weithredu mewn modd sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg. Mae'n dda ar gyfer busnes: cynhaliodd Bwrdd Croeso Cymru arolygon sy'n profi hynny.

**Jonathan Morgan:** Croesawn y cynllun a'ch datganiad y prynhawn yma. Gellid gwneud mân welliant i'r cynllun wrth i'r drafft terfynol gael ei ystyried; nid oes targedau pendant yn y cynllun. Byddai'n dda i bobl yn y byd go iawn weld y targedau tymor canolig a hir, ynghyd â'r targedau hynny y credwch y gellid eu cyrraedd yn gyflym yn y tymor byr. Mae llawer o waith da i'w wneud ar hyn. Byddai'n ddefnyddiol sefydlu amserlen ar gyfer cyflawni rhai agweddau ar y cynllun hwn. Mae ystyriaethau cyllidebol sylweddol, fel y gwyddom, a bydd rhaid inni archwilio'r rhain yn fanylach pan gaiff y cynllun hwn ei drafod gan y Pwyllgor Diwylliant a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, fel yr awgrymwch.

O ran adran addysg yr adroddiad, ac adran 4 yn arbennig, y cyfeiriodd Owen John Thomas ati'n barod, gwnaethpwyd cynnydd ardderchog gan ysgolion cynradd Cymraeg, yn enwedig yn y De-ddwyrain lle mae'r galw am addysg gynradd ac addysg feithrin Gymraeg yn tyfu'n gyflym a lle nad yw'n hawdd ei fodloni o hyd. Fe'm cyhuddwyd yn

Minister for Education and Lifelong Learning  
accused me earlier of being a parrot—

gynharach gan y Gweinidog dros Addysg a  
Dysgu Gydol Oes o fod yn barot—

**Alun Cairns:** Shameful.

**Alun Cairns:** Cywilyddus.

**Jonathan Morgan:** Indeed. However, I often refer to a particular statistic because it is important. Several years ago, when visiting a Welsh-medium primary school, the headteacher told me that 75 per cent of the school's pupils came from English-speaking families. This was a wonderful demonstration of a Welsh primary school responding to the demand of English-speaking families, where the parents had no understanding of Welsh. I thought that this was terrific, and it highlighted the way in which English-speaking families across Wales, and particularly in Cardiff, now see the benefit of educating their children through the medium of Welsh.

**Jonathan Morgan:** Digon gwir. Fodd bynnag, cyfeiriaf yn aml at ystadegyn arbennig oherwydd ei fod yn bwysig. Sawl blwyddyn yn ôl, wrth ymweld ag ysgol gynradd Gymraeg, dywedodd y pennaeth wrthyf bod 75 y cant o ddisgyblion yr ysgol yn dod o deuluoedd Saesneg eu hiaith. Yr oedd hyn yn enghraifft wych o ysgol gynradd Gymraeg yn ymateb i'r galw gan deuluoedd Saesneg eu hiaith, lle nad oedd gan y rhieni unrhyw ddealltwriaeth o'r Gymraeg. Yr oeddwn yn meddwl bod hyn yn ardderchog, ac amlygodd y modd y gwêl teuluoedd Saesneg eu hiaith ledled Cymru, ac yn arbennig yng Nghaerdydd, y fantais o addysgu eu plant drwy gyfrwng y Gymraeg yn awr.

In its evidence to the Education and Lifelong Learning Committee, ACCAC claimed that the fact that an overwhelming number of pupils in Wales are now taught Welsh is a huge success. However, that was before it was pointed out to ACCAC that being taught Welsh is compulsory in Wales and we should not claim credit for getting people to do something that is compulsory. I would prefer the Assembly to claim success for pupils learning Welsh through opportunity and choice, because it was clear from the pupils' evidence to the Committee that the way in which Welsh is taught in schools does not help young people who want to learn the language. The fact that it is taught as a GCSE subject, and that pupils are geared towards getting a GCSE result in it, does not help them to learn the language and become competent in using it in their daily lives. The Minister for Education and Lifelong Learning should consider whether Welsh is taught in the most appropriate way in schools.

Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, honnodd ACCAC bod y ffaith bod y Gymraeg yn cael ei dysgu i'r mwyafrif llethol o ddisgyblion yng Nghymru yn llwyddiant aruthrol. Fodd bynnag, yr oedd hynny cyn y dywedwyd wrth ACCAC fod dysgu Cymraeg yn orfodol yng Nghymru, ac na ddylem hawlio clod am gael pobl i wneud rhywbeth sy'n orfodol. Byddai'n well gennyf i'r Cynulliad hawlio llwyddiant am y disgyblion sy'n dysgu Cymraeg drwy gyfle a dewis, oherwydd yr oedd yn eglur o dystiolaeth y disgyblion i'r Pwyllgor nad yw'r modd y dysgir Cymraeg mewn ysgolion yn helpu pobl ifanc sydd am ddysgu'r iaith. Nid yw'r ffaith ei bod yn cael ei dysgu fel pwnc TGAU, a bod disgyblion yn cael eu paratoi i sicrhau canlyniad TGAU yn y pwnc, yn eu helpu i ddysgu'r iaith a gallu ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd. Dylai'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ystyried a ddysgir y Gymraeg yn y dull mwyaf priodol mewn ysgolion.

The report refers to the success, or otherwise, of key stage 4 Welsh. I would be more supportive of key stage 4 Welsh if it was clear that it produced more Welsh speakers; it does not. The number of Welsh speakers in Wales is roughly the same as a few years ago. The compulsory teaching of Welsh at key stage 4

Cyfeiria'r adroddiad at lwyddiant, neu ddiffyg llwyddiant, Cymraeg cyfnod allweddol 4. Byddwn i yn fwy cefnogol i Gymraeg cyfnod allweddol 4 pe bai'n eglur ei fod yn cynhyrchu rhagor o siaradwyr Cymraeg; nid ydyw. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yr un faint, yn fras, ag yr oedd

does not help to promote bilingualism in Wales. The Welsh Conservatives would prefer more resources to be invested earlier in a child's schooling so that familiarity becomes the watchword, and that young children learn the language at an early age. This would mean that, on reaching key stage 4 and with the prospect of Welsh being taught as a subject on which they would be examined, pupils may be more willing, capable and flexible in their approach to learning it. The evidence is clear: the best time to learn a language is at an early age, as I, and others, I am sure, are unfortunately discovering in our Welsh lessons.

y chydig flynyddoedd yn ôl. Nid yw dysgu Cymraeg yn orfodol yng nghyfnod allweddol 4 yn helpu i hyrwyddo dwyieithrwydd yng Nghymru. Byddai'n well gan Geidwadwyr Cymru pe bai rhagor o adnoddau yn cael eu buddsoddi yn gynharach yn addysg plentyn fel bod cynefindra yn dod yn rheol, a bod plant ifanc yn dysgu'r iaith yn gynnar yn eu bywyd. Byddai hynny'n golygu, erbyn cyrraedd cyfnod allweddol 4 a chan eu bod yn gwybod y byddai'r Gymraeg yn cael ei dysgu fel pwnc y caent eu harholi arno, y byddai posibilrwydd y byddai'r disgyblion yn fwy parod, galluog a hyblyg yn eu hymagwedd tuag at ddysgu'r pwnc. Mae'r dystiolaeth yn eglur: yr amser gorau i ddysgu iaith yw yn gynnar mewn bywyd, fel yr wyf i, ac eraill yr wyf yn siŵr, yn ei ddarganfod yn anffodus yn ein gwersi Cymraeg.

We look forward to considering this report in detail, but, overall, the report and plan provide for a cross-party approach in taking the Welsh language forward to ensure that we achieve a bilingual Wales, where both languages are treated with respect and the nation's culture is preserved for many generations to come.

Edrychwn ymlaen at ystyried yr adroddiad hwn yn fanwl, ond, yn gyffredinol, mae'r adroddiad a'r cynllun yn darparu ar gyfer ymagwedd drawsbleidiol wrth ddatblygu'r Gymraeg i sicrhau ein bod yn cael Cymru ddwyieithog, lle y caiff y ddwy iaith eu trin â pharch a lle y diogelir diwylliant y genedl ar gyfer cenedlaethau y dyfodol.

3:20 p.m.

**Jenny Randerson:** I agree with you wholeheartedly about the advantages of learning Welsh, or any language, at an early age. As one who is finding it difficult to learn Welsh, it would have been much easier had I done it years ago. However, the additional money announced for education today makes it clear that we are putting resources into early years learning. That does not mean, however, that we are altering our stance on key stage 4, but we are recognising that people have a better chance of success at key stage 4 if they start early on. Therefore an extra £7 million will help early years education considerably. However, the breakdown of the labour force survey figures suggests that it is young people who are saying that they speak Welsh. The standard may not be anything like as good as we think it ought to be for second language Welsh learners, but they feel a sense of achievement, a sense of ownership of that skill and a sense of pride in it. We must build on that to develop it. In fact, Iaith Cyf raises the point that more work is needed on the

**Jenny Randerson:** Cytunaf yn llwyr â chi am fanteision dysgu Cymraeg, neu unrhyw iaith, yn gynnar mewn bywyd. Fel un sy'n ei chael yn anodd dysgu Cymraeg, byddai wedi bod yn llawer haws pe bawn wedi ei dysgu flynyddoedd yn ôl. Fodd bynnag, mae'r arian ychwanegol ar gyfer addysg a gyhoeddwyd heddiw yn ei gwneud hi'n glir ein bod yn darparu adnoddau ar gyfer dysgu blynyddoedd cynnar. Nid yw hynny, fodd bynnag, yn golygu ein bod yn newid ein safbwynt ar gyfnod allweddol 4, ond cydnabyddwn fod gan bobl well cyfle i lwyddo yng nghyfnod allweddol 4 os dechreuant yn gynnar. Felly bydd £7 miliwn ychwanegol yn gryn gymorth i addysg blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, awgryma'r dadansoddiad o ffigurau'r arolwg o'r gweithlu mai pobl ifanc sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Efallai nad yw'r safon yn agos at yr hyn y dylai fod ar gyfer dysgwyr Cymraeg ail iaith yn ein tyb ni, ond teimlant eu bod wedi cyflawni rhywbeth, teimlant eu bod yn berchen ar y sgil honno a

efficiency of learning Welsh as a second language. I emphasise the good work being done, for example, in Builth Wells High School, where other subjects are now being taught through the medium of Welsh. That successful project is being repeated elsewhere in Wales, and the Minister for Education and Lifelong Learning intends to follow it up and develop the idea.

As Owen John said, targets are given throughout the document, but I would agree that more work needs to be done on targets. However, when we began that work, we were confronted by the problem of where to start. You might set an inefficient or totally inaccurate target if you are using 1991 census figures. Therefore, we will do more work on targets in the next few months.

On primary schools, the greatest increase in Welsh speaking is definitely in the English-speaking areas. You can at least take that as accurate from the labour force survey. The challenge now is to build on primary school success and ensure that young people keep speaking Welsh through their teenage years; the mentrau iaith will receive extra money for such aims. A number of other projects are also underway to ensure that young people want to and are able to continue speaking Welsh, whether they go through Welsh-medium education, or through English-medium education and speak Welsh as a second language.

**Peter Black:** I welcome this statement and the document. The extra money being put into the Welsh language, £26.8 million over three years, demonstrates clearly the Welsh Assembly Government's commitment to the language and to promoting and sustaining it, particularly in those areas where it is under threat. Your announcement that the Welsh language will be mainstreamed throughout Welsh Assembly Government policies is also important. That is the right and best approach to ensure that, whatever the Assembly does, the Welsh language will be of foremost consideration in terms of how we proceed and how we sustain the Welsh language in doing

theimlant falchder ynddi. Rhaid inni adeiladu ar hynny er mwyn ei ddatblygu. Yn wir, mae Iaith Cyf yn nodi bod angen gwneud rhagor o waith ar effeithlonrwydd dysgu Cymraeg fel ail iaith. Pwysleisiaf y gwaith da sy'n cael ei wneud, er enghraifft, yn Ysgol Uwchradd Llanfair ym Muallt, lle mae pynciau eraill yn awr yn cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff y prosiect llwyddiannus hwnnw ei ailadrodd mewn mannau eraill yng Nghymru, a bwriada'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ddilyn a datblygu'r syniad.

Fel y dywedodd Owen John, nodir targedau drwy'r ddogfen, ond cytunaf fod angen gwneud mwy o waith ar dargedau. Fodd bynnag, pan oeddem yn dechrau ar y gwaith, roedd gwybod ble i ddechrau yn broblem. Gallech osod targed aneffeithlon neu gwbl anghywir pe defnyddiech ffigurau cyfrifiad 1991. Felly, byddwn yn gwneud mwy o waith ar dargedau yn yr ychydig fisoedd nesaf.

O ran ysgolion cynradd, mae'r cynnydd uchaf mewn siarad Cymraeg yn bendant yn yr ardaloedd Saesneg eu hiaith. Gallwch godi hynny o leiaf o'r arolwg o'r gweithlu fel ffaith gywir. Yr her yn awr yw adeiladu ar lwyddiant ysgolion cynradd a sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i siarad Cymraeg drwy flynyddoedd eu harddegau; bydd y mentrau iaith yn derbyn arian ychwanegol ar gyfer nodau felly. Mae nifer o brosiectau eraill hefyd ar waith i sicrhau bod pobl ifanc yn dymuno ac yn gallu parhau i siarad y Gymraeg, pa un ai a gânt addysg cyfrwng Cymraeg neu drwy addysg cyfrwng Saesneg gan siarad Cymraeg fel ail iaith.

**Peter Black:** Croesawaf y datganiad hwn a'r ddogfen. Mae'r arian ychwanegol sy'n cael ei ddarparu ar gyfer yr iaith Gymraeg, £26.8 miliwn dros dair blynedd, yn dangos yn eglur ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r iaith ac i'w hyrwyddo a'i chynnal, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle mae o dan fygythiad. Mae eich cyhoeddiad y bydd y Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio ar draws polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn bwysig. Dyna'r ymagwedd gywir a gorau i sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth bennaf, ym mhopeth a wna'r Cynulliad, o ran y modd yr awn yn ein blaenau a'r modd y cynhaliwn y Gymraeg wrth wneud hynny.

so.

I particularly welcome the extension of the Welsh Language Act 1993 to include Welsh housing associations from April 2004. The extra £1.5 million for homebuy schemes—the Finance Minister said that this will be increased to £2.25 million—demonstrates again the Assembly Government's commitment to ensuring that people can stay in their own communities, particularly where the Welsh language is under threat in rural areas.

The whole essence of the Welsh Assembly Government's language policy, in terms of how we approach the language, has become far more distinctive in recent years. This is particularly true of our holistic approach. We are right not to concentrate solely on education and culture, although the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language and the Minister for Education and Lifelong Learning are responsible for driving forward the policy. We must acknowledge regional differences, and incorporate economic development, housing, transport, media and planning into everything we do in relation to the Welsh language. It is important to acknowledge that parts of the Welsh heartlands—*y fro Gymraeg*—could be under threat, and we must consider how money should be targeted to deal with this problem. How will the Minister identify the areas most in need of financial support, and how will money be targeted at them?

**Jenny Randerson:** We have tried to take a cradle-to-grave, holistic approach to the language. Our projects are aimed at the parents of new-born babies, to develop the language from the moment children are born, and at helping Welsh-speaking elderly people who, when in hospital or difficult circumstances, wish, above all, to speak the language of their choice. In terms of identifying areas of need and targeting money, the Welsh Language Board has carried out an analysis of the areas whose large number or majority of Welsh speakers is dropping rapidly, and particularly areas where that percentage of young Welsh speakers is dropping rapidly.

Croesawaf yn arbennig ymestyniad Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 i gynnwys cymdeithasau tai Cymru o Ebrill 2004. Mae'r £1.5 miliwn ychwanegol ar gyfer cynlluniau prynu cartref—dywedodd y Gweinidog Cyllid y bydd hyn yn cael ei gynyddu i £2.25 miliwn—yn dangos eto ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod pobl yn gallu aros yn eu cymunedau eu hunain, yn enwedig lle mae'r Gymraeg o dan fygythiad mewn ardaloedd gwledig.

Mae holl hanfod polisi iaith Llywodraeth Cynulliad Cymru, o ran y modd yr ymdriniwn â'r iaith, wedi dod yn fwy clir yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn arbennig o wir am ein hymagwedd gyfannol. Yr ydym yn iawn i beidio â chanolbwytio ar addysg a diwylliant yn unig, er bod y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg a'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gyfrifol am ddatblygu'r polisi. Rhaid inni gydnabod bod gwahaniaeth rhwng ardaloedd, a rhaid inni ymgorffori datblygu economaidd, tai, trafnidiaeth, y cyfryngau a chynllunio ym mhopeth a wnawn mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'n bwysig cydnabod y gall rhannau o'r fro Gymraeg fod o dan fygythiad, a rhaid inni ystyried sut y dylai arian gael ei dargedu i ymdrin â'r broblem hon. Sut y bydd y Gweinidog yn dynodi'r ardaloedd sydd â'r angen mwyaf am gymorth ariannol, a sut y caiff yr arian ei dargedu atynt?

**Jenny Randerson:** Yr ydym wedi ceisio mabwysiadu ymagwedd o'r crud i'r bedd, gyfannol tuag at yr iaith. Mae ein prosiectau wedi eu hanelu at rieni babanod newydd eu geni, i ddatblygu'r iaith o'r eiliad y caiff plentyn ei eni, ac at helpu pobl oedrannus sy'n siarad Cymraeg, sy'n dymuno, yn anad dim, gallu siarad yr iaith o'u dewis pan fyddant mewn ysbyty neu'n wynebu amgylchiadau anodd. O ran dynodi ardaloedd o angen a thargedu arian, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cynnal dadansoddiad o'r ardaloedd lle mae eu nifer fawr neu eu mwyafrif o siaradwyr Cymraeg yn gostwng yn gyflym, ac yn arbennig ardaloedd lle mae'r canran hwnnw o siaradwyr Cymraeg ifanc yn gostwng yn gyflym.

Language action pilot schemes are underway

Mae cynlluniau peilot ar weithredu'r iaith ar

in three areas. I visited Fishguard to observe one of these schemes over the summer. Three schemes a year will be held for the next three years, making nine in total. Each scheme involves a partnership of local organisations, operating in their own way; we have not taken a one-size-fits-all approach. We have one strategy, but the local plans are different as they are based on local needs. The involvement of local organisations and people—with a considerable emphasis on young people—will give them a sense of ownership of the language.

I will clarify a point about housing associations. For technical and legal reasons, our actions in this regard are being carried out in the context of our role and control in relation to associations' remit letters, not under the Welsh Language Act 1993. However, in practice, the net result will be the same. After all, we provide housing associations with their remit letters and they work to our instructions. From now on, those letters will include the requirement to produce a Welsh language scheme. Therefore, to all intents and purposes, the result will be the same.

I agree that, if we are to promote the language and ensure its survival, we must have viable, sustainable communities, in the economic and the social sense. A great deal of work is already underway. For example, the measures included in last week's announcement on rural post offices will assist local communities to remain viable and will be important to areas where the majority, or a significant number of people, are Welsh speakers.

**Y Llywydd:** Yr ydym erbyn hyn wedi cyrraedd diwedd yr amser a dreulir fel arfer ar ddatganiad, ond, oherwydd pwysigrwydd y datganiad hwn, ym marn y Pwyllgor Busnes, rhagnodwyd amser ychwanegol sylweddol ar ei gyfer. Mae 10 Aelod am gyfrannu, felly, er mwyn i bawb gael cyfle i wneud hynny, gofynnaf am gwestiynau ac atebion cryno. Nid wyf yn anelu'r sylw hwnnw yn benodol at yr Aelod nesaf sydd i siarad, sef Gareth Jones.

3:30 p.m.

waith mewn tair ardal. Ymwelais ag Abergwaun yn yr haf i weld un o'r cynlluniau hyn. Bydd tri chynllun y flwyddyn yn cael eu cynnal am y tair blynedd nesaf, gan wneud cyfanswm o naw. Mae pob cynllun yn golygu partneriaeth o gyrff lleol yn gweithredu yn eu dull eu hun; nid ydym wedi mabwysiadu ymagwedd un-dull-i-bawb. Mae gennym un strategaeth, ond mae'r cynlluniau lleol yn wahanol gan eu bod wedi eu seilio ar anghenion lleol. Mae'r rhan a chwaraeir gan gyrff a phobl lleol—gyda phwyslais sylweddol ar bobl ifanc—yn rhoi syniad o berchenogi'r iaith iddynt.

Egluraf bwynt am gymdeithasau tai. Am resymau technegol a chyfreithiol, gweithredwn yn hyn o beth yng nghyd-destun ein rôl a'n rheolaeth mewn perthynas a llythyron cylch gwaith y cymdeithasau, nid o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Fodd bynnag, yn ymarferol, bydd y canlyniad yr un peth yn y pen draw. Wedi'r cyfan, ni sy'n rhoi eu llythyron cylch gwaith i'r cymdeithasau tai, a gweithiant yn ôl ein cyfarwyddyd. O hyn ymlaen bydd y llythyron hyn yn cynnwys yr angen i gynhyrchu cynllun iaith Gymraeg. Felly, i bob pwrpas, bydd y canlyniad yr un fath.

Cytunaf, os ydym i hyrwyddo'r iaith a sicrhau ei pharhad, fod rhaid inni gael cymunedau hyfyw, cynaliadwy, yn yr ystyr economaidd a chymdeithasol. Mae cryn waith eisoes yn cael ei gyflawni. Er enghraifft, bydd y mesurau a gynhwyswyd yn y cyhoeddiad yr wythnos diwethaf ar swyddfeydd post gwledig yn helpu cymunedau lleol i barhau'n hyfyw a bydd yn bwysig i ardaloedd lle mae'r mwyafrif, neu nifer sylweddol o bobl, yn siarad Cymraeg.

**The Presiding Officer:** We have reached the end of the time normally permitted for a statement. However, due to the Business Committee's view on the importance of this statement, substantial additional time has been allocated. Ten Members wish to contribute, therefore, in order for them to do so, comments and questions need to be brief. I do not aim that comment specifically at Gareth Jones, who is the next Member to be called.



**Gareth Jones:** Ceisiaf fod yn gryno. Diolchaf i'r Gweinidog am y datganiad. Yr wyf am gyfyngu fy sylwadau a chwestiynau i'r sector sy'n ymwneud â dysgu gydol oes. Croesawn y £9.5 miliwn ychwanegol a fuddsoddwyd yn y sector hwn. Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd yn cytuno â'r ffaith eich bod yn rhoi hyd at £7 miliwn i hyrwyddo addysg blynyddoedd cynnar. Croesawn hynny'n fawr. Nodir hefyd yn yr adroddiad y bydd y £2.5 miliwn dros ben yn mynd at sicrhau gwelliannau mewn rhai meysydd pwysig ym myd addysg.

Teimlaf ychydig yn siomedig ynglŷn â'r cyfeiriad yn yr adroddiad at yr anghenion a'r gwendidau o ran pobl yn llithro o ddefnyddio eu hiaith gyntaf i'w hail iaith a'r diffyg dilyniant. Hoffwn fod wedi gweld gwell siâp ar y cynllun gweithredu o ran hyn. Yn hytrach na rhoi addewidion ynglŷn ag edrych i'r dyfodol, dylech fod wedi ystyried yr anghenion, ffurfio amserlen a nodi cyllid penodol ar gyfer yr anghenion hynny. Byddai hynny'n ei wneud yn gynllun gweithredu go iawn. Gobeithiaf y cawn gyfle i drin a thrafod hyn yn y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Mae gennyf ddau gwestiwn. A gadarnhewch fod y £9.5 miliwn yn ychwanegol at y cyllid a gaiff ei roi i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac nad yw cyllid yn cael ei gyfrif ddwywaith? Byddwn yn falch o gael cadarnhad. O ran y cynllun gweithredu, gobeithiaf y cawn gyfle i'w berffeithio drwy drafodaeth yn y Pwyllgor. Fe'ch atgoffaf hefyd fod y Trefnydd wedi addo beth amser yn ôl y cawsai dadl ei chynnal ar yr elfen addysg o'r cynllun gweithredu hwn. A yw'r Llywodraeth am lynu at hynny neu a fu newid meddwl?

**Jenny Randerson:** On the areas where the plan is not specific, as you suggest, research is underway on particular issues surrounding continuity. There is a great deal of work being done on that. With a comprehensive issue such as this, we could wait until all the research has taken place—the same issue was applicable to the census figures. A great deal of planning research is currently being carried out. If we waited for all the results to come in, we would be another year or two down the

**Gareth Jones:** I will try to be brief. I thank the Minister for the statement. I will restrict my comments and questions to the lifelong learning sector. We welcome the additional £9.5 million invested in this sector. Committee members also agree with the fact that you are giving up to £7 million for the promotion of early years education. We warmly welcome that. The report also notes that the remaining £2.5 will go towards securing improvements in some important areas of education.

I am a little disappointed by the reference in the report to the needs and weaknesses regarding people slipping from using their first language to their second language and the lack of continuity. I would like the action plan to have been better formed with regard to that. Rather than making promises about looking to the future, you should have considered the needs, drawn up a timetable and allocated specific funding for those needs. That would have made it a real action plan. I hope that we are given the opportunity to discuss this in the Education and Lifelong Learning Committee.

I wish to ask two questions. Will you confirm that the £9.5 million is additional to the funding given to the Welsh Language Board and that the funding is not accounted for twice? I would be glad of confirmation. On the action plan, I hope that we will be given an opportunity to perfect that through discussion in Committee. I also remind you that the Business Minister promised some time ago that a debate would be held on the education element of this action plan. Is the Government going to adhere to that or has there been a change of mind?

**Jenny Randerson:** Ar y rhannau lle nad yw'r cynllun yn benodol, fel yr awgrymwch, mae ymchwil ar waith, i faterion arbennig sy'n ymwneud â pharhad. Gwneir cryn waith ar hynny. Gyda mater mor gynhwysfawr fel hwn, gallem ddisgwyl hyd nes i'r holl ymchwil gael ei gwblhau—yr oedd yr un mater yn wir am ffigurau'r cyfrifiad. Cynhelir cryn ymchwil cynllunio ar hyn o bryd. Pe baem yn aros i'r holl ganlyniadau ddod i mewn, byddai blwyddyn neu ddwy arall wedi

tracks and by then more research will have been carried out. We had to decide to produce a document at some point. The Committee produced its report before the summer recess and we have responded to it at the first possible opportunity following the budget. We responded quickly because Members indicated that that is what they wanted. Additional work will be done over the next year or so on considering the issue raised on continuity and people changing from using their first language to using their second. There will also be time in Committee to discuss the issue; I believe that the Minister for Education and Lifelong Learning plans to introduce it in Committee on 19 December. I assure you that the funding for education is additional: it is not the same money that was allocated for the Welsh Language Board, which was announced separately earlier this year.

In terms of whether a debate on the issue will be held, that needs to be discussed with the Minister for Education and Lifelong Learning in Committee as you raised education issues in particular. We need to establish how many issues can be resolved in Committee and whether there is a need for a debate, which would lead to further delay in terms of implementing the policy. However, that might be a path that you wish to follow.

**Delyth Evans:** Croesawaf ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i'r Gymraeg, a fynegir yn glir yn y cynllun gweithredu, 'Iaith Pawb'. Hoffwn dalu teyrnged i'r Gweinidog ac yn arbennig i'r Gweinidog Cyllid, Edwina Hart, am ymateb mor gadarnhaol i'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Pwyllgor Diwylliant. Mae'r cynllun gweithredu yn adlewyrchu'n glir werthoedd y Blaid Lafur a'i chefnogaeth gadarn i'r iaith yng nghyd-destun cyfle cyfartal, goddefgarwch a chynaliadwyedd cymunedol.

Mae gennyf ddau gwestiwn ar eich datganiad. Sut y byddwch yn sicrhau bod eich strategaeth o fudd i bobl a chymunedau dros Gymru gyfan, ac nid yn unig o fudd i'r ardaloedd hynny a ystyrir yn gadarnleoedd yr iaith? Yn ail, sut ydych yn gweld rôl y mentrau iaith yn datblygu yn y blynyddoedd i ddod, gan ystyried y cynnydd sylweddol yn y gyllideb sydd ar gael iddynt?

mynd heibio ac erbyn hynny byddai mwy o ymchwil wedi'i gwblhau. Yr oedd yn rhaid inni benderfynu cynhyrchu dogfen rywbryd. Cynhyrchodd y Pwyllgor ei adroddiad cyn toriad yr haf, ac yr ydym wedi ymateb iddo ar y cyfle cyntaf posibl ar ôl y gyllideb. Gwnaethom ymateb yn gyflym gan fod yr Aelodau wedi awgrymu mai dyna oedd eu dymuniad. Gwneir gwaith ychwanegol yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf i ystyried y mater a godwyd am barhad, a phobl yn newid o ddefnyddio'u hiaith gyntaf i ddefnyddio'u hail iaith. Bydd amser hefyd yn y Pwyllgor i drafod y mater; credaf fod y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn bwriadu ei gyflwyno yn y Pwyllgor ar 19 Rhagfyr. Fe'ch sicrhaf fod yr arian ar gyfer addysg yn ychwanegol: nid yr un arian ydyw â'r arian a gafodd ei ddyrannu i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a gyhoeddwyd ar wahân yn gynharach eleni.

Mae pa un ai a gaiff dadl ei chynnal ar y mater yn rhywbeth y bydd angen ei drafod gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn y Pwyllgor gan ichi godi materion addysg yn benodol. Mae angen inni sefydlu faint o faterion y gellir eu datrys mewn Pwyllgor ac a oes angen dadl, a fyddai'n arwain at oedi pellach o ran gweithredu'r polisi. Fodd bynnag, efallai fod hynny'n llwybr y dymunwch ei ddilyn.

**Delyth Evans:** I welcome the Assembly Government's commitment to the Welsh language, which is clearly expressed in the action plan, 'Iaith Pawb'. I wish to pay tribute to the Minister and especially to the Finance Minister, Edwina Hart, for responding so positively to the priorities identified by the Culture Committee. The action plan clearly reflects the values of the Labour Party and its strong support for the language in the context of equal opportunity, tolerance and community sustainability.

I have two questions on your statement. How will you ensure that your strategy benefits people and communities throughout Wales, and not only those areas that are considered language heartlands? Secondly, how do you see the role of the mentrau iaith developing in the coming years, bearing in mind the substantial increase in the budget available to them?

**Jenny Randerson:** I emphasise that I share your appreciation of the way that Ministers have, generally, worked together positively. Although policies can do much, if they are not fully funded what they can achieve is limited. Therefore, the additional funding is a key aspect. When we consider this document as a whole, and the balance between the areas where Welsh is the language of the majority and where Welsh is the language of the minority, it becomes clear that this is a policy for the whole of Wales. It is one strategy, with different plans for different areas and situations. The emphasis, and the approach taken, may be different in different areas, and that is obvious in the language action plan. The plans are not all aimed at areas where the majority of people speak Welsh—they are aimed at areas where the number of Welsh-speaking people is falling fastest. That approach shows flexibility and is sensitive to local needs.

Finally, the mentrau iaith have had a fantastic period of development. They have developed quickly and they have received a rapid increase in funding. This is not the first time that they have had significant amounts of additional funding: they also received it over the last two years. One of the joys of the mentrau iaith is that their pitch is sensitive and local, and it is important that we ensure that they are established in a way that enables them to share good practice. Sharing good practice in language planning and in day-to-day activity is important.

**David Davies:** Weinidog, diolchaf i chi am yr adroddiad, ac am y ffaith bod yr adroddiad yn cydnabod y gwaith da a gyflawnodd y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf ar ran yr iaith Gymraeg. Mae gennyf ychydig o gwestiynau. Yn gyntaf, yr ydych am sicrhau rheithgorau dwyieithog, ond ar hyn o bryd mae'n broblem darganfod digon o bobl sy'n siarad Saesneg i wasanaethau ar reithgorau. Felly, sut y byddech chi'n dod o hyd i ddigon o bobl sy'n siarad Cymraeg i wasanaethu ar reithgorau? Mae'r ail bwynt yn ymwneud â chost cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 i'r cymdeithasau tai. Beth fydd y gost?

**Jenny Randerson:** Pwysleisiaf fy mod yn rhannu eich gwerthfawrogiad o'r modd y mae Gweinidogion, yn gyffredinol, wedi cydweithio yn gadarnhaol. Er y gall polisïau wneud llawer, os na chânt eu hariannu'n llawn mae'r hyn y gallant ei gyflawni yn gyfyngedig. Felly, mae'r arian ychwanegol yn agwedd allweddol. Pan ystyriwn y ddogfen hon yn ei chyfanrwydd a'r cydbwysedd rhwng yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith y mwyafrif a lle mae'r Gymraeg yn iaith y lleiafrif, daw'n eglur bod hwn yn bolisi ar gyfer Cymru gyfan. Mae'n un strategaeth gyda chynlluniau gwahanol ar gyfer ardaloedd a sefyllfaoedd gwahanol. Gall y pwyslais a'r ymagwedd a fabwysiedir fod yn wahanol mewn ardaloedd gwahanol, ac mae hynny'n amlwg yn y cynllun gweithredu iaith. Nid yw'r cynlluniau i gyd wedi eu hanelu at ardaloedd lle mae mwyafrif y bobl yn siarad Cymraeg—fe'u hanelwyd at ardaloedd lle mae nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn gostwng gyflymaf. Dengys yr ymagwedd hon hyblygrwydd ac mae'n sensitif i anghenion lleol.

Yn olaf, mae'r mentrau iaith wedi gweld cyfnod aruthrol o ddatblygiad. Maent wedi datblygu'n gyflym ac mae'r arian ar eu cyfer wedi cynyddu'n gyflym. Nid dyma'r tro cyntaf iddynt gael symiau sylweddol o arian ychwanegol: derbyniasant hyn hefyd dros y ddwy flynedd diwethaf. Un peth hyfryd am y mentrau iaith yw bod eu maes yn sensitif a lleol, ac mae'n bwysig ein bod yn sicrhau eu bod yn cael eu sefydlu mewn ffordd sy'n eu galluogi i rannu arfer da. Mae rhannu arfer da wrth gynllunio iaith ac mewn gweithgaredd o ddydd i ddydd yn bwysig.

**David Davies:** Minister, I thank you for the report, and for the fact that the report acknowledges the good work done with regard to the Welsh language by the last Conservative Government. I have a few questions. First, you want to ensure bilingual juries, but currently there is a problem finding enough people who can speak English to serve on juries. Therefore, how will you find sufficient numbers of Welsh speakers to serve on juries? The second point concerns the cost to the local housing associations of compliance with the Welsh Language Act 1993. What do you expect that cost to be?

Yn ogystal, yr wyf yn credu bod rhai o gymdeithasau tai Lloegr yn prynu tai yn ardaloedd gwledig Cymru, ac mae hynny yn achosi problemau. A fyddwch yn disgwyl i gymdeithasau tai o Loegr, sydd â thai yng Nghymru, gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993?

**Jenny Randerson:** I will take the last point first. Welsh language schemes take account of what is appropriate for the area in which the organisation serves. Therefore, a scheme for an area where the majority of people speak Welsh would be slightly different, or even significantly different, to a scheme for an area where few people speak Welsh. We mentioned parrots earlier, and I think that it could refer to your repeated references, David, to the wonders of the last Conservative Government, with which I always agree. [*Laughter.*] I always agree and say that its introduction of compulsory Welsh to key stage 4 was one of its great achievements; it is a pity that you do not agree with that policy. You will not win on that issue: I will always repeat my opinion.

3:40 p.m.

You raised a real issue about Welsh-speaking juries. It is a basic human right, which has been recognised in magistrates' courts for many years. Welsh-speaking magistrates are arranged on request when people appear before a magistrate's court. The issue of Welsh-speaking juries is complex, and is being discussed elsewhere. When the Welsh Language Act 1993 was introduced by a previous Conservative Government, the cost of compliance fell on all organisations in the public sector, and was considered to be part of their core costs, which were taken into account in all Government funding decisions. When we talk about mainstreaming the language to a serious degree, it is important that we take it into account in core costs, just as we take compliance with equal opportunities legislation into account. We must take all such issues on board.

**Karen Sinclair:** While I broadly support this Welsh language action plan, we must ensure that our young non-Welsh speakers do not

Also, I believe that some of the English housing associations are buying houses in rural areas of Wales, and that is causing some problems. Will you insist that housing associations from England that own houses in Wales comply with the Welsh Language Act 1993?

**Jenny Randerson:** Cymeraf eich pwynt olaf yn gyntaf. Mae cynlluniau iaith Gymraeg yn rhoi ystyriaeth i'r hyn sy'n addas ar gyfer yr ardal y mae'r corff yn gwasanaethu ynddi. Felly, byddai cynllun ar gyfer ardal lle mae mwyafrif y bobl yn siarad Cymraeg ychydig yn wahanol, neu hyd yn oed yn sylweddol wahanol, i gynllun ar gyfer ardal lle nad oes llawer o bobl yn siarad Cymraeg. Soniasom am barotiaid yn gynharach, a thybiaf y gallai gyfeirio at eich cyfeiriadau mynych, David, at ryfeddodau'r Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf, y cytunaf â hwy bob amser. [*Chwerthin.*] Cytunaf bob amser a dywedaf mai ei gwaith yn cyflwyno Cymraeg gorfodol i gyfnod allweddol 4 oedd un o'i llwyddiannau mwyaf; mae'n drueni nad ydych yn cytuno â'r polisi hwnnw. Ni fyddwch yn cario'r dydd ar y mater hwnnw: byddaf yn ailfynegi fy marn o hyd.

Codasoch fater gwirioneddol am reithgorau Cymraeg. Mae'n hawl ddynol sylfaenol, a gydnabuwyd gan lysoedd ynadon am sawl blwyddyn. Trefnir ynadon sy'n siarad Cymraeg ar gais, pan fydd pobl yn ymddangos gerbron llys ynadon. Mae mater rheithgorau Cymraeg yn gymhleth, ac mae'n cael ei drafod mewn man arall. Pan gyflwynwyd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 gan Lywodraeth Geidwadol flaenorol yr oedd pob corff yn y sector cyhoeddus yn gorfod talu cost cydymffurfio, ac fe'i hystyriwyd yn rhan o'u costau craidd, a ystyriwyd yn holl benderfyniadau ariannu'r Llywodraeth. Pan siaradwn am brif-ffrydio'r Gymraeg o ddifrif, mae'n bwysig ein bod yn rhoi ystyriaeth i gostau craidd, yn union fel y byddwn yn rhoi ystyriaeth i gydymffurfio â deddfwriaeth cyfleoedd cyfartal. Rhaid inni roi ystyriaeth i bob mater o'r fath.

**Karen Sinclair:** Er fy mod yn gyffredinol yn cefnogi'r cynllun gweithredu iaith Gymraeg hwn, rhaid inni sicrhau nad yw ein siaradwyr

feel hindered by their inability to speak Welsh. I know that many non-Welsh-speaking youngsters—and I speak to many of them—are asking where they fit into our plans. What assurance can you give them that their future and careers are secure in a vibrant Wales, where both languages co-exist on an equal basis, and where no-one feels denied access to a dynamic career in Wales because of their chosen tongue?

**Jenny Randerson:** I am tempted to say that the fact that you have a Minister for the Welsh language who is a Welsh learner symbolises the Government's approach, and the approach throughout Wales towards the language. The title of this document is deliberately open. Even if you do not speak Welsh as a first language, it is an inheritance that helps you to enjoy your culture. Young people, unless they are among the tiny minority who attend private sector schools, all receive a level of Welsh education now that enables them to appreciate basic Welsh. On your point about ensuring that everybody feels equal in Wales—they are equal. It is important that we realise that speaking Welsh is a precious skill and that we all have a variety of different skills. However, it is fundamentally important that Wales remains a society that is open and welcoming to those who move here, and to the young people who grow up in English-speaking homes and do not speak Welsh as a first language. They are the majority, after all.

**Rhodri Glyn Thomas:** Croesawaf eich sylwadau mewn ymateb i Karen Sinclair. Mae'r ysbryd cynhwysol hwnnw yn eithriadol o bwysig os yw'r strategaeth hon i lwyddo. Hoffwn hefyd eich llongyfarch ar y cynllun gweithredu. Gwnaethpwyd llawer o waith i ddwyn y gwaith at ei gilydd, ac mae'r Pwyllgor Diwylliant a ninnau yn ei groesawu'n fawr. Mae llawer sydd yn galonogol yn yr adroddiad hwn, ac mae'n amlwg bod ymrwymiad ac ewylllys gwleidyddol yma i gyflawni'r gwaith.

Wedi dweud hynny, nodaf ddau ofid. A wnewch roi ymrwymiad inni y prynhawn yma y bydd digon o bobl yn gweithio yn yr

di-Gymraeg ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu rhwystro gan eu hanallu i siarad Cymraeg. Gwn fod llawer o ieuenctid nad ydynt yn siarad Cymraeg—a siaradaf â llawer ohonynt—yn gofyn beth yw eu rhan hwy yn ein cynlluniau. Pa sicrwydd y gallwch ei roi iddynt fod eu dyfodol a'u gyrfaoedd yn ddiogel mewn Cymru hyfyw, lle mae'r ddwy iaith yn cydfodoli yn gyfartal a lle nad oes neb yn teimlo eu bod yn cael eu rhwystro rhag cael gyrfa ddeinamig yng Nghymru oherwydd eu dewis iaith?

**Jenny Randerson:** Caf fy nhemtio i ddweud fod y ffaith fod gennyhch Weinidog dros yr iaith Gymraeg sy'n ddysgwraig yn symbol o ymagwedd y Llywodraeth, a'r ymagwedd ledled Cymru tuag at yr iaith. Mae teitl y ddogfen hon yn fwriadol benagored. Hyd yn oed os nad ydych yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, mae'n etifeddiaeth sy'n eich helpu i fwynhau eich diwylliant. Mae pobl ifanc, oni bai eu bod ymhlith y lleiafrif bach sy'n mynychu ysgolion sector preifat, i gyd yn cael rhywfaint o addysg Gymraeg yn awr, sy'n eu galluogi i werthfawrogi Cymraeg sylfaenol. O ran eich pwynt am sicrhau bod pawb yn teimlo'n gydradd yng Nghymru—maent yn gydradd. Mae'n bwysig inni sylweddoli bod siarad Cymraeg yn sgil werthfawr a bod gan bob un ohonom amrywiaeth o sgiliau gwahanol. Fodd bynnag, mae'n sylfaenol bwysig bod Cymru yn parhau yn gymdeithas sy'n agored ac yn groesawgar i'r rheini sy'n symud yma, ac i'r bobl ifanc sy'n cael eu magu mewn cartrefi Saesneg eu hiaith ac nad ydynt yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Hwyl yw'r mwyafrif wedi'r cyfan.

**Rhodri Glyn Thomas:** I welcome your comments in response to Karen Sinclair. That inclusive spirit is vital if this strategy is to succeed. I also congratulate you on the action plan. Much good work has been done to bring this together, and we and the Culture Committee greatly welcome it. There is much that is encouraging in this report, and the commitment and political will obviously exists to accomplish the work.

Having said that, I note two concerns. Will you give a commitment this afternoon that the strategic unit will be adequately staffed? I am

uned strategol? Yr wyf yn hapus ei fod yn bodoli, ac ar ei leoliad yn y gwasanaeth sifil, ond hoffwn gael fy argyhoeddi bod digon o bobl yn mynd i weithio yno er mwyn cyflawni'r gwaith pwysig o gydlynu polisiau yn drawsbynciol. Yn ail, croesawaf y £9.5 miliwn ychwanegol ar gyfer addysgofal ac addysg feithrin, ond gofidiaf ynglŷn â'r continiwm addysgiadol cyfrwng Cymraeg. Nid oes digon o arian ar gyfer hynny. Derbyniaf fod ymrwymiad, ac yr wyf yn falch o hynny, oherwydd pan welais y gyllideb ddraft, yr oeddwn yn poeni na fyddai ymrwymiad i'r continiwm yno. Fodd bynnag, nid oes yn agos at ddigon o arian i sicrhau'r continiwm.

Mae perygl y gellir creu galw aruthrol yn y sector gofal a meithrin na fydd yr adnoddau ar ei gyfer mewn addysg gynradd, uwchradd ac uwch. Gobeithiaf y gallwch ddod o hyd i'r arian hwnnw, ond hoffem ymrwymiad gennych y bydd yr arian ar gael i ateb y galw. Serch hynny, yr wyf yn eich llongyfarch, oherwydd yr ydym wedi symud ymlaen yn aruthrol o ran ein hymrwymiad i'r Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg drwy'r Llywodraeth. Mae'r ffaith y gall pawb gyfrannu mor gadarnhaol tuag at y drafodaeth yn eithriadol o bwysig i'r dyfodol. Sylweddolwn, beth bynnag a wna'r Llywodraeth, fod dyfodol y Gymraeg yn nwylo pobl Cymru, a gobeithiwn y byddant yn ymateb yn gadarnhaol i'r adroddiad hwn.

**Jenny Randerson:** I agree with your last comment. The support of people throughout Wales is essential. The Assembly has worked at its best in its approach to the language; we have worked hard to achieve a great deal of consensus. It is not a cosy consensus, but a probing one. Nevertheless, there is general agreement in support of the language. I assure you that the political will exists in terms of providing support.

On the Welsh language unit, the staffing on the cultural sector side has never been massive. The unit will, however, be of sufficient size and strength to embark on the task. It is worth bearing in mind—and I say this carefully—that this is the same approach as to the education money. We are aware that we are embarking on another important phase

happy that it exists, and that it will be part of the civil service, but I would like to be convinced that the unit will be adequately staffed to achieve the important work of co-ordinating cross-cutting policies. Secondly, I also welcome the additional £9.5 million for educare and nursery education, but I am concerned about the Welsh-medium educational continuum. There is not enough money for that. I accept that there is a commitment, and I welcome that, because when I saw the draft budget, I was worried that it would not contain a commitment to the continuum. However, there is nowhere near enough money to ensure the continuum.

There is a danger that we will create massive demand in the care and nursery sector for which there will not be the resources in primary, secondary and higher education. I hope that you find that funding, but we would like a commitment from you that money will be available to meet demand. Despite that, I congratulate you, because we have moved forward considerably in terms of our commitment to the Welsh language and promoting the Welsh language through Government. The fact that everyone can contribute so positively to the debate is vital for the future. We realise that, whatever the Government does, the future of the Welsh language is in the hands of the people of Wales, and we hope that they respond positively to this report.

**Jenny Randerson:** Cytunaf â'ch sylw diwethaf. Mae cefnogaeth pobl ledled Cymru yn hanfodol. Gweithiodd y Cynulliad ar ei orau yn ei agwedd tuag at yr iaith Gymraeg; gweithiodd pawb ohonom yn galed i gyrraedd cryn gonsensws. Nid yw'n gonsensws clyd, ond mae'n un ymchwilgar. Er hynny, ceir cytundeb cyffredinol o blaid yr iaith. Fe'ch sicrhaf fod yr ewyllys wleidyddol yn bodoli o ran darparu cefnogaeth.

O ran yr uned iaith Gymraeg, nid yw nifer y staff ar ochr y sector diwylliannol, erioed wedi bod yn enfawr. Bydd yr uned fodd bynnag, yn un o faint a chryfder digonol i ddechrau ar y dasg. Mae'n werth cofio—a dywedaf hyn yn ofalus—mai'r un yw'r ymagwedd yn y fan hon â'r ymagwedd tuag at yr arian addysg. Yr ydym yn ymwybodol

of Welsh language development. We have the statutory structure and we must now embed the language in communities, ensure that it remains embedded there and develop it throughout the education system. In that regard, this is probably the most radical statement ever made on the language. We are embarking on a path, and we are putting the steps along that path in place. In terms of the continuum and the Welsh language unit, we gave a commitment to make adequate resources available. We are well aware that, if you put £7 million into nursery education training, then you must provide funding for future years to support nursery education. The Finance Minister and the Minister for Education and Lifelong Learning are aware of that and that demand will work through into higher education. Everyone is clear on that, but we cannot put all the pieces in place on day one.

**John Griffiths:** I agree with other Members that we must ensure that this policy has meaning throughout Wales and takes into account the different language realities in different parts of Wales. It must keep Welsh as a living community language where it currently is such, and also address the situation in areas such as Newport East, where Welsh is spoken by a small minority of the population. Bearing in mind that it is important for the future of the language that people throughout Wales feel ownership of it and that they feel involved, will you ensure that, as you implement the policy, special attention is given to areas such as Newport, where there are the obvious difficulties of little Welsh being spoken in the community, with few opportunities to use the language and few first-language or adequate second-language Welsh speakers to recruit as teachers? There is progress in terms of street signage, the growth of Welsh-medium education and the holding of the Eisteddfod in Newport in a few years' time. So there are developments, but help is needed. Will you ensure that that help is forthcoming?

**Jenny Randerson:** The Labour Force Survey indicates that 18 per cent of people in Newport consider themselves to be Welsh speakers. However you measure their ability

ein bod yn dechrau ar gam pwysig arall yn natblygiad yr iaith Gymraeg. Mae gennym y strwythur statudol a rhaid inni yn awr wreiddio'r iaith yn ein cymunedau, sicrhau ei bod yn parhau wedi ei gwreiddio yno, a'i datblygu ar draws y system addysg. Yn hynny o beth, mae'n debygol mai hwn yw'r datganiad mwyaf radical a wnaed erioed am yr iaith. Yr ydym yn dechrau cerdded llwybr ac yr ydym yn sefydlu'r camau ar hyd y llwybr hwnnw. O ran y continiwm a'r uned iaith Gymraeg, rhoesom ymrwymiad i ddarparu adnoddau digonol. Yr ydym yn ymwybodol iawn, os darperwch £7 miliwn ar gyfer addysg feithrin, yna rhaid darparu arian ar gyfer y blynyddoedd i ddod i gefnogi addysg feithrin. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes yn ymwybodol o hynny, a bydd y galw hwnnw yn treiddio i addysg uwch. Mae pawb yn glir ar hyn, ond ni allwn roi'r holl ddarnau yn eu lle ar y diwrnod cyntaf.

**John Griffiths:** Cytunaf ag Aelodau eraill fod yn rhaid inni sicrhau bod y polisi hwn yn ystyrlon ledled Cymru a'i fod yn rhoi ystyriaeth i'r gwahanol sefyllfaoedd iaith mewn gwahanol rannau o Gymru. Rhaid cadw'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw lle y mae hynny'n bod, a mynd i'r afael hefyd â'r sefyllfa mewn mannau megis Dwyrain Casnewydd, lle y siaredir y Gymraeg gan leiafrif bach o'r boblogaeth. O gofio ei bod yn bwysig ar gyfer dyfodol yr iaith fod pobl ledled Cymru yn teimlo eu bod yn berchen arni a'u bod yn rhan ohoni, a wnewch chi sicrhau, wrth ichi roi'r polisi hwn ar waith, y bydd sylw arbennig yn cael ei roi i ardaloedd megis Casnewydd, lle ceir yr anawsterau amlwg sef na siaredir llawer o Gymraeg yn y gymuned, nad oes llawer o gyfle i ddefnyddio'r iaith ac nad oes llawer o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf neu siaradwyr Cymraeg ail iaith addas i'w recriwtio fel athrawon? Mae cynnydd o ran arwyddion stryd, twf addysg cyfrwng Cymraeg a'r ffaith y cynhelir yr Eisteddfod yng Nghasnewydd mewn ychydig flynyddoedd. Felly mae datblygiadau, ond mae angen cymorth. A wnewch chi sicrhau y rhoddir cymorth?

**Jenny Randerson:** Mae'r Arolwg o'r Gweithlu yn dangos bod 18 y cant o'r bobl yng Nghasnewydd yn ystyried eu bod yn siarad Cymraeg. Sut bynnag y mesurwch eu

to speak Welsh, that is a significant percentage. I welcome the fact that it is a considerable increase on previous figures and I will look at the census data with particular interest. As a Member who represents a similar constituency, I am aware that, where there is a substantial ethnic minority population, there are issues about ensuring that, as Karen mentioned, everyone feels included in the policy. However, language-learning is a valuable skill and once you have learned one or two languages, learning a third or fourth becomes easier. We should encourage this skill among our young people.

gallu i siarad Cymraeg, mae hyn yn ganran sylweddol. Croesawaf y ffaith ei fod yn gynydd sylweddol ar ffigurau blaenorol a byddaf yn edrych ar ddata'r cyfrifiad gyda diddordeb mawr. Fel Aelod sy'n cynrychioli etholaeth debyg, yr wyf yn ymwybodol, lle ceir poblogaeth leiafrifol ethnig sylweddol, fod yna faterion ynglŷn â sicrhau, fel y dywedodd Karen, fod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y polisi. Fodd bynnag, mae dysgu iaith yn sgil werthfawr ac unwaith yr ydych wedi dysgu un neu ddwy iaith, mae dysgu trydedd a phedwaredd yn dod yn haws. Dylem annog y sgil hon ymhlith ein pobl ifanc.

3:50 p.m.

The Welsh Language Board is paying particular attention to areas such as Newport and the structures that must be put in place to support the initiative in such areas. Particular attention has been paid in the provision of education and training money to addressing the training needs of teachers to fulfil the requirements of these areas. There are areas in Cardiff, Wrexham, Monmouth, and along the border in mid Wales where such problems exist. They must be identified and supported.

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn rhoi sylw arbennig i ardaloedd megis Casnewydd a'r strwythurau y dylid eu rhoi ar waith i gefnogi'r fenter mewn ardaloedd o'r fath. Rhoddwyd sylw arbennig wrth ddarparu arian addysg a hyfforddiant i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddiant athrawon i fodloni gofynion yr ardaloedd hyn. Ceir ardaloedd yng Nghaerdydd, Wrecsam, Trefynwy ac ar hyd y ffin yng nghanolbarth Cymru lle mae problemau o'r fath yn bodoli. Rhaid eu dynodi a'u cefnogi.

**Cynog Dafis:** Croesawaf naws y datganiad a'r math o eiriau y mae'r Gweinidog wedi eu defnyddio. Ni fyddwn wedi credu, flynyddoedd yn ôl, y byddai'n bosibl cyrraedd consensws mor gryf. Fe'i croesawaf.

**Cynog Dafis:** I welcome the spirit of the statement and the tone that the Minister has adopted. Years ago, I would not have believed it possible that such a strong consensus could be reached. I welcome it.

Mae gennyf un pryder ynglŷn â'r rhan o'r adroddiad sy'n ymwneud ag addysg. Mewn trafodaethau yn y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, nid oedd y Gweinidog yn frwd dros greu strategaeth genedlaethol i sicrhau twf mewn addysg Gymraeg; bu iddi ddadlau mai mater i lywodraeth leol oedd hynny. Serch hynny, penderfyniad y Pwyllgor oedd y dylid paratoi

I have one concern about the section in the report on education. In discussions at the Education and Lifelong Learning Committee, the Minister for Education and Lifelong Learning was not keen on creating a national strategy to ensure the growth of Welsh-medium education; she argued that it was a matter for local authorities. However, the Committee determined that

'fframwaith strategol cenedlaethol i sicrhau bod trefniadau...ar gyfer...datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog'.

'a national strategic framework to ensure that...mechanisms are in place for...development of Welsh-medium and bilingual education'

Fodd bynnag, o ddarllen y cynllun gweithredu, mae'n debyg mai'r Gweinidog

be prepared. However, from the action plan, it seems that the Minister for Education and



dros Addysg a Dysgu Gydol Oes sydd wedi cael yr hyn a ddymunai, yn groes i benderfyniad y Pwyllgor. Mae eich datganiad yn sôn am roi cyfeiriad strategol i'r polisïau hyn ynghyd ag arweinyddiaeth wleidyddol. Sut y byddwch yn argyhoeddi'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes o hyn?

Cefnogaf gais Gareth Jones am ddadl mewn Cyfarfod Llawn ar y Gymraeg mewn addysg.

**Jenny Randerson:** I emphasise that, as with every other aspect of education when it comes to this level of detail, it is for local authorities to decide the shape and delivery of their education system, within the framework we provide. As I said earlier, the Minister for Education and Lifelong Learning has already given informal advice to local education authorities about Welsh-medium education provision.

You should not overlook the other relevant factors. Not only is research ongoing, but the funding for latecomers centres will make a big difference to Welsh-medium education, as will the money for training. This statement is a response to the Committee's report and, given the number of recommendations in the report and their complexity, it would be nothing short of a miracle if we met everyone's expectations 100 per cent at the first attempt.

**Pauline Jarman:** In providing for children's special educational needs, early intervention is essential. I know of a three-year-old boy who was referred to a psychologist for an assessment of his needs. Part of the assessment process requires the child to identify images from picture flash cards. In response to the first picture, the child, with a wide smile, identified the image with one word: 'ci'. The highly respected psychologist responded, 'No, darling, that is not a key; that is a dog.' The child was a pupil at the local dosbarth meithrin. I use this example to illustrate that priority investment from the Government is needed in special educational needs provision. Did you say that investment in special educational needs provision for these children is programmed for 2005? Did I hear you correctly?

Lifelong Learning got her way, contrary to the decision of the Committee. Your statement mentions giving strategic direction to, and political leadership on, these policies. How will you persuade the Minister for Education and Lifelong Learning of this?

I support Gareth Jones's request for a Plenary debate on Welsh in education.

**Jenny Randerson:** Pwysleisiaf, fel gyda phob agwedd arall ar addysg pan ddaw i'r manylder hwn, mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw penderfynu ar ffurf a chyflwyniad eu system addysg, o fewn y fframwaith a ddarparwn. Fel y dywedais yn gynharach, mae'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes eisoes wedi rhoi cyngor anffurfiol i awdurdodau addysg lleol ynglŷn â darpariaeth addysg Gymraeg.

Ni ddylech anwybyddu ffactorau perthnasol eraill. Mae ymchwil yn parhau a bydd yr arian ar gyfer canolfannau hwyr-ddyfodiaid yn gwneud gwahaniaeth mawr i addysg Gymraeg hefyd yn yr un modd ag y bydd yr arian ar gyfer hyfforddi. Mae'r datganiad hwn yn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ac, o gofio nifer yr argymhellion yn yr adroddiad a'u cymhlethdod, byddai'n wyrthiol pe baem yn bodloni disgwyliadau pawb yn llwyr ar y cynnig cyntaf.

**Pauline Jarman:** Er mwyn darparu ar gyfer anghenion addysg arbennig plant, mae'n hanfodol cael ymyriad cynnar. Gwn am fachgen teirblwydd oed a gyfeiriwyd at seicolegydd i gael asesiad o'i anghenion. Mae rhan o'r asesiad yn gofyn i'r plentyn adnabod delweddau o gardiau lluniau fflach. Mewn ymateb i'r llun cyntaf, edrychodd y plentyn y llun â gwen lydan, gan ddweud y gair 'ci'. Ymatebodd y seicolegydd uchel ei barch, gan ddweud 'Na, machgen i, nid 'key' yw hwn, ond 'dog'. Yr oedd y plentyn yn ddisgybl yn y dosbarth meithrin lleol. Defnyddiaf yr enghraifft hon i ddangos bod angen i'r Llywodraeth roi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn anghenion addysgol arbennig. A ddywedasoch fod y buddsoddiad mewn anghenion addysgol arbennig i'r plant hyn wedi ei drefnu ar gyfer 2005? A glywais i chi'n iawn?

**Jenny Randerson:** You heard correctly. That is when the money will come on-stream. You will appreciate that many of the ideas are ambitious and funding must match progress in terms of getting the programmes up and running. In addition, the Welsh Advisory Group on Special Educational Needs has been asked to consider needs plans for Welsh-medium special educational needs provision and to produce an action plan. It is not just about money: policy is being developed. Policy and provision is being developed with regard to speech therapy, for example. There are issues in this regard, not highlighted today, associated with Jane Hutt's portfolio as Minister for Health and Social Services. Much work is underway to ensure that there is adequate provision of speech therapy for Welsh-speaking children. I am sure that everyone would agree that that is a difficult issue to tackle, especially at a time when it is difficult to get speech therapists at all. However, a clear will exists to tackle that issue.

**Elin Jones:** Weinidog, yr adran ar gynllunio yw'r unig adran y cefais y cyfle i'w darllen. Mae 'Iaith Pawb' yn cydnabod pwysigrwydd cynlluniau datblygu unedol i lunio dyfodol cymunedau, a chymunedau Cymraeg eu hiaith yn benodol yn y cyd-destun hwn. A yw'r Llywodraeth yn bwriadu trafod gyda phob awdurdod lleol i sicrhau eu bod yn datblygu cynlluniau datblygu unedol mewn modd sy'n sicrhau ffyniant i'r iaith Gymraeg, yn unol ag 'Iaith Pawb'?

**Jenny Randerson:** A great deal of work is underway in relation to local authorities and unitary development plans; Sue Essex referred to this yesterday. Linguistic impact research is underway, which needs to be taken into account in drawing up unitary development plans. Work on 'Technical Advice Note (Wales) 20—The Welsh Language: Unitary Development Plans and Planning Control' and on unitary development plans is also ongoing. Local authorities must take account of the Welsh language in developing their unitary development plans, but they cannot produce policies that discriminate against individuals depending on whether or not they speak

**Jenny Randerson:** Clywsoch yn gywir. Dyna pryd bydd yr arian ar gael. Fe sylweddolwch fod llawer o'r syniadau yn uchelgeisiol a bod rhaid i'r arian gyfateb â chynnydd o ran rhoi rhaglenni ar waith. Yn ychwanegol at hyn, gofynnwyd i Grŵp Ymgynghorol Cymru ar Anghenion Addysgol Arbennig ystyried cynlluniau ar gyfer anghenion addysgol arbennig mewn addysg Gymraeg ac i baratoi cynllun gweithredu. Nid mater o arian yn unig ydyw@ mae polisi yn cael ei ddatblygu. Mae polisi a darpariaeth yn cael eu datblygu o ran therapi lleferydd, er enghraifft. Mae problemau yn codi o hyn nas nodwyd heddiw, sy'n gysylltiedig â phortffolio Jane Hutt fel y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae llawer o waith yn mynd rhagddo i sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer therapi lleferydd i blant Cymraeg eu hiaith. Yr wyf yn siŵr y byddai pawb yn cytuno bod hyn yn fater anodd i fynd i'r afael ag ef, yn enwedig ar adeg pan mae'n anodd cael therapyddion lleferydd o gwbl. Fodd bynnag, mae ewyllys eglur yn bodoli i fynd i'r afael â'r mater hwn.

**Elin Jones:** Minister, I have only had the chance to read the section of the document concerning planning. 'Iaith Pawb' acknowledges the importance of unitary development plans in developing the future of communities, and Welsh-speaking communities particularly in this context. Does the Government intend to hold discussions with every local authority, to ensure that they develop unitary development plans in a way that ensures that the Welsh language will prosper, in accordance with 'Iaith Pawb'?

**Jenny Randerson:** Mae llawer o waith yn mynd rhagddo mewn perthynas ag awdurdodau lleol a chynlluniau datblygu unedol; cyfeiriodd Sue Essex at hyn ddoe. Mae gwaith ymchwil ar effaith ieithyddol yn mynd rhagddo, ac y mae angen rhoi ystyriaeth iddo wrth baratoi cynlluniau datblygu unedol. Mae gwaith ar y 'Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 20—Yr Iaith Gymraeg: Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheolaeth Gynllunio' ac ar gynlluniau datblygu unedol hefyd yn mynd rhagddo. Rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried y Gymraeg wrth ddatblygu eu cynlluniau datblygu unedol, ond ni allant gynhyrchu polisiau sy'n gwahaniaethu yn erbyn yngolion yn dibynnu ar pa un a ydynt yn

Welsh. Authorities must take account of the area's linguistic character, and that same thread runs through policies on housing and planning.

**Dafydd Wigley:** Croesawaf ddatganiad y Gweinidog, sef

'y gallwn greu Cymru wirioneddol ddwyieithog'.

Cymeraf fod hynny'n ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i wireddu hynny.

Beth yw'r ffon fesur a fydd yn dangos inni ein bod wedi cyrraedd y nod? Beth yw'r dyddiad targed ar gyfer cyrraedd y nod? Sut y byddwn yn troi'r ddogfen hon yn gynllun gwirioneddol?

I gloi, mae angen dadl lawn ar y materion hyn i gyd—nid y rhai addysgiadol yn unig. Mae agweddau ar waith a thai a chynllunio sydd dal angen sylw. Mae angen dychwelyd at y pwyntiau hynny ac at y cwestiwn o gyflwyno tystiolaeth i Ivor Richard, o ran sut y gallwn addasu Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 i ddiwallu anghenion presennol Cymru.

**Jenny Randerson:** On that last point, I have already given evidence to Ivor Richard, which encompassed the Welsh Language Act 1993.

As you realise, a bilingual Wales must be attained gradually. That does not mean that we progress slowly, but that we do so steadily. The targets contained in 'Iaith Pawb'—and I do not want to go into why there are not more precise targets—are for 2011, and that is the time to measure our success. It is important that, in addition to targets, we develop the information that we have about the language. When it comes down to it, much of the information is sparse, patchy and not terribly reliable. The Welsh Language Board will be given additional money to develop our knowledge base and statistics on the language.

In terms of having a full debate, I will repeat roughly what I said before, which is that that will be considered once the document has been scrutinised in Committee. The need for a further debate must be balanced against the

siarad Cymraeg ai peidio. Rhaid i awdurdodau roi ystyriaeth i gymeriad ieithyddol ardal, ac mae'r un llinyn hwnnw'n rhedeg drwy bolisiau ar dai a chynllunio.

**Dafydd Wigley:** I welcome the Minister's statement that

'we can create a truly bilingual Wales'.

I take it that that is a commitment by the Government of Wales to realise that.

By what yardstick will you measure whether or not we have reached that goal? What is the target date for achieving that goal? How will we turn this document into a real plan?

To close, a full debate is needed on all these matters—not just on the educational issues. Aspects of employment, housing and planning have yet to be addressed. We need to revisit those points as well as the question of submitting evidence to Ivor Richard, in terms of how we can adapt the Welsh Language Act 1993 to Wales's current needs.

**Jenny Randerson:** Ar y pwynt olaf hwnnw, yr wyf eisoes wedi rhoi tystiolaeth i Ivor Richard a oedd yn cwmpasu Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Fel y sylweddolwch, rhaid cyflawni Cymru ddwyieithog yn raddol. Ni olyga hynny ein bod yn datblygu'n araf, ond ein bod yn gwneud hynny'n gyson. Mae'r targedau a gynhwysir yn 'Iaith Pawb'—ac nid wyf am draethu ymhellach ar pam nad oes targedau mwy penodol—ar gyfer 2011, a dyna'r adeg i fesur ein llwyddiant. Mae'n bwysig ein bod, yn ychwanegol at dargedau, yn datblygu'r wybodaeth sydd gennym am yr iaith. Yn y diwedd, mae llawer o'r wybodaeth yn denau, yn dameidiog ac nid yw'n ddibynadwy iawn. Bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael arian ychwanegol i ddatblygu ein sylfaen gwybodaeth ac ystadegau ar yr iaith.

O ran cael dadl lawn, ailadroddaf yn fras yr hyn a ddywedais yn flaenorol, sef y bydd hynny'n cael ei ystyried unwaith y bydd y Pwyllgor wedi craffu ar y ddogfen. Rhaid cydbwysu'r angen am ddadl bellach yn erbyn

general will, which I believe exists, to get this document released and active.

Yr ewyllys gyffredinol, y credaf sy'n bodoli, i'r ddogfen hon gael ei rhyddhau a'i rhoi ar waith.

4:00 p.m.

## **Cymeradwyo Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Diwygio) 2002 Approval of the General Teaching Council for Wales (Amendment) Order 2002**

**The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson):** I propose that

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Cynigiaf fod

*the National Assembly considers the principle of the General Teaching Council for Wales (Amendment) Order 2002, laid in the Table Office on 29 October 2002. (NDM1226)*

*y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried egwyddor Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Diwygio) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2002. (NDM1226)*

I propose that

Cynigiaf fod

*the National Assembly:*

*y Cynulliad Cenedlaethol:*

*1. considers the report of the Legislation Committee which does not draw the special attention of the Assembly to any matter under Standing Order No. 11.5, in relation to the draft Order, the General Teaching Council for Wales (Amendment) Order 2002, laid in the Table Office on 12 November 2002;*

*1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog Rhif 11.5 mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft, Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Diwygio) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2002.*

*2. approves that the Order is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 29 October 2002. (NDM1227)*

*2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2002. (NDM1227)*

The Assembly formally established the General Teaching Council for Wales on 1 September 2000, with the aim of providing an independent, authoritative voice for the teaching profession that would work with the National Assembly and the profession to raise standards. Its principal statutory functions are to provide advice to the Assembly and others on a wide range of professional issues, to establish and maintain a register and records of teachers and to be responsible for disciplinary action against teachers for unacceptable conduct and serious incompetence. During the council's formative years, the Assembly provided financial support to ensure that it started out on a firm financial footing, that it had time to establish itself in the eyes of the profession and that it could establish its own robust funding

Sefydlwyd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ffurfiol gan y Cynulliad ar 1 Medi 2000, gyda'r nod o roi llais annibynnol, awdurdodol i'r proffesiwn addysgu a fyddai'n gweithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol a'r proffesiwn i godi safonau. Ei brif swyddogaethau statudol yw rhoi cyngor i'r Cynulliad ac eraill ar ystod eang o faterion proffesiynol, sefydlu a chadw cofrestr a chofnodion o athrawon a bod yn gyfrifol am gymryd camau disgyblu yn erbyn athrawon oherwydd ymddygiad annerbyniol ac anghymhwyster difrifol. Yn ystod blynyddoedd cyntaf y cyngor, rhoddodd y Cynulliad gymorth ariannol i sicrhau bod ei sefyllfa ariannol yn gadarn o'r cychwyn, bod ganddo amser i ymsefydlu yng ngolwg y proffesiwn a'i fod yn gallu sefydlu ei ddulliau cadarn ei hun o ariannu. O 1 Ebrill 2002

mechanisms. From 1 April 2002 the council has, in the main, become self-financing through the collection of registration fees from teachers.

To tie in with the council's growing independence, it is now appropriate to relax some of the controls, similar to those applied to Assembly sponsored public bodies, which were initially applied to the council to ensure proper control and to safeguard the Assembly's funds. The relaxations included in the Order cover housekeeping, day-to-day management and administrative issues. For example, they allow the council to determine its own staffing levels and to determine members' salaries, allowances and pensions. Such relaxations will not affect the council's key statutory functions, and the Assembly will continue to work with it on a wide range of education subjects.

The Order has been consulted upon with a wide range of bodies that have an interest in the teaching profession and in education in general. All comments have been taken into account in drawing up the final draft that is before Members today. This Order will not affect the Assembly's working relationship with the council but rather will reduce our sponsorship requirements and relax bureaucratic burdens. It will underline the council's independence as a self-regulatory, professional body of teachers, which it was always envisaged that it would be. I hope that Members will vote unanimously in favour of the motion.

**Gareth Jones:** Ar ran Plaid Cymru—The Party of Wales, croesawaf y Gorchymyn hwn, sy'n lleihau rheolaeth y Cynulliad Cenedlaethol o'r Cyngor Addysgu Cyffredinol, a'i afael arno. Mae'n gam yn y cyfeiriad cywir—hynny yw, tuag at sefydlu cyngor addysgu hunangynhaliol, annibynnol ei farn a'i lais a allai weithredu ar wahân i'r Cynulliad. Mae'n hollbwysig bod gan y proffesiwn gyngor addysgu yr ystyrir ei fod yn brif gorff addysgol Cymru. Gobeithiaf y bydd ganddo lawer mwy o gyfrifoldebau yn y dyfodol, megis hyfforddiant, rheoli perfformiad, recriwtio a chyfrifoldeb am staff addysgol cynorthwyol. Bydd y Cynulliad yn dibynnu arno i ddarparu cyngor a thystiolaeth

dechreuodd y cyngor ariannu ei hun, ar y cyfan, drwy gasglu ffioedd cofrestru gan athrawon.

I gyd-fynd â'r cynnydd o ran annibyniaeth y cyngor, mae'n briodol erbyn hyn llacio rhai o'r rheolaethau, sy'n debyg i'r rhai a gymhwysir i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, a gymhwyswyd i'r cyngor ar y cychwyn i sicrhau rheolaeth briodol ac i ddiogelu arian y Cynulliad. Ymhlith y materion i'w llacio yn y Gorchymyn mae cadw tŷ, rheoli o ddydd i ddydd a materion gweinyddol. Er enghraifft, mae'r Gorchymyn yn caniatáu i'r cyngor benderfynu ar nifer ei staff ei hun ac ar gyflogau, lwfansau a phensiynau'r aelodau. Ni fydd llacio o'r fath yn effeithio ar swyddogaethau statudol allweddol y cyngor, a bydd y Cynulliad yn parhau i gydweithio ag ef ar ystod eang o bynicau sy'n ymwneud ag addysg.

Ymgynghorwyd ag ystod eang o gyrff â diddordeb yn y proffesiwn addysgu ac mewn addysg yn gyffredinol ynglŷn â'r Gorchymyn. Ystyriwyd pob sylw wrth lunio'r drafft terfynol sydd gerbron yr Aelodau heddiw. Ni fydd y Gorchymyn hwn yn effeithio ar y berthynas waith rhwng y Cynulliad a'r cyngor ond yn hytrach bydd yn lleihau ein gofynion o ran noddi ac yn llacio beichiau biwrocraidd. Bydd yn sail i annibyniaeth y cyngor fel corff proffesiynol, hunan-reoliadol i'r athrawon, a rhagwelwyd o'r cychwyn y byddai felly. Gobeithiaf y bydd yr Aelodau yn pleidleisio'n unfrydol o blaid y cynnig.

**Gareth Jones:** On behalf of Plaid Cymru—The Party of Wales, I welcome this Order, which limits the National Assembly's control over the General Teaching Council, and its hold on it. It is a step in the right direction—that is, towards establishing a self-supporting teaching council, independent in its views and its voice, which can operate independently of the Assembly. It is crucial that the profession has a teaching council that is considered to be Wales's chief educational body. I hope that it will have many more responsibilities in future, such as training, performance management, recruitment and responsibility for teaching support staff. The Assembly will depend on it to provide advice and evidence and to

ac i ymgymryd â gwaith datblygol i'r proffesiwn. Yn y dyfodol, bydd rhaid i'r cyngor fod yn llais cryf, awdurdodol ac annibynnol ar ran y proffesiwn, a rhaid iddo fod yn barod i gynnig opsiynau ac atebion a chyfrannu at greu polisiau sy'n allweddol i ddatblygiad addysg yng Nghymru. Mae'r Gorchymyn yn ein tywys yn y cyfeiriad cywir, ac fe'i cefnogwn.

**Mick Bates:** I am grateful to the Minister for bringing this Order forward. I am sure that Members welcome this relaxation of controls. This Order will lead, as Gareth said, to us having a better voice on behalf of education professionals. It is important that that voice is not only independent, but innovative. These measures will give the council added strength, so that it feels more able to represent the whole industry. I hope that, one day, further measures will be taken within the industry to ensure that the General Teaching Council is the only voice for all those involved in teaching in Wales.

**Jonathan Morgan:** I find myself in agreement with Mick Bates, which is slightly worrying. However, as my reselection has already taken place, I can afford to be relaxed about such matters. We support the Order brought forward by the Minister. It makes common sense to relax the regulations in relation to the General Teaching Council. We supported the establishment of the council and I am sure that it will go on to perform an enormous amount of work on behalf of the teaching profession in Wales, and provide it with an independent, effective voice.

**The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson):** I am grateful for Members' comments.

**David Davies:** Under Standing Order No. 6.22, I request that the division bell be rung.

**The Presiding Officer:** I do not think so. You may like to try Standing Order No. 6.21.

**David Davies:** Then I call for the bell to be rung under Standing Order No. 6.21.

undertake developmental work for the profession. In future, the council must be a strong, authoritative and independent voice for the profession, and it must be willing to propose options and solutions and to contribute to creating policies that are key to the development of education in Wales. The Order takes us in the right direction and we support it.

**Mike Bates:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am gyflwyno'r Gorchymyn hwn. Yr wyf yn siŵr y bydd yr Aelodau yn croesawu'r ffaith ei fod yn llacio rheolaethau yn y fath fodd. Bydd y Gorchymyn hwn, fel y dywedodd Gareth, yn sicrhau bod gennym lais cryfach ar ran gweithwyr proffesiynol addysg. Mae'n bwysig bod y llais hwnnw nid yn unig yn annibynnol, ond yn flaengar. Bydd y mesurau hyn yn rhoi mwy o gryfder i'r cyngor, er mwyn iddo deimlo ei fod yn gallu cynrychioli'r diwydiant cyfan yn well. Gobeithiaf y cymerir camau eraill, rywdro, o fewn y diwydiant i sicrhau mai'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yw'r unig lais i bawb sy'n ymwneud ag addysgu yng Nghymru.

**Jonathan Morgan:** Yr wyf yn cyd-fynd â Mick Bates, ac mae hynny'n achosi rhywfaint o bryder imi. Fodd bynnag, gan fy mod eisoes wedi fy ailddehol, gallaf ymlacio ynglŷn â'r materion hyn. Cefnogwn y Gorchymyn a gyflwynwyd gan y Gweinidog. Mae'n gwneud synnwyr llacio'r rheoliadau mewn perthynas â'r Cyngor Addysgu Cyffredinol. Yr oeddem o blaid sefydlu'r cyngor ac yr wyf yn siŵr y bydd yn cyflawni llawer iawn ar ran y proffesiwn addysgu yng Nghymru, ac yn rhoi llais annibynnol, effeithiol iddo.

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Yr wyf yn ddiolchgar am sylwadau'r Aelodau.

**David Davies:** O dan Reol Sefydlog Rhif 6.22, gofynnaf i gloch y bleidlais gael ei chanu.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn amau hynny. Efallai yr hoffech ofyn am hynny o dan Reol Sefydlog Rhif 6.21.

**David Davies:** Yna galwaf i gloch y bleidlais gael ei chanu o dan Reol Sefydlog Rhif 6.21.

**Y Llywydd:** A oes tri Aelod yn cefnogi'r cais? Gwelaf fod. Glerc, canwch y gloch, os gwelwch yn dda.

**The Presiding Officer:** Do three Members support the request? I see that they do. Clerk, please ring the bell.

*Cynnig (NDM1226): O blaid 46, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*

*Motion (NDM1226): For 46, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, David  
Davies, Geraint  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
German, Michael  
Graham, William  
Griffiths, John  
Gibbons, Brian  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, David Ian  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Melding, David  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Rogers, Peter  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Williams, Kirsty  
Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion carried.*

*Cynnig (NDM1227): O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*

*Motion (NDM1227): For 48, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, David  
Davies, Geraint  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
German, Michael  
Graham, William  
Griffiths, John  
Gibbons, Brian  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Carwyn  
Jones, David Ian  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Law, Peter  
Melding, David  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Williams, Kirsty  
Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

4:10 p.m.

**Cymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth)  
(Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002  
Approval of Local Authority (Executive Arrangements)  
(Discharge of Functions) (Amendment) (Wales) Regulations 2002**

**The Finance Minister (Edwina Hart): I Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):**  
propose that Cynigiau fod



*the National Assembly considers the principle of the Local Authority (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Amendment) (Wales) Regulations 2002, laid in the Table Office on 29 October 2002. (NDM1228)*

I propose that

*the National Assembly:*

*1. considers the report of the Legislation Committee which does not draw the special attention of the Assembly to any matter under Standing Order No. 11.5, in relation to the draft Order, the Local Authority (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Amendment) (Wales) Regulations 2002, laid in the Table Office on 12 November 2002; and*

*2. approves that the Order is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 29 October 2002. (NDM1229)*

The amendment to the discharge of functions regulations concerns only the 19 local authorities operating executive arrangements. The discharge of functions regulations enable local authority executives to delegate decision-making to area committees, to other local authorities or to joint committees with other local authorities. The current regulations stipulate that if a joint committee is performing executive functions, then committee members must be members of the executives concerned.

In principle, that is fine as it helps to maintain clear responsibility for the decisions made by members of the executive. In practice, it causes considerable difficulties. A large number of joint committees are in operation, often covering functions that, while important, are secondary to the main functions of an authority—such as crematoria and cemeteries, procurement, car parking and archives.

*y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried egwyddor Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2002. (NDM1228)*

Cynigiau fod

*y Cynulliad Cenedlaethol:*

*1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog Rhif 11.5 mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2002.*

*2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2002. (NDM1229)*

Dim ond i'r 19 o awdurdodau lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth y mae'r diwygiad i'r rheoliadau ar gyflawni swyddogaethau yn berthnasol. Mae'r rheoliadau ar gyflawni swyddogaethau yn galluogi gweithrediaeth awdurdod lleol i ddirprwyo gwneud penderfyniadau i bwyllgorau ardal, i awdurdodau lleol eraill neu i gyd-bwyllgorau ag awdurdodau lleol eraill. Mae'r rheoliadau cyfredol yn mynnu bod yn rhaid i aelodau pwyllgor lle mae cyd-bwyllgor yn cyflawni swyddogaethau gweithredol, fod yn aelodau o'r weithrediaeth dan sylw.

Mewn egwyddor, mae hynny yn iawn gan ei bod yn fodd i gadw cyfrifoldeb eglur dros y penderfyniadau a wneir gan aelodau o'r weithrediaeth. Yn ymarferol, mae'n achosi cryn anhawster. Mae nifer fawr o gydbwyllgorau ar waith, yn aml yn cwmpasu swyddogaethau, sydd, er yn bwysig, yn eilradd i brif swyddogaethau awdurdod—megis amlogfeydd a mynwentydd, caffael, meysydd parcio ac archifau.

Expecting members of the executive to attend all joint committee meetings is impractical and, since the regulations have been in force, it has led to significant disruption. It has also necessitated the removal from joint committees of councillors who are not members of the executive but who have acquired valuable expertise in particular fields, sometimes over many years.

The amendment proposes that local authority executives be allowed to nominate non-executive councillors or officers to serve on joint committees. However, I make it clear that such nominees would represent the executive and would make decisions on its behalf. The executive, not the authority, would be able to recall or remove them if it saw fit. I ask the Assembly to support the amendment regulations.

**Janet Ryder:** My colleague Pauline Jarman raised this issue in Committee in connection with a joint management committee for Llwydcoed crematorium, which was causing problems because the committee was restricted to members of the executive. This change to the regulations would allow non-executive members to sit on joint committees and would make it much easier for councils to have representation. We thank you, Minister, for listening to the representations that were made to you on this matter.

**Eleanor Burnham:** The Welsh Liberal Democrats believe that this change is necessary because of the cabinet system, which has shut out many ordinary councillors from crucial decision-making processes in local government. Ideally, we should move back to a much more democratic form of local government.

**William Graham:** This proposed amendment demonstrates a further erosion of democracy. The practice of appointing officers instead of elected members cannot reflect the practices of a truly representative, properly-elected council. It further disfranchises elected members. Members will recall that we have voted for high salaries for executive members of council cabinets, who should be able to carry out their functions

Mae disgwyl i aelodau'r weithrediaeth fynychu pob cyfarfod cydbwyllgor yn anymarferol ac, ers i'r rheoliadau fod mewn grym, cafwyd cryn aflonyddwch. Bu raid hefyd dynnu oddi ar gydbwyllgorau gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r weithrediaeth ond sydd wedi datblygu arbenigedd gwerthfawr mewn meysydd penodol, weithiau dros flynyddoedd maith.

Cynigia'r gorchymyn diwygio y dylid caniatáu i weithrediaeth awdurdod lleol enwebu cynghorwyr neu swyddogion anweithredol i wasanaethau ar gydbwyllgorau. Fodd bynnag, nodaf yn eglur y byddai'r rhai a enwebir felly yn cynrychioli'r weithrediaeth ac yn gwneud penderfyniadau ar ei rhan. Byddai'r weithrediaeth, nid yr awdurdod, yn gallu eu galw yn ôl neu eu tynnu oddi ar y pwyllgor os gwêl yn dda. Gofynnaf i'r Cynulliad gefnogi'r rheoliadau diwygio.

**Janet Ryder:** Cododd fy nghyd-Aelod Pauline Jarman y mater hwn yn y Pwyllgor mewn cysylltiad â chydbwyllgor rheoli amlogfa Llwydcoed, a oedd yn achosi problemau am fod y pwyllgor wedi'i gyfyngu i aelodau'r weithrediaeth. Byddai newid y rheoliadau yn y fath fodd yn caniatáu i aelodau anweithredol fod yn aelodau o gydbwyllgorau ac yn ei gwneud yn llawer haws i gynghorau gael cynrychiolaeth. Diolchwn ichi, Weinidog, am wrando ar y sylwadau a wnaed ichi ar y mater hwn.

**Eleanor Burnham:** Cred Democratiaid Rhyddfrydol Cymru fod angen y newid hwn oherwydd y system gabinet, sydd wedi eithrio llawer o gynghorwyr cyffredin o wneud penderfyniad hollbwysig mewn llywodraeth leol. Yn ddelfrydol, dylem ddychwelyd at fath llawer mwy democrataidd o lywodraeth leol.

**William Graham:** Mae'r diwygiad arfaethedig hwn yn ergyd arall i ddemocratiaeth. Ni all yr arfer o benodi swyddogion yn lle aelodau etholedig adlewyrchu arferion cyngor wedi'i ethol yn briodol sy'n llwyr gynrychioliadol. Mae'n dadfreinio aelodau etholedig ymhellach. Bydd Aelodau yn cofio inni bleidleisio o blaid cyflogau uchel i aelodau gweithredol o gabinetau cynghorau, a ddylai fod yn gallu

without having to delegate them further to officers. We do not support the motion and ask for the bell to be rung.

**The Presiding Officer:** Order. It is not time to ring the bell yet. The Minister must reply to the debate.

**The Finance Minister (Edwina Hart):** The purpose of the amendment to these regulations is to ensure the smooth running of certain activities in local government across the wide range of areas where there is co-operation between authorities, such as procurement and crematoria. If such functions cannot be applied properly for the benefit of the public, consideration must be given to the regulations in force. These regulations assist with the position. I have received numerous representations from local government on this matter.

**The Presiding Officer:** A request has been made for the bell to be rung. Under Standing Order No. 6.21, at least three Members must request that the bell be rung. Do three Members support the request? I see that they do.

Glerc, caner y gloch.

cyflawni eu swyddogaethau heb orfod eu dirprwyo ymhellach i swyddogion. Ni chefnogwn y cynnig a gofynnwn i'r gloch gael ei chanu.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid yw'n amser i ganu'r gloch eto. Rhaid i'r Gweinidog ateb y ddadl.

**Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):** Diben diwygio'r rheoliadau hyn yw sicrhau bod gweithgareddau penodol mewn llywodraeth leol ar draws ystod eang o feysydd lle mae awdurdodau yn cydweithredu, megis caffael ac amlosgfeydd, yn mynd rhagddynt yn ddidrafferth. Os na ellir cyflawni swyddogaethau o'r fath yn briodol er budd y cyhoedd, rhaid ystyried y rheoliadau sydd mewn grym. Bydd y rheoliadau hyn o fudd yn y sefyllfa hon. Cefais nifer helaeth o sylwadau gan lywodraeth leol ar y mater hwn.

**Y Llywydd:** Gofynnwyd i'r gloch gael ei chanu. O dan Reol Sefydlog Rhif 6.21, rhaid i o leiaf dri Aelod ofyn i'r gloch gael ei chanu. A oes tri Aelod yn cefnogi'r cais? Gwelaf fod.

Clerk, please ring the bell.

*Cynnig (NDM1228): O blaid 40, Ymatal 0, Yn erbyn 8.  
Motion (NDM1228): For 40, Abstain 0, Against 8.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Geraint  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
Gibbons, Brian  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Bourne, Nick  
Cairns, Alun  
Davies, David  
Graham, William  
Jones, David Ian  
Melding, David  
Morgan, Jonathan  
Rogers, Peter

Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Law, Peter  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Middlehurst, Tom  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Kirsty  
 Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion carried.*

*Cynnig (NDM1229): O blaid 39, Ymatal 0, Yn erbyn 8.*

*Motion (NDM1229): For 39, Abstain 0, Against 8.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid: Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted for: The following Members voted against:

Barrett, Lorraine  
 Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Burnham, Eleanor  
 Butler, Rosemary  
 Chapman, Christine  
 Dafis, Cynog  
 Davidson, Jane  
 Davies, Andrew  
 Davies, Geraint  
 Davies, Ron  
 Edwards, Richard  
 Essex, Sue  
 Evans, Delyth  
 Gibbons, Brian  
 Griffiths, John  
 Gwyther, Christine  
 Halford, Alison  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Jarman, Pauline  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Gareth  
 Law, Peter  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Middlehurst, Tom  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn

Bourne, Nick  
 Cairns, Alun  
 Davies, David  
 Graham, William  
 Jones, David Ian  
 Melding, David  
 Morgan, Jonathan  
 Rogers, Peter

Williams, Kirsty  
Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

### **Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Composite Motion: Approval of Orders**

**The Presiding Officer:** Under Standing Order No. 22.25, this motion is not subject to debate. **Y Llywydd:** O dan Reol Sefydlog Rhif 22.25, ni cheir trafodaeth ar y cynnig hwn.

**The Business Minister (Carwyn Jones):** I propose that **Y Trefnydd (Carwyn Jones):** Cynigiaf fod

*the National Assembly, acting under Standing Order No. 22.25,* *y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 22.25,*

1. *approves the Children's Act 1989 and the Care Standards Act 2000 (Miscellaneous Regulations) (Amendment) (Wales) (No 2) Regulations 2002, laid in the Table Office on 29 October 2002;* 1. *yn cymeradwyo Rheoliadau Deddf Plant 1989 a Deddf Safonau Gofal 2000 (Rheoliadau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2002.*

2. *considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Children's Act 1989 and the Care Standards Act 2000 (Miscellaneous Regulations) (Amendment) (Wales) (No 2) Regulations 2002, laid in the Table Office on 12 November 2002;* 2. *yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft Rheoliadau Deddf Plant 1989 a Deddf Safonau Gofal 2000 (Rheoliadau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2002;*

3. *approves the Education (Teachers' Qualifications and Health Standards) (Wales) (Amendment) Regulations 2002, laid in the Table Office on 29 October 2002;* 3. *yn cymeradwyo Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) (Diwygio) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2002.*

4. *considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Education (Teachers' Qualifications and Health Standards) (Wales) (Amendment) Regulations 2002, laid in the Table Office on 12 November 2002;* 4. *yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) (Diwygio) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2002;*

5. *approves the Quality Partnership Schemes (Existing Facilities) (Wales) Regulations 2002, laid in the Table Office on 5 November 2002;* 5. *yn cymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Partneriaethau Ansawdd (Cyfleusterau sy'n Bodoli Eisioes) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Tachwedd 2002.*

6. *considers:* 6. *yn ystyried:*

a) *the report of the Legislation Committee* a) *adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw*

- which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Quality Partnership Schemes (Existing Facilities) (Wales) Regulations 2002, laid in the Table Office on 19 November 2002;*
- wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft Rheoliadau Cynlluniau Partneriaethau Ansawdd (Cyfleusterau sy'n Bodoli Eisioes) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Tachwedd 2002*
- b) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 5 November 2002;*
- b) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Tachwedd 2002.*
- 7. approves the Travel Concessions (Eligibility) Act 2002 (Commencement) (Wales) Order 2002, laid in the Table Office on 5 November 2002;*
- 7. yn cymeradwyo gorchymyn Deddf Consesiynau Teithio (yr Hawl i'w Cael) 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Tachwedd 2002.*
- 8. considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Travel Concessions (Eligibility) Act 2002 (Commencement) (Wales) Order 2002, laid in the Table Office on 19 November 2002;*
- 8. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft Gorchymyn Deddf Consesiynau Teithio (yr Hawl i'w Cael) 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Tachwedd 2002;*
- 9. approves the Food for Particular Nutritional Uses (Addition of Substances for Specific Nutritional Purposes) (Wales) Regulations 2002, laid in the Table Office on 5 November 2002; and*
- 9. yn cymeradwyo Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Tachwedd 2002.*
- 10. considers:*
- 10. yn ystyried:*
- a) the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Food for Particular Nutritional Uses (Addition of Substances for Specific Nutritional Purposes) (Wales) Regulations 2002, laid in the Table Office on 19 November 2002;*
- a) adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Tachwedd 2002;*
- b) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 5 November 2002;*
- b) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Tachwedd 2002;*
- c) the memorandum of corrections laid in the Table Office on 19 November 2002. (NDM1230)*
- c) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Tachwedd 2002. (NDM1230)*

**Alun Cairns:** May I ask that the division bell be rung?

**Alun Cairns:** A gaf ofyn i gloch y bleidlais gael ei chanu?

**The Presiding Officer:** No you may not. Standing Order No. 6.21 is perfectly clear:

**Y Llywydd:** Na chewch. Mae Rheol Sefydlog Rhif 6.21 yn berffaith glir.

'If votes are to be taken immediately after one another, the bell need not be rung more than once.'

'Os bydd pleidleisiau yn cael eu cynnal un yn syth ar ôl y llall, ni fydd rhaid canu'r gloch fwy nag unwaith.'

4:20 p.m.

*Cynnig (NDM1230): O blaid 42, Ymatal 0, Yn erbyn 7.**Motion (NDM1230): For 42, Abstain 0, Against 7.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid: Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted for: The following Members voted against:

Barrett, Lorraine  
 Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Burnham, Eleanor  
 Butler, Rosemary  
 Chapman, Christine  
 Dafis, Cynog  
 Davidson, Jane  
 Davies, Andrew  
 Davies, Geraint  
 Davies, Ron  
 Edwards, Richard  
 Essex, Sue  
 Evans, Delyth  
 German, Michael  
 Gibbons, Brian  
 Griffiths, John  
 Gwyther, Christine  
 Halford, Alison  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Jarman, Pauline  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, David Ian  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Law, Peter  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Middlehurst, Tom  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Kirsty  
 Williams, Phil

Bourne, Nick  
 Cairns, Alun  
 Davies, David  
 Graham, William  
 Melding, David  
 Morgan, Jonathan  
 Rogers, Peter

*Derbyniwyd y cynnig.**Motion carried.*

### **Pwynt o Drefn Point of Order**

**Lorraine Barrett:** Point of order. I just saw Alun Cairns press Peter Rogers's voting button because Peter forgot to vote.

**Lorraine Barrett:** Pwynt o drefn. Yr wyf newydd weld Alun Cairns yn gwasgu botwm pleidleisio Peter Rogers am fod Peter wedi anghofio pleidleisio.

**The Presiding Officer:** I am pleased to say that I cannot see any sins of that kind from my seat.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn falch o ddweud na allaf weld camwedd o'r fath o'm sedd i.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 4.21 p.m.  
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 4.21 p.m.*

### **Adolygiad Pum Mlynedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru The National Library of Wales Quinquennial Review**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jocelyn Davies and amendments 2 and 3 in the name of Jonathan Morgan.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies a gwelliannau 2 a 3 yn enw Jonathan Morgan.

**The Minister for Culture, Sport and the Welsh Language (Jenny Randerson):** I propose that

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Cynigiau fod

*the National Assembly welcomes the quinquennial review of the National Library of Wales and the Welsh Assembly Government's response to the review's recommendations. (NDM1231)*

*y Cynulliad Cenedlaethol yn croesawu adolygiad pum mlynedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i argymhellion yr adolygiad. (NDM1231)*

I am pleased to present the quinquennial review of the National Library of Wales and the Cabinet's response to it. The review was undertaken in two stages by GCL Management Consultants; I thank the company for its thoroughness and hard work. I also thank the library's president, members of the library's court and council, the librarian and his staff and all who have contributed to, and commented on, the report.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adolygiad pum mlynedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ymateb y Cabinet iddo. Cynhaliwyd yr adolygiad ar ddau gam gan GCL Management Consultants; hoffwn ddiolch i'r cwmni am ei drylwyredd a'i waith caled. Hoffwn ddiolch hefyd i lywydd y llyfrgell, llys a chyngor y llyfrgell, y llyfrgellydd a'i staff a phawb a gyfrannodd at yr adroddiad ac a wnaeth sylwadau arno.

In particular, I thank the Culture Committee—[*Interruption.*]

Yn arbennig, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Diwylliant—[*Torri ar draws.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Will Members please leave the Chamber quietly? Do not hold conversations while you are standing.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A wnaiff Aelodau adael y Siambr yn dawel os gwelwch yn dda? Peidiwch â chynnal sgwrs tra'n sefyll.

**Jenny Randerson:** I thank the Culture Committee, which considered the review's findings and its recommendations at the end of each stage. As the motion indicates, the review's recommendations are available on the intranet, and the Welsh Assembly Government's response to each was e-mailed to Members last Tuesday. The review's main messages are positive and I am happy to endorse them. However, we must look

**Jenny Randerson:** Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Diwylliant, a ystyriodd ganfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad ar ddiwedd pob cam. Fel y nodar cynnig, mae argymhellion yr adolygiad ar gael ar y fewnwyd, ac anfonwyd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i bob un ohonynt drwy e-bost at yr Aelodau ddydd Mawrth diwethaf. Mae prif negeseuon yr adolygiad yn gadarnhaol ac yr wyf yn barod i'w cefnogi.



forward, and in that spirit there remains scope for improvement. The reviewers have made a total of 70 recommendations—I said that they had been thorough. You will be relieved to hear that I do not intend to comment on all of them now.

I will concentrate on the recommendations that are key to ensuring that the library operates effectively and makes the best use of available resources. Many of these recommendations have already been recognised by the library and work is underway to implement them. We are nearing the final stages of agreeing an action plan with the library, which will be published early next year. We will monitor its implementation carefully.

I will now outline the most important recommendations. As with the review of the National Museums and Galleries of Wales, one of the key recommendations of this report relates to the need to review the system of governance. I endorse the recommendation that the library should consider ways to abolish the court and to replace the current council set-up with a board of trustees. The library has set up a working party to bring forward proposals on that. I will take a close interest in this work and one of my senior officials will sit as an observer on the working party. I look forward to seeing proposals next spring, and to changes being made as soon as possible thereafter.

The report also highlights the continuing need for the library to improve its efficiency, with which I agree. All public bodies have a duty to ensure that they work in the most effective and efficient way and make the best use of public funds. There can be no room to relax in the pursuit of increased efficiencies and better ways of working. Therefore, I am pleased to report that the library is extending and strengthening its existing Best Value steering group in order to produce a more comprehensive and robust efficiency review programme, which will be used to scrutinise all the library's operations and activities.

Hand in glove with the library's need to ensure that it is continuously making the best

Fodd bynnag, rhaid inni edrych i'r dyfodol, ac yn yr ysbryd hwnnw mae lle i wella o hyd. Gwnaeth yr adolygwyr 70 o argymhellion i gyd—dywedais iddynt fod yn drylwyr. Bydd yn dda gennych glywed nad wyf yn bwriadu gwneud sylwadau ar bob un ohonynt yn awr.

Canolbwyntiaf ar yr argymhellion sy'n allweddol i sicrhau bod y llyfrgell yn gweithredu'n effeithiol ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Cydnabuwyd llawer o'r argymhellion hyn eisoes gan y llyfrgell ac mae gwaith yn mynd rhagddo i'w rhoi ar waith. Yr ydym ar fin cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r llyfrgell, a gyhoeddir y flwyddyn nesaf. Byddwn yn monitro'r ffordd y caiff ei weithredu'n ofalus.

Trafodaf yn awr yr argymhellion pwysicaf. Fel yn achos yr adolygiad o Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, un o argymhellion allweddol yr adroddiad hwn yw'r angen i adolygu rheolaeth. Cefnogaf yr argymhelliad y dylai'r llyfrgell ystyried ffyrdd o ddiddymu'r llys a chyflwyno bwrdd o ymddiriedolwyr yn lle trefniadau'r cyngor presennol. Mae'r llyfrgell wedi sefydlu gweithgor i ddatblygu cynigion ar hynny. Byddaf yn cadw golwg fanwl ar y gwaith hwn a bydd un o'm huwch swyddogion yn arsylwi ar drafodion y gweithgor. Edrychaf ymlaen at weld cynigion y gwanwyn nesaf, ac i weld newidiadau'n cael eu gwneud mor fuan â phosibl ar ôl hynny.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r angen parhaus i'r llyfrgell fod yn fwy effeithlon, a chytunaf â hynny. Mae dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i sicrhau ei fod yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon ac yn gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus. Nid oes lle i ymlacio wrth geisio bod yn fwy effeithlon a dod o hyd i ffyrdd gwell o weithio. Felly, yr wyf yn falch o nodi bod y llyfrgell yn ehangu ac yn cryfhau ei grŵp llywio Gwerth Gorau presennol er mwyn llunio rhaglen adolygu effeithlonrwydd fwy cynhwysfawr a chadarn a gaiff ei defnyddio i graffu ar holl weithrediadau a gweithgareddau'r llyfrgell.

Law yn llaw â'r angen i'r llyfrgell sicrhau ei bod yn parhau i wneud y defnydd gorau o

use of resources is the need for it to maximise income generation and fund-raising. To this purpose, the library will review the breadth of its existing and potential income-raising activities and develop a more proactive and imaginative fund-raising strategy. The library is a well-known, well-used and well-loved cultural institution in Wales, but it must continue to strive to raise its profile, to broaden its appeal to wider communities and to increase access to its collections to all sectors of society. It has already taken an important step in that respect by developing a new visitor centre. The centre is due to open fully in 2004 and will be free to everybody. It will allow the public to see the library's wealth of treasures in a purpose-built setting. It will also increase remote access to its collections through its digitisation programme and is well-placed to maximise its exposure through ICT cultural initiatives, such as Gathering the Jewels and Culturenet Cymru. It is vital that all developments aimed at increasing access and raising its profile are marketed effectively on a variety of different levels. I am pleased that the library now has a dedicated marketing and education officer and I will take a close interest in these arrangements.

Finally, the library needs to strengthen and build on its existing constructive relationship with the National Museums and Galleries of Wales in order to capitalise on the potential of joint outreach programmes to display collections. Both institutions are already considering this issue and I expect it to result in a clear, working framework.

I will now address the three amendments. I cannot support Jocelyn Davies's amendment, as what it proposes would be inappropriate and unnecessary. It would not be appropriate to make special funding available to provide Welsh-language training for non-Welsh-speaking staff. On a day when we have discussed mainstreaming the language, the provision of such training should be seen as a core cost, not as the optional extra that this amendment implies. This activity is an

adnoddau yw'r angen iddo sicrhau'r incwm mwyaf posibl a chodi cymaint o arian â phosibl. I'r perwyl hwn, bydd y llyfrgell yn adolygu ystod ei weithgareddau presennol a phosibl ar gyfer cynhyrchu incwm a datblygu strategaeth codi arian fwy rhagweithiol a dychmygus. Mae'r llyfrgell yn adnabyddus, caiff ei defnyddio'n helaeth ac mae'n sefydliad diwylliannol sy'n agos at galonnau llawer o bobl yng Nghymru, ond rhaid iddi ymdrechu i godi ei phroffil, ymestyn ei hapêl i gymunedau ehangach a'i gwneud yn haws i bob sector o gymdeithas weld ei chasgliadau. Mae eisoes wedi cymryd cam pwysig yn hynny o beth drwy ddatblygu canolfan newydd i ymwelwyr. Bwriedir agor y ganolfan yn llawn yn 2004 a bydd yn rhad ac am ddim i bawb. Bydd yn caniatáu i'r cyhoedd weld cyfoeth trysorau'r llyfrgell mewn lleoliad sydd wedi'i adeiladu at y pwrpas. Bydd hefyd yn ei gwneud yn haws i weld ei chasgliadau o bell drwy ei rhaglen ddigidoli ac mae mewn sefyllfa dda i fanteisio i'r eithaf ar fentrau TGCh diwylliannol megis Casglu'r Tlysau a Culturenet Cymru. Mae'n hollbwysig y caiff pob datblygiad sydd wedi'i anelu at ei gwneud yn haws i ddefnyddio'r llyfrgell a chodi ei phroffil ei farchnata'n effeithiol ar amryw o lefelau gwahanol. Mae'n dda gennyf nodi bod gan y llyfrgell swyddog marchnata ac addysg erbyn hyn a byddaf yn cadw golwg fanwl ar y trefniadau hyn.

Yn olaf, mae angen i'r llyfrgell atgyfnerthu ac adeiladu ar ei pherthynas adeiladol bresennol ag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru er mwyn manteisio ar y posibilïadau o raglenni allgyrch ar y cyd i arddangos casgliadau. Mae'r ddau sefydliad eisoes yn ystyried y mater hwn a disgwyliaf i hynny arwain at fframwaith gweithredu eglur.

Ymdriniaf yn awr â'r tri gwelliant. Ni allaf gefnogi gwelliant Jocelyn Davies, gan nad yw'r hyn a gynigia yn briodol nac yn angenrheidiol. Ni fyddai'n briodol rhoi arian arbennig i roi hyfforddiant Cymraeg i aelodau o staff nad ydynt yn siarad Cymraeg. A ninnau heddiw wedi trafod prif ffrydio'r iaith, dylid ystyried darpariaeth hyfforddiant o'r fath yn gost graidd, nid yn rhywbeth ychwanegol sef yr hyn a awgryma'r gwelliant. Mae'r gweithgaredd hwn yn fater

operational matter for the library, as it would be for all other Assembly sponsored public bodies, and the library should plan for such training costs from within its core budget. This matter was raised in the Culture Committee when it discussed the draft report. The Committee appreciated the principle involved. The library also agrees that funding for Welsh-language training is an operational cost. It encourages new non-Welsh-speaking members of staff to follow a language course, pays for their tuition fees and allows them time off work to attend classes. In future, the library will ensure that it makes this clear when advertising for new staff.

gweithredol i'r llyfrgell fel y byddai i bob corff cyhoeddus arall a noddir gan y Cynulliad, a dylai'r llyfrgell gynllunio ar gyfer y costau hyfforddi hyn o fewn ei chyllideb graidd. Codwyd y mater hwn yn y Pwyllgor Diwylliant pan drafododd yr adroddiad drafft. Gwerthfawrogodd y Pwyllgor yr egwyddor hon. Mae'r llyfrgell hefyd yn cytuno bod arian ar gyfer hyfforddiant Cymraeg yn gost weithredol. Mae'n annog aelodau newydd o staff nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddilyn cwrs iaith, mae'n talu am eu ffioedd dysgu ac yn caniatáu iddynt gael amser i ffwrdd o'r gwaith i fynychu dosbarthiadau. Yn y dyfodol, bydd y llyfrgell yn sicrhau ei bod yn egluro hyn pan fydd yn hysbysebu am aelodau newydd o staff.

4:30 p.m.

I cannot support Jonathan's first amendment either, as it is superfluous. The review has included such a recommendation in its report, and I have accepted that recommendation. I accept that the national library is the only existing institution that could take on the role of a public records office, but at this stage it would be wrong to rule out other options that might emerge following the detailed consultation and consideration that is needed. However, I have accepted the need to consider that issue, as it was one of the review's recommendations.

Ni allaf gefnogi gwelliant cyntaf Jonathan ychwaith, gan nad oes ei angen. Mae'r adolygiad wedi cynnwys yr argymhelliad hwn yn ei adroddiad, a derbyniais yr argymhelliad hwnnw. Derbyniaf mai'r llyfrgell genedlaethol yw'r unig sefydliad presennol a allai ymgymryd â rôl swyddfa gofnodion gyhoeddus, ond ar hyn o bryd ni fyddai'n briodol anwybyddu opsiynau eraill a allai ddod i'r amlwg yn dilyn yr ymgynghoriad a'r ystyriaeth fanwl sydd eu hangen. Fodd bynnag, derbyniais fod angen ystyried y mater hwnnw, gan ei fod yn un o argymhellion yr adolygiad.

I am happy to support Jonathan's second amendment. The review highlights the need for the library to continue to raise its profile, and this amendment welcomes progress made so far. I am keen that the library should continue to build on this.

Yr wyf yn barod i gefnogi ail welliant Jonathan. Mae'r adolygiad yn nodi'r angen i'r llyfrgell barhau i godi ei phroffil ac mae'r gwelliant hwn yn croesawu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Yr wyf yn awyddus i'r llyfrgell barhau i adeiladu ar hyn.

To conclude, the library has received this report positively, and is already working hard to address its recommendations. I commend the review, and the Cabinet's response, to the Assembly.

I gloi, cafodd y llyfrgell yr adroddiad yn un cadarnhaol, ac mae eisoes yn gweithio'n ddygn i fynd i'r afael â'i argymhellion. Cymeradwyaf yr adolygiad, ac ymateb y Cabinet, i'r Cynulliad.

**Owen John Thomas:** Cynigaf welliant 1 yn enw Jocelyn Davies. Gosod 'ar y cyfan' ar ôl 'yn croesawu' ar ddechrau'r cynnig a gosod ar ddiwedd y cynnig:

**Owen John Thomas:** I propose amendment 1 in the name of Jocelyn Davies. Insert 'broadly' before 'welcomes' at beginning of motion, and insert at end of motion:

*ond yn pwysleisio y dylai'r Cabinet dderbyn*

*but asserts that the Cabinet should accept*

*bod angen darparu cyllid ychwanegol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru er mwyn darparu mwy o hyfforddiant Cymraeg i staff newydd.*

*that additional funding should be extended to the National Library of Wales for the increased provision of Welsh-language training for new staff.*

Croesawaf yr adroddiad hwn. Yr wyf yn falch o weld bod y llyfrgell wedi gwella ei hygyrchedd i'r cyhoedd, a'i bod yn gweithio i'w wella ymhellach. Fodd bynnag, sut mae'r llyfrgell yn ei hyrwyddo ei hun a'i chasgliadau ym myd addysg? A yw'n cydweithio â Chyd-bwyllgor Addysg Cymru, er enghraifft, a chyda sectorau addysg bellach ac addysg uwch i sicrhau y gall y llyfrgell roi mwy o wybodaeth i gyrrff addysgol?

I welcome this report. I am pleased to see that the library has improved accessibility to the public, and that it is working to improve it further. However, how does the library promote itself and its collections to the education sector? Does it collaborate with the Welsh Joint Education Committee, for example, and with the further and higher education sectors to ensure that the library can offer more information to education organisations?

Ar gludiant, bydd yn ddiddorol gweld a fydd Jenny'n cysylltu â Sue Essex ac Andrew Davies i weld a oes modd ei gwneud yn haws i bobl gyrraedd Aberystwyth. Cofiaf ddarllen yn rhywle, tua blwyddyn yn ôl, mai'r ffordd o Llangurig i Aberystwyth yw un o'r ffordd gwaethaf ym Mhrydain. Buaswn yn cytuno â hynny. Mae'n ffordd ofnadwy, yn enwedig yn y gaeaf, mewn gwynt a glaw, ac yn y tywyllwch. Mae'n 25 milltir o hyd, ond mae'n teimlo'n debycach i 125 milltir. Felly, mynnwch air â Sue Essex, Jenny.

On transport, it will be interesting to see whether Jenny will contact Sue Essex and Andrew Davies to see whether it is possible to make it easier for people to reach Aberystwyth. I remember reading somewhere, about a year ago, that the road from Llangurig to Aberystwyth is one of the worst roads in Britain. I would agree with that. It is a terrible road, especially in winter, in the wind and rain, and in the dark. It is 25 miles long, but it feels more like 125 miles. So, have a word with Sue Essex, Jenny.

Ar hyfforddiant Cymraeg i staff newydd, nid ydym yn awgrumu bod hyn yn ychwanegol o gwbl. Mae'n ychwanegol yn yr ystyr na chaiff ei wneud ar hyn o bryd, ac felly mae angen arian ychwanegol, ond dylai elfen o'r fath fod yng nghyllideb pob sefydliad cenedlaethol yng Nghymru. Felly, anogaf yr Aelodau i gefnogi'n gwelliant.

On Welsh language training for new staff, we are not suggesting that it should be additional at all. It is additional in that it is not done at present, as additional funding is therefore needed, but such an element should be in the budgets of all national institutions in Wales. Therefore, I urge Members to support our amendment.

Ar welliant 2 Jonathan Morgan, mae'r cynnig i wneud Aberystwyth yn ganolfan ar gyfer swyddfa gofnodion genedlaethol i Gymru braidd yn fyrbwyll. Dylem ystyried hyn yn fanylach. Yr wyf wedi clywed awgrym gan rai y dylid lleoli'r swyddfa yn y Cymoedd. Nid wyf am ddatgan o blaid y naill na'r llall, ond dylem ymatal ein pleidlais fel y gallwn drafod hyn, yn y Pwyllgor Diwylliant efallai, yn fanylach.

On Jonathan Morgan's amendment 2, the proposal to make Aberystwyth a centre for a national records office for Wales is rather rash. We should consider this in more detail. I have heard a suggestion from some corners that the office should be located in the Valleys. I will not come down in favour of one or the other, but we should abstain in the vote so that we can discuss it, perhaps in the Culture Committee, in more detail.

Mae gwelliant 3 Jonathan yn ychwanegiad y byddai pawb yn derbyn ei fod yn rhan o'r adolygiad ar hyn o bryd. Nid oes angen ei ychwanegu, ac mae'n ddibwrpas. Felly byddwn yn ymatal ar y ddau welliant hyn.

Jonathan's amendment 3 is an addition that everyone would accept is part of the review at present. There is no need to add it, and it is superfluous. Therefore, we will abstain on these two amendments.

**Nick Bourne:** I propose the following amendments in the name of Jonathan Morgan. Amendment 2: add a new point:

*considers the establishment of a national records office for Wales within the National Library of Wales.*

I propose amendment 3. Add a new point:

*welcomes the initiatives by the National Library of Wales to attract new users through high profile events and exhibitions.*

I welcome the Minister's speech on the quinquennial review of the National Library of Wales. The library provides not just a wonderful place to conduct research but is the perfect place for visitors to start learning about the rich and long history of Wales. While the quinquennial review highlights matters that the library can significantly improve upon, it is clear that the library's staff offer an excellent service to the people of Wales, and we should put on record our thanks to them for that. The Welsh Conservative group and I look forward to the publication of the Assembly Government's action plan to implement the recommendations made in the review.

Several issues require further consideration. Owen John Thomas mentioned the isolation of Aberystwyth. I agree that road and rail links to Aberystwyth need attention. The report highlights that fact. Improvements are needed at a time when the Government has committed £20 million to the monorail in Cardiff bay. I am not sure whether or not Owen John Thomas approves of that—

**Owen John Thomas:** I do not.

**Nick Bourne:** He does not. Regardless of that, we need to concentrate on the problems of mid and north Wales with regard to transport links. Isolation also relates to the development of broadband networks. Perhaps the Minister will pick up on that point in her reply. Further development of those networks is needed and is imperative to the success of

**Nick Bourne:** Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Jonathan Morgan. Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd:

*yn ystyried sefydlu swyddfa gofnodion genedlaethol i Gymru yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.*

Cynigiau welliant 3. Ychwanegu pwynt newydd:

*yn croesawu ymgais Llyfrgell Genedlaethol Cymru i ddenu defnyddwyr newydd drwy gynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd sy'n ennyn llawer o sylw.*

Croesawaf araith y Gweinidog ar adolygiad pum mlynedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r llyfrgell nid yn unig yn lle gwyb i wneud ymchwil ond yn lle perffaith i ymwelwyr ddechrau dysgu am hanes hir a chyfoethog Cymru. Er bod yr adolygiad pum mlynedd yn nodi materion y gall y llyfrgell wella arnynt yn sylweddol, mae'n amlwg bod staff y llyfrgell yn cynnig gwasanaeth ardderchog i bobl Cymru, a dylem gofnodi ein diolch iddynt am hynny. Mae grŵp Ceidwadwyr Cymru a minnau yn edrych ymlaen at gyhoeddiad cynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad i weithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad.

Mae angen ystyried sawl mater ymhellach. Cyfeiriodd Owen John Thomas at natur ynysig Aberystwyth. Cytunaf fod angen rhoi sylw i'r cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd i Aberystwyth. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith honno. Mae angen gwelliannau ar adeg pan neilltuodd y Llywodraeth £20 miliwn i drên un gledren ym mae Caerdydd. Nid wyf yn siŵr a yw Owen John Thomas yn cymeradwyo hynny—

**Owen John Thomas:** Nac ydywfw.

**Nick Bourne:** Ni wna. Beth bynnag am hynny, mae angen inni ganolbwyntio ar broblemau'r Canolbarth a'r Gogledd o ran cysylltiadau trafniadaeth. Mae ynysiad hefyd yn ymwneud â datblygu rhwydweithiau band eang. Efallai y bydd y Gweinidog yn ymdrin â'r pwynt hwnnw yn ei hateb. Mae angen datblygu'r rhwydweithiau hynny ymhellach

much of the national library's work.

The quinquennial review recommends that the library consider ways of making more of the art collection accessible to the general public. The Minister will know that we have long argued for such access, not just through the establishment of a national art gallery but through increased access throughout Wales. Once again, the Welsh Conservatives welcome that recommendation and hope that the Minister will take forward our suggestions.

It seems that Plaid Cymru Members are looking for ways of not supporting sensible amendments, but that is for them to explain. Considering the establishment of a national records office for Wales within the national library is not the same as making a commitment to having a national records office there—we are simply saying that it should be considered. Our party believes that it is important that the Assembly Government consider the establishment of a national records office for Wales. The Government of Wales Act 1998 enables the Assembly to make suitable arrangements for the storage of, and public access to, Welsh public records. It is not fitting that Welsh records continue to be held at the Public Record Office in London. Establishing a national records office for Wales would mean that Welsh records could be transferred from the Public Record Office in Kew to Wales, and the national records office for Wales would then receive and hold Welsh records in the future. That is a sensible suggestion. We ask only for it to be considered so that the feasibility of a national records office for Wales can be investigated. Opinion seems to be divided on whether you should accept it or not, and there seems to be some talk of that.

Establishing a Welsh records office is important to our commitment to the preservation and development of Welsh culture and heritage. Crucially, it would provide those involved in professional research, as well as individuals and community groups, with access to those

ac mae'n hanfodol i lwyddiant llawer o waith y llyfrgell genedlaethol.

Mae'r adolygiad pum mlynedd yn argymhell y dylai'r llyfrgell ystyried ffyrdd o sicrhau bod modd i'r cyhoedd weld mwy o'r casgliad celf. Gŵyr y Gweinidog ein bod wedi dadlau dros hynny ers amser, nid yn unig drwy sefydlu oriel gelf genedlaethol ond drwy roi mwy o gyfle i weld casgliadau ledled Cymru. Unwaith eto, mae Ceidwadwyr Cymru yn croesawu'r argymhelliad hwnnw ac yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn gweithredu ar ein hawgrymiadau.

Ymddengys fod Aelodau Plaid Cymru yn edrych am ffyrdd o beidio â chefnogi gwelliannau synhwyrol, ond mater iddynt hwy yw hynny. Nid yw ystyried sefydlu swyddfa gofnodion genedlaethol i Gymru o fewn y llyfrgell genedlaethol yn gyfystyr ag ymrwymo i sefydlu swyddfa gofnodion genedlaethol yno—yr hyn a wnawn yw dweud y dylid ystyried hynny. Cred ein plaid ei bod yn bwysig i Lywodraeth y Cynulliad ystyried sefydlu swyddfa gofnodion cenedlaethol i Gymru. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn galluogi'r Cynulliad i wneud trefniadau addas ar gyfer cadw cofnodion cyhoeddus Cymru a hawl y cyhoedd i'w darllen. Nid yw'n briodol bod cofnodion Cymru yn cael eu cadw o hyd yn y Swyddfa Gofnodion Gyhoeddus yn Llundain. Byddai sefydlu swyddfa gofnodion cenedlaethol i Gymru yn golygu y gellid trosglwyddo cofnodion Cymru o'r Swyddfa Gofnodion Gyhoeddus yn Kew i Gymru, ac yna byddai swyddfa gofnodion genedlaethol Cymru yn derbyn ac yn cadw cofnodion Cymru yn y dyfodol. Mae hynny'n awgrym synhwyrol. Dim ond gofyn i hynny gael ei ystyried a wnawn er mwyn ymchwilio i ddichonoldeb swyddfa gofnodion genedlaethol i Gymru. Ymddengys fod gwahaniaeth barn ynghylch a ddylech dderbyn hynny ai peidio, ac ymddengys i hynny gael ei grybwyll.

Mae sefydlu swyddfa gofnodion i Gymru yn bwysig i'n hymrwymiad i ddiogelu a datblygu diwylliant a threftadaeth Cymru. Yr hyn sy'n hollbwysig yw y byddai'n galluogi'r rhai sy'n ymgymryd ag ymchwil broffesiynol, yn ogystal ag unigolion a grwpiau cymunedol, i weld y cofnodion

important records. The National Library of Wales also supports the establishment of a national records office in its corporate plan. It believes, as we do, that a feasibility study should be carried out to establish issues of cost and location. If I could reassure—  
[*Interruption.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Members should not stand up and walk about in the Chamber.

**Nick Bourne:** The study should establish issues of cost and location. The Assembly must consider that proposal further.

The purpose of our amendment 3 is to welcome the initiatives by the national library to attract new users through high profile events and exhibitions. I am pleased that the Minister will support this amendment. It is a thank you to the staff of the National Library of Wales for their work to drive forward the library's profile, their work on the visitor centre, website development and digitisation and their efforts to establish more effective direct communication with target groups. It would be extremely churlish not to support the amendment, which simply recognises the excellent work that has been carried out by the national library.

Stage II of the review recommends the need for a detailed analysis of the factors that contributed to the success of the Owain Glyndŵr exhibition to ensure that that success can be replicated. As a resident of Aberystwyth, I am aware that the library constantly holds successful and varied exhibitions that are well worth going to see. The high-profile Owain Glyndŵr exhibition, which I visited more than once, was superb. More could be done to promote the library in that way. The 'Open Library, Digital Library' initiative is a vital part of the drive to reach a wider audience. The visitor experience project due to be completed in 2004 will play a considerable part in increasing public access and the multimedia theatre will be an excellent venue for future exhibitions.

pwysig hynny. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd o blaid sefydlu swyddfa gofnodion genedlaethol yn ei chynllun corfforaethol. Cred, fel ninnau, y dylid cynnal astudiaeth ddichonoldeb i gadarnhau costau a'r lleoliad. Pe bawn yn gallu sicrhau—[*Torri ar draws.*]

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Ni ddylai Aelodau godi ar eu traed a cherdded o gwmpas y Siambr.

**Nick Bourne:** Dylai'r astudiaeth gadarnhau costau a'r lleoliad. Rhaid i'r Cynulliad ystyried y cynnig hwnnw ymhellach.

Diben ein gwelliant 3 yw croesawu mentrau gan y llyfrgell genedlaethol i ddenu defnyddwyr newydd drwy ddigwyddiadau ac arddangosfeydd sy'n ennyn sylw mawr. Yr wyf yn falch o nodi y bydd y Gweinidog yn cefnogi'r gwelliant hwn. Mae'n ffordd o ddiolch i staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru am eu gwaith i hyrwyddo proffil y llyfrgell, eu gwaith ar y ganolfan i ymwelwyr, y wefan a'r gwaith digidoli a'u hymdrechion i ganfod ffyrdd mwy effeithiol o gysylltu'n uniongyrchol â grwpiau targed. Peth anfoesgar iawn fyddai peidio â chefnogi'r gwelliant, sydd ond yn cydnabod y gwaith ardderchog a wnaeth y llyfrgell genedlaethol.

Mae cam II o'r adolygiad yn argymhell bod angen gwneud dadansoddiad manwl o'r ffactorau a gyfrannodd at lwyddiant arddangosfa Owain Glyndŵr i sicrhau y gellir efelychu'r llwyddiant hwnnw. Fel un sy'n byw yn Aberystwyth, yr wyf yn ymwybodol bod y llyfrgell yn cynnal arddangosfeydd llwyddiannus ac amrywiol, y mae'n werth ymweld â hwy, yn gyson Yr oedd arddangosfa Owain Glyndŵr, a ddenodd sylw mawr, ac yr ymwelais â hi fwy nag unwaith, yn wych. Gellid gwneud rhagor i hyrwyddo'r llyfrgell yn y ffordd honno. Mae'r fenter 'Llyfrgell Agored, Llyfrgell Ddigidol' yn rhan annatod o'r ymgyrch i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Bydd y prosiect ar brofiad ymwelwyr y bwriedir ei gwblhau yn 2004 yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o gynyddu mynediad y cyhoedd i'r llyfrgell a bydd y theatr aml-gyfyngol yn lleoliad ardderchog ar gyfer arddangosfeydd yn y dyfodol.

Finally, I turn to Plaid Cymru's amendment. I am happy to say that we support it in the spirit in which it was presented and are not looking for ways to not support it. It is a sensible amendment and we will therefore support it. I urge Members to support our amendments because they support the work of an excellent institution, and seek to find ways to enhance its work in future.

4:40 p.m.

**Peter Black:** The staff whom I dealt with at the National Library of Wales have always been courteous, professional and helpful. In this debate, we need to acknowledge—as Nick has already done—how important it is to have good staff to ensure that such an institution works effectively and retains the affection and support of the general public. That has certainly been the case with the National Library of Wales.

At the time when we were considering whether or not to vote for devolution and for the Assembly, one of the rallying cries—if you like—was that there would be a bonfire of the quangos. The National Library of Wales was one of those quangos. Some quangos have been abolished and turned into Assembly sponsored public bodies. Others have been reformed, and the ways in which they operate have been changed to make them more accountable and effective. In some cases, that was the most effective way of dealing with them. The National Library of Wales's quinquennial review has taken that approach. The review states that the national library should be made more transparent and accountable in how it operates. It should be made more effective as an ASPB because that is the best way to deliver its services. I particularly welcome—

**Jonathan Morgan:** I have listened carefully to what you have been saying, but I am disappointed with your bureaucratic approach. Surely, we should celebrate the national library as one of Wales's national treasures, and not just discuss whether it is a quango or ASPB, or the fact that it should be made even more transparent.

Yn olaf, trof at welliant Plaid Cymru. Yr wyf yn falch o ddweud ein bod yn ei gefnogi yn yr ysbryd y'i cyflwynwyd ac nid ydym yn chwilio am ffyrdd o beidio â'i gefnogi. Mae'n welliant synhwyrol ac felly fe'i cefnogwn. Anogaf yr Aelodau i gefnogi ein gwelliannau am eu bod yn cefnogi gwaith sefydliad ardderchog, ac yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o wella ar ei waith yn y dyfodol.

**Peter Black:** Bu'r staff yr wyf wedi ymdrin â hwy yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru bob amser yn gwrtais, yn broffesiynol ac yn barod eu cymwynas. Yn y ddatl hon, mae angen inni gydnabod—fel y gwnaeth Nick eisoes—pa mor bwysig yw staff da i sicrhau bod sefydliad o'r fath yn gweithio'n effeithiol ac yn parhau i fod yn agos at galonnau'r cyhoedd ac ennyn eu cefnogaeth. Yn sicr mae hynny wedi bod yn wir am Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Pan oeddem yn ystyried pa un a ddylid pleidleisio dros ddatganoli ac o blaid y Cynulliad ai peidio, un o'r galwadau i uno—os mynnwch—oedd y byddai coelcerth arfaethedig o'r cwangos. Yr oedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn un o'r cwangos hynny. Cafodd rhai cwangos eu diddymu a'u troi'n gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Diwygiwyd eraill, a newidiwyd sut y maent yn gweithredu i sicrhau eu bod yn fwy atebol ac effeithiol. Mewn rhai achosion o'r fath, dyna'r ffordd fwyaf effeithiol o ymdrin â hwy. Mabwysiadwyd yr ymagwedd honno yn yr adolygiad pum mlynedd o Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Noda'r adroddiad y dylid sicrhau bod y llyfrgell genedlaethol yn fwy tryloyw ac atebol o ran sut y mae'n gweithredu. Dylid sicrhau ei bod yn fwy effeithiol fel CCNC am mai dyna'r ffordd orau o gyflwyno ei gwasanaethau. Croesawaf yn arbennig—

**Jonathan Morgan:** Gwrandewais yn astud ar yr hyn a ddywedasoch, ond mae eich ymagwedd fiwrocraidaidd yn fy siomi. Oni ddylem fod yn dathlu'r llyfrgell genedlaethol fel un o drysorau cenedlaethol Cymru, ac nid trafod ai cwango ynteu CCNC ydyw, na'r ffaith bod yn rhaid sicrhau ei bod yn fwy tryloyw byth.



**Peter Black:** It goes both ways, does it not? The national library is a national treasure and is something that we value—[*Interruption.*] You have not allowed me to finish my speech. It is a much-valued national treasure that we want to retain, develop and cherish. It is also an institution for which the Assembly has responsibility, and on which we are spending public money. We must ensure that that money is being spent effectively and is being used in a way that will improve facilities. We must also ensure that public money is being spent in a transparent and accountable way. I would have thought that you in particular, Jonathan, would have appreciated that point.

The review recommends that the national library adopts better ways of working; that is welcome. I support the recommendation that it should work more closely with the National Museums and Galleries of Wales on outreach activities. There are several such institutions in Wales, and the national library and the national museum are two such institutions that could benefit tremendously from working together. I hope that we can take that forward and find a way of implementing that particular recommendation.

I listened carefully to what Owen John Thomas said about the Aberystwyth-Llangurig road. That ‘road to hell’, as one person I know refers to it, is one reason why the national library needs to have much more effective use—

**Elin Jones:** Are you implying that Aberystwyth is hell?

**Cynog Dafis:** Is it Aberystwyth or Llangurig that is hell?

**The Deputy Presiding Officer:** Order.

**Peter Black:** I think that Aberystwyth is a lovely place, as is Llangurig. I would not dream of referring to either of them as ‘hell’. It is more about the condition of the road.

I welcome the recommendation for the

**Peter Black:** Mae dwy ochr i bopeth, onid oes? Mae'r llyfrgell genedlaethol yn drysor cenedlaethol ac yn rhywbeth a werthfawrogwn—[*Torri ar draws.*]. Nid ydych wedi rhoi cyfle imi orffen fy araith. Mae'n drysor cenedlaethol gwerthfawr iawn, yr ydym am ei gadw, ei ddatblygu a'i goleddu. Mae hefyd yn sefydliad y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdano, ac yr ydym yn gwario arian cyhoeddus arno. Rhaid inni sicrhau y caiff yr arian hwnnw ei wario'n effeithiol a'i ddefnyddio mewn ffordd a fydd yn gwella cyfleusterau. Rhaid inni sicrhau hefyd y gwerir arian cyhoeddus mewn ffordd dryloyw ac atebol. Yr oeddwn yn meddwl y byddech chi yn arbennig, Jonathan, wedi gwerthfawrogi'r pwynt hwnnw.

Mae'r adolygiad yn argymhell y dylai'r llyfrgell genedlaethol fabwysiadu gwell dulliau o weithio; mae hynny i'w groesawu. Cefnogaf yr argymhelliad y dylai weithio'n agosach ag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ar weithgareddau allgyrch. Mae sawl sefydliad o'r fath yng Nghymru, ac mae'r llyfrgell genedlaethol a'r amgueddfa genedlaethol yn ddau a allai elwa'n fawr ar gydweithio. Gobeithiaf y gallwn ddatblygu hynny a dod o hyd i ffordd o weithredu'r argymhelliad arbennig hwnnw.

Gwrandewais yn astud ar yr hyn a ddywedodd Owen John Thomas am y ffordd rhwng Aberystwyth a Llangurig. Mae'r ‘ffordd i uffern’, fel y cyfeiria un o'm cydnabod ati, yn un rheswm pam mae angen i'r llyfrgell genedlaethol gael defnydd llawer mwy effeithiol—

**Elin Jones:** A ydych yn awgrymu mai uffern yw Aberystwyth?

**Cynog Dafis:** Ai Aberystwyth ynteu Llangurig yw uffern?

**Y Diprwy Lywydd:** Trefn.

**Peter Black:** Credaf fod Aberystwyth yn lle hyfryd, fel Llangurig. Ni fyddwn byth yn cyfeirio at y naill na'r llall fel ‘uffern’. Sôn am gyflwr y ffordd yr oeddwn.

Croesawaf yr argymhelliad y dylid

internet to be used more effectively to enable people to access the archives and facilities that are available in the national library. I have used the internet site on a few occasions and I have found it to be not the most friendly of sites. It is more friendly than the National Assembly's site, but it certainly could be improved and expanded to enable people to access the many treasures that are available at the National Library of Wales, and make better use of the archives and the various facilities.

**Elin Jones:** Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl hon ar adolygiad pum mlynedd y llyfrgell genedlaethol. Mae'r adolygiad yn un cadarnhaol, ac yn nodi cynnydd sylweddol yn nifer o feysydd gweithgaredd y llyfrgell. Gan fy mod yn byw o fewn cyrraedd i'r llyfrgell genedlaethol, nid oes gennyf amheuaeth fod y llyfrgell wedi mynd ati i agor ei drysau dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn gwneud ei hadnoddau yn fwy perthnasol ac ar gael i fwy o bobl. Bellach, mae'r llyfrgell yn hyrwyddo mynediad i'w chyfleusterau, ac mae'r Gweinidog wedi nodi enghreifftiau o sut y mae'n gwneud hynny. Hefyd, ac yn bwysicach o bosibl ar gyfer y dyfodol, mae'r llyfrgell yn hyrwyddo mynediad rhithiol i'w hadnoddau drwy broses gynyddol o'u digideiddio. Yn y cyd-destun hwnnw, mae adran 16 o'r crynodeb yn nodi pwysigrwydd datblygu band eang—i safon ISDN 2 o leiaf, yn ôl yr adroddiad—ar gyfer y llyfrgell i hyrwyddo mynediad cenedlaethol a byd-eang i'w hadnoddau. Gobeithaf y bydd y Gweinidog yn barod i ymateb i'r sylwadau hyn heddiw ynglŷn â sut y bwriedir uwchraddio isadeiledd band eang y llyfrgell a chyrrff eraill yn Aberystwyth a ddaw o dan ei phortffolio, megis Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru. Mae cysylltiadau telegyfathrebu presennol Aberystwyth yn ddiffygiol; bu iddynt fethu am ddyddiau lawer ddechrau eleni. Yr oedd problemau gyda'r cysylltiadau meicrodon yn ôl pob sôn, ac mae'n debyg y gall glaw parhaol, a geir yn aml yn ardal Ceredigion, effeithio ar gysylltiadau o'r fath. Gobeithaf y gall y Gweinidog ddwyn rhywfaint o berswâd ar y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i wella'r cysylltiadau hyn ac i sicrhau y caiff band eang ei uwchraddio yn Aberystwyth.

defnyddio'r rhyngrwyd yn fwy effeithiol i alluogi pobl i ddefnyddio'r archifau a'r cyfleusterau sydd ar gael yn y llyfrgell genedlaethol. Yr wyf wedi defnyddio'r wefan sawl gwaith ac o brofiad nid yw'n safle hwylus i'w ddefnyddio. Mae'n fwy hwylus na gwefan y Cynulliad Cenedlaethol, ond yn sicr gellid ei gwella a'i hehangu i alluogi pobl i weld y trysorau lu sydd ar gael yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a gwneud defnydd gwell o'r archifau a'r cyfleusterau amrywiol.

**Elin Jones:** I welcome the opportunity to speak in this debate on the national library's quinquennial review. This report is positive and notes a substantial increase in many of the library's areas of activity. As someone who lives within easy reach of the national library, I have no doubt that the library has opened its doors over the past few years to ensure that its resources are more relevant and accessible to more people. The library now promotes access to its facilities, and the Minister has noted examples of how it has undertaken to do that. Also, and perhaps more importantly for the future, the library is promoting virtual access to its resources through the incremental process of digitisation. In that context, section 16 of the summary notes the importance of developing broadband—to ISDN 2 standard at least, according to the report—for the library to promote national and international access to its resources. I hope that the Minister is prepared to respond today to these comments about how it is proposed that the library's broadband infrastructure, and that of other organisations in Aberystwyth that come under her portfolio, such as the Royal Commission on the Ancient and Historic Monuments of Wales and the Welsh Books Council, will be upgraded. Aberystwyth's current telecommunications links are deficient; they failed for many days at the beginning of this year. It appears that there were problems with the microwave links and that perpetual rainfall, which is characteristic of the Ceredigion area, can affect those links. I hope that the Minister will be able to bring some pressure to bear on the Minister for Economic Development to improve these links and to ensure that broadband is upgraded in Aberystwyth.

Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at wella'r A44 i Aberystwyth; cyfeiriodd Owen John Thomas ac eraill at hyn—er na chynhesais at y cyfeiriad 'road to hell'—gan nodi mai hon yw'r ffordd beryclaf ym Mhrydain. Efallai y gall y Gweinidog sôn am sut y mae'n bwriadu perswadio'r Gweinidog sy'n gyfrifol am drafnidiaeth i fuddsoddi mewn gwella'r A44, gan fod y ffordd ar hyn o bryd yn cael ei hanwybyddu yn rhaglenni cyfalaf y Llywodraeth.

Yn olaf, cyfeiriaf at welliant 2. Bydd rhai a fu'n aelodau o'r cyn Bwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl 16 yn cofio imi godi ar sawl achlysur yr angen am bolisi archifo cofnodion cenedlaethol, yn enwedig yn sgîl sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol. Ni chredaf fod gwell lleoliad nag Aberystwyth ar gyfer swyddfa gofnodion genedlaethol oherwydd yr arbenigedd a geir eisoes o fewn sefydliadau'r dref, megis y llyfrgell a'r brifysgol. Anogaf y Gweinidog ac Aelodau eraill, pa un a ydynt yn cefnogi gwlliant 2 ai peidio, i wneud penderfyniad buan ar sefydlu swyddfa gofnodion genedlaethol.

**The Minister for Culture, Sport and the Welsh Language (Jenny Randerson):** It always interests me that Plaid Cymru can never stick to the topic under discussion. I know that Ministers have extensive powers, but every time—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I am in charge of whether Members stray from the subject of a debate and I have heard nothing that was out of order in the speeches made this afternoon.

**Jenny Randerson:** The idea that I am responsible for the rain is amazing. I am the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language, not Minister for the weather. I am not the Minister responsible for transport either. If you have any issues regarding transport, I refer you to my colleague Sue Essex. As much as Owen John Thomas would like to move the institutions of Wales—

**Nick Bourne** *rose*—

**Jenny Randerson:** I am not taking

The report also refers to improving the A44 to Aberystwyth; Owen John Thomas and others referred to this—although I did not warm to the 'road to hell' reference—noting that it is the most dangerous road in Britain. Perhaps the Minister will comment on how she intends to persuade the Minister responsible for transport to invest in improvements to the A44, as the road is currently ignored in the Government's capital programmes.

Finally, I refer to amendment 2. Those who were members of the former Post-16 Education and Training Committee will recall that I raised on many occasions the need for a national records archive policy, especially following the establishment of the National Assembly. I do not believe that there is a better location than Aberystwyth for a national records office because of the expertise that already exists within the town's organisations, such as the library and the university. I urge the Minister and other Members, whether or not they support amendment 2, to come to a swift decision on establishing a national records office.

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Mae bob amser yn destun difyrrwch imi na all Plaid Cymru byth gadw at y pwnc dan sylw. Gwn fod gan Weinidogion bwerau eang, ond bob tro—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Fi sydd i ddweud pa un a yw Aelodau yn gwyro oddi wrth bwnc y ddadl ac ni chlywais ddim byd a oedd allan o drefn yn yr areithiau a wnaed y prynhawn yma.

**Jenny Randerson:** Mae'r syniad mai fi sy'n gyfrifol am y glaw yn rhyfeddol. Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg ydwyf, nid y Gweinidog dros y tywydd. Nid y Gweinidog dros drafnidiaeth ydwyf ychwaith. Os hoffech godi unrhyw faterion o ran trafnidiaeth, fe'ch cyfeiriaf at fy ngyd-Aelod, Sue Essex. Cymaint ag yr hoffai Owen John Thomas symud sefydliadau Cymru—

**Nick Bourne** *a gododd*—

**Jenny Randerson:** Nid wyf yn derbyn

interventions as I have very little time.

As much as Owen John Thomas would like to move the institutions of Wales around the country as if it were a chessboard or a giant monopoly board, institutions will stay where they are. The report noted the wonderful advantages of the National Library of Wales's location. It is important that we work on that basis.

The national library is making tremendous progress in terms of digitisation. The 'Gathering the Jewels' website was launched three or four weeks ago and is certainly not difficult to use, Peter. It is part of Cymru Ar-lein and the roll-out of digitisation throughout Wales, which is making such a difference. It is also working increasingly closer, Nick, with the National Museums and Galleries of Wales. The museum is working on a pilot project called Sharing the Treasures and it is my intention that, in future, the national library should consider participating, either in that project, or in something similar, in terms of its art collection.

4:50 p.m.

I do not recall whether you were in the Chamber when I made it clear that I accept the report's recommendation concerning a national records office. Recommendation 17 states that we must consider whether a national records office should be established in the national library. I will not support that amendment, because otherwise you might as well have tabled 70 amendments; we have accepted many of the report's recommendations; logically, you cannot pick one out.

I am surprised that the Conservatives are supporting the Plaid amendment on the Welsh language, because at the Culture Committee Glyn Davies accepted the concept that the Welsh language should be mainstreamed, and the library accepts that as a core cost.

I remind Members that this debate is only one stage in the review process. Peter Black was right to emphasise the bureaucratic side

ymyriadau gan mai dim ond ychydig iawn o amser sydd gennyf.

Cymaint ag yr hoffai Owen John Thomas symud sefydliadau Cymru o amgylch y wlad fel pe bai'n fwrdd gwyddbwyll neu'n fwrdd monopoli enfawr, bydd sefydliadau yn aros lle y maent. Nododd yr adroddiad fanteision gwych lleoliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio ar y sail honno.

Mae'r llyfrgell genedlaethol yn gwneud cynnydd aruthrol o ran digidoli. Lanswyd gwefan 'Casglu'r Tlysau' dair neu bedair wythnos yn ôl ac yn sicr nid yw'n anodd i'w defnyddio, Peter. Mae'n rhan o Cymru Ar-lein a'r gwaith digidoli a gyflwynir ledled Cymru, sy'n gwneud cymaint o wahaniaeth. Mae hefyd yn gweithio'n agosach ag Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru, Nick. Mae'r amgueddfa yn gweithio ar brosiect peilot o'r enw Rhannu'r Trysorau a'm bwriad yw y dylai'r llyfrgell genedlaethol ystyried cymryd rhan, naill yn y prosiect hwnnw, neu mewn rhywbeth tebyg yn y dyfodol, o ran ei chasgliad celf.

Ni chofiaf a oeddech yn y Siambr pan eglurais fy mod yn derbyn yr argymhelliad yn yr adroddiad ynglŷn â swyddfa gofnodion genedlaethol. Noda argymhelliad 17 y dylem ystyried a ddylid sefydlu swyddfa gofnodion genedlaethol yn y llyfrgell genedlaethol. Ni chefnogaf y gwelliant hwnnw, oherwydd fel arall waeth i chi fod wedi cyflwyno 70 o welliannau; yr ydym wedi derbyn llawer o argymhellion yr adroddiad; yn rhesymegol, ni allwch ddewis un.

Synnaf at y ffaith bod y Ceidwadwyr yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru ar yr iaith Gymraeg, gan fod Glyn Davies, yn y Pwyllgor Diwylliant, wedi derbyn y cysyniad y dylai'r iaith Gymraeg fod yn y brif ffrwd, ac mae'r llyfrgell yn derbyn hynny fel cost graidd.

Hoffwn atgoffa'r Aelodau mai un cam yn unig o'r broses adolygu yw'r ddadl hon. Yr oedd Peter Black yn llygad ei le i bwysleisio

of the process. The quinquennial review is held to consider the operational and financial efficiency of organisations. It is not held to celebrate any organisation, but to consider the hard, day-to-day facts of its running, and whether we need the organisation. That issue may be a matter for the national library; it is not a foregone conclusion for every organisation. That is the purpose of quinquennial reviews. The library will now prepare, and seek my agreement on an action plan. It will set out how it intends to implement the report's recommendations. I will report on its progress to the Culture Committee at appropriate intervals. I will also discuss the report when I meet national library staff next month. I hope that its operations and efficient use of public funds and its good governance will be improved. It will put the library on a sound footing, to safeguard its collection, and to carry out National Assembly policies.

**The Deputy Presiding Officer:** Open the vote on amendment 1.

**Nick Bourne:** I request that the bell be rung.

**The Deputy Presiding Officer:** I have already opened the vote; you will have to ask again.

ochr fiwrocataidd y broses. Cynhelir yr adolygiad pum mlynedd i ystyried effeithlonrwydd gweithredol ac ariannol sefydliadau. Nis cynhelir i ddathlu unrhyw sefydliad, ond i ystyried ffeithiau noeth, beunyddiol ynglŷn â rhedeg y sefydliad, ac a oes angen y sefydliad arnom. Efallai fod y mater hwnnw o bwys i'r llyfrgell genedlaethol; nid yw'n beth anochel i bob sefydliad. Dyna ddiben adolygiadau pum mlynedd. Bydd y llyfrgell yn awr yn paratoi cynllun gweithredu, ac yn gofyn imi gytuno arno. Bydd yn nodi sut y mae'n bwriadu gweithredu argymhellion yr adroddiad. Byddaf yn rhoi adroddiad ar ei hynt i'r Pwyllgor Diwylliant ar adegau priodol. Byddaf hefyd yn trafod yr adroddiad pan fyddaf yn cyfarfod â staff y llyfrgell genedlaethol fis nesaf. Gobeithiaf y caiff ei gweithrediadau a'r defnydd effeithlon a wna o arian cyhoeddus a'i rheolaeth dda eu gwella. Bydd hynny yn rhoi'r llyfrgell mewn sefyllfa gadarn i ddiogelu ei chasgliad a gweithredu polisiau'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Y Dirprwy Lywydd:** Agorwch y bleidlais ar welliant 1.

**Nick Bourne:** Gofynnaf i'r gloch gael ei chanu.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf eisoes wedi agor y bleidlais; bydd yn rhaid ichi ofyn eto.

*Gwelliant 1: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 23.  
Amendment 1: For 17, Abstain 0, Against 23.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Bourne, Nick  
Cairns, Alun  
Dafis, Cynog  
Davies, Geraint  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Graham, William  
Jarman, Pauline  
Jones, David Ian  
Jones, Elin  
Lloyd, David  
Morgan, Jonathan  
Ryder, Janet  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Davies, Andrew  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hutt, Jane  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Lewis, Huw

Williams, Phil

Lloyd, Val  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment rejected.*

**The Deputy Presiding Officer:** I call for a vote on amendment 2.

**Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf am bleidlais ar welliant 2.

**Nick Bourne:** I request that the bell be rung.

**Nick Bourne:** Gofynnaf i'r gloch gael ei chanu.

**The Deputy Presiding Officer:** Under Standing Order No. 6.21 at least three Members must request that the bell be rung. Do three Members support the request for the bell to be rung? I see that they do. Clerk, please ring the bell.

**Y Dirprwy Lywydd:** O dan Reol Sefydlog Rhif 6.21 rhaid i dri Aelod o leiaf ofyn bod y gloch yn cael ei chanu. A oes tri Aelod yn cefnogi'r cais i'r gloch gael ei chanu? Gwela eu bod. Glerc, caner y gloch.

*Gwelliant 2: O blaid 29, Ymatal 12, Yn erbyn 12.  
Amendment 2: For 29, Abstain 12, Against 12.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davies, Andrew  
Davies, Ron  
Evans, Delyth  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hart, Edwina  
Jones, Ann  
Jones, David Ian  
Jones, Elin  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, Val  
Melding, David  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Jonathan  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Rogers, Peter  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Davidson, Jane  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
German, Michael  
Hutt, Jane  
Jones, Carwyn  
Morgan, Rhodri  
Randerson, Jenny  
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Davies, Geraint  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Jarman, Pauline  
Jones, Gareth  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, David  
Ryder, Janet  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Phil

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment carried.*

*Gwelliant 3: O blaid 13, Ymatal 16, Yn erbyn 23.  
Amendment 3: For 13, Abstain 16, Against 23.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Bourne, Nick  
Cairns, Alun  
German, Michael  
Graham, William  
Jones, David Ian  
Melding, David  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Randerson, Jenny  
Rogers, Peter  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Chapman, Christine  
Essex, Sue  
Law, Peter  
Black, Peter  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Evans, Delyth  
Gibbons, Brian  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hutt, Jane  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, Val  
Middlehurst, Tom  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Butler, Rosemary  
Dafis, Cynog  
Davies, Geraint  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Hart, Edwina  
Jarman, Pauline  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, David  
Ryder, Janet  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Phil

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment rejected.*

Motion NDM1231 as amended:

Cynnig NDM1231 fel y'i diwygiwyd:

*the National Assembly*

*y Cynulliad Cenedlaethol*

*welcomes the quinquennial review of the National Library of Wales and the Welsh Assembly Government's response to the review's recommendations;*

*yn croesawu adolygiad pum mlynedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i argymhellion yr adolygiad;*

*considers the establishment of a National Records Office for Wales within the National Library.*

*yn ystyried sefydlu Swyddfa Gofnodion Genedlaethol i Gymru yn y Llyfrgell Genedlaethol..*

*Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Amended motion: For 53, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Geraint  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
German, Michael  
Graham, William  
Griffiths, John  
Gibbons, Brian  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, David Ian  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Ieuan Wyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Melding, David  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Jonathan



Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Rogers, Peter  
 Ryder, Janet  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Owen John  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Wigley, Dafydd  
 Williams, Kirsty  
 Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.  
 Amended motion carried.*

5:00 p.m.

## **Dadl Fer Short Debate**

### **Ailgodi'r Cymoedd Rebuilding the Valleys**

**Lynne Neagle:** I have agreed to contributions from Brian Gibbons, Peter Black, Geraint Davies, and a Member of the Conservative Party—had the Conservatives not all left the Chamber. I was not going to say anything that bad.

**Lynne Neagle:** Yr wyf wedi cytuno i gyfraniadau gan Brian Gibbons, Peter Black, Geraint Davies ac Aelod o'r Blaid Geidwadol—pe na bai pob un o'r Ceidwadwyr wedi gadael y Siambr. Nid oeddwn yn mynd i ddweud unrhyw beth mor wael â hynny.

I will set out a strategy for the regeneration of our towns in the Valleys. This strategy will help to address a common problem recognised at meetings of Valleys Forward, and works through an idea first raised by Brian Gibbons. I will outline a five-point plan to promote the renewal of our towns, which will draw on experiences in the towns of Blaenavon, Pontypool and Cwmbran in my constituency. The challenges are common to all Valleys communities, and everyone involved with Valleys Forward is committed to tackling their problems. Much of what I say could equally apply to Rhyl, Llanelli, Barry, Tredegar and other deprived urban communities. All of Wales is still in a long and slow recovery from the 18 years of Tory Government—not that the Conservatives care.

Nodaf strategaeth ar gyfer adfywio ein trefi yn y Cymoedd. Bydd y strategaeth hon yn helpu i ymdrin â phroblem gyffredin a gydnabuwyd mewn cyfarfodydd o Valleys Forward, ac mae'n ystyried syniad a godwyd yn gyntaf gan Brian Gibbons. Amlinellaf gynllun pum pwynt i hyrwyddo'r gwaith o adnewyddu ein trefi, a fydd yn tynnu ar brofiadau yn nhrefi Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân yn fy etholaeth i. Mae'r heriau yn gyffredin i bob un o gymunedau'r Cymoedd, ac mae pawb sy'n gysylltiedig â Valleys Forward yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'u problemau. Gallai llawer o'r hyn a ddywedaf fod yr un mor berthnasol i'r Rhyl, Llanelli, y Barri, Tredegar a chymunedau trefol difreintiedig eraill. Mae adferiad Cymru gyfan yn broses hir ac araf o hyd ar ôl 18 mlynedd o Lywodraeth Doriaidd—nid bod y Ceidwadwyr yn hidio.

My five-point action plan will set out the need for: a root and branch review of our policy on town-centre renewal in deprived

Bydd fy nghynllun gweithredu pum pwynt yn nodi'r angen am: adolygiad o'r bôn i'r brig o'n polisi ar adnewyddu canol trefi mewn

communities; a more flexible approach to the application of Welsh Development Agency grants; funding for councils to employ town-centre managers in deprived communities; the promotion of town-centre living; and funding to enable the roll-out of broadband to town centres in the Valleys. The renewal of town centres in the Valleys is crucial. They remain the focus of many aspects of community life. Twenty years ago, our town centres characterised much of what living in the Valleys meant to people. They were vibrant public spaces that were the centre and focus of communities. These public spaces were an expression of the culture and life of the Valleys. They were also expressions of civic pride and civic living. This has not been totally lost, but our communities still need resuscitation, for when a town stops being a public space in which it is worth living, conducting business, being entertained and spending time, it can die from the inside out.

There is much to be proud of in the Valleys, nothing more so than the strong and binding sense of community that still exists. The loss of manufacturing jobs in Wales over the past two decades has taken its toll. 'A Wining Wales', together with Objective 1, will provide the Valleys with a platform on which to build. However, it has to be about more than jobs, crucial though these are; it has to be about the basic social fabric and infrastructure of our communities. Thanks to the investment and prosperity provided by Labour in government at all levels, Torfaen is breaking free from the legacy of the Tory years. However, without a genuine renaissance, the sense of community is in danger of being lost. This renaissance has to be economic, cultural and social. By renaissance, I mean a process of renewal whereby our town centres become attractive to live in, commercially sustainable, and the centre of daily community life. It must be a renaissance that believes that the best years of these communities are not behind them, but still to come.

In Torfaen, this is a tale of three towns. Each town has its own distinctive challenges and

cymunedau difreintiedig: ymagwedd fwy hyblyg tuag at gymhwyso grantiau Awdurdod Datblygu Cymru; arian i gynghorau gyflogi rheolwyr canol trefi mewn cymunedau difreintiedig; hybu byw ynghanol trefi; ac arian i gyflwyno band eang ynghanol trefi yn y Cymoedd. Mae adnewyddu canol trefi yn y Cymoedd yn hollbwysig. Canolbwynt sawl agwedd ar fywyd cymunedol ydynt o hyd. Ugain mlynedd yn ôl, yr oedd canol ein trefi yn nodweddu llawer o'r hyn y mae byw yn y Cymoedd yn ei olygu i bobl. Yr oeddent yn fannau cyhoeddus bywiog a oedd yn ganolbwynt i'r gymuned. Yr oedd y manau cyhoeddus hyn yn mynegi diwylliant a bywyd y Cymoedd. Yr oeddent hefyd yn mynegi balchder dinesig a bywyd dinesig. Ni chollwyd hyn yn llwyr, ond mae angen adfywhau ein cymunedau o hyd, oherwydd pan fydd tref yn peidio â bod yn fan cyhoeddus lle mae'n werth byw, cynnal busnes, cael eich difyrro a threulio amser, gall farw o'r tu mewn allan.

Mae llawer i ymfalchïo ynddo yn y Cymoedd, yn enwedig yr ymdeimlad cryf ac unedig o berthyn i gymuned, sy'n bodoli o hyd. Mae'r swyddi gweithgynhyrchu yng Nghymru a gollwyd yn ystod y ddau ddegawd diwethaf wedi gwneud niwed mawr. Bydd 'Cymru'n Ennill', ynghyd ag Amcan 1, yn rhoi sylfaen i'r Cymoedd adeiladu arno. Fodd bynnag, rhaid iddo fod yn fwy na swyddi yn unig, er mor bwysig ydynt; rhaid iddo ymwneud hefyd â ffabrig cymdeithasol a seilwaith sylfaenol ein cymunedau. Diolch i'r buddsoddiad a'r ffyniant a ddarparwyd gan y blaid Lafur ym mhob lefel o lywodraeth, mae Tor-faen yn torri'n rhydd o'r hyn a etifeddwyd yn sgîl blynyddoedd o dan reolaeth y Torïaid. Fodd bynnag, heb ddadeni gwirioneddol, mae'r ymdeimlad o gymuned mewn perygl o ddiflannu. Rhaid i'r dadeni hwn fod yn economaidd, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol. Drwy ddadeni, golygaf broses adnewyddu lle y daw canol ein trefi yn lleoedd deniadol i fyw ynddynt, yn gynaliadwy yn fasnachol, ac yn ganolbwynt i fywyd cymunedol dyddiol. Rhaid iddo fod yn ddadeni sy'n credu nad yw blynyddoedd gorau'r cymunedau hyn y tu ôl iddynt, ond eu bod eto i ddod.

Yn Nhor-faen, mae hyn yn stori am dair tref. Mae gan bob tref ei heriau a'i hanghenion

needs. Blaenavon and Pontypool face the problems shared by many Valleys towns—the challenges of regeneration. Commercially, it is a challenge of attracting the private sector to the area and, socially, of making communities sustainable. For Blaenavon, the challenge is how best to build on world heritage site status and use tourism as a driver for change. It is also about how best to make Broad Street a viable and vibrant commercial and residential area.

An important change needed, which is the first of my five action points, relates to the allocation of grants from the WDA, particularly town improvement grants. Increasing the maximum level at which these are paid in targeted towns in Wales from 50 to 80 per cent would substantially increase their take-up among local traders. This more targeted approach to the allocation of grants would bring real benefit. It would improve the commercial viability of town centres like Blaenavon, in terms of trading and tourism. It would also match the success achieved in using grants to convert vacant shops into housing.

Achieving commercial and residential growth in the town is the key to the future prosperity of Blaenavon. There is potential to use the town's industrial heritage to this end, but it will require the continued commitment of all arms of government in Wales. This is an appropriate time to place on record the thanks of the people of Blaenavon and the Blaenavon partnership for the Assembly Government's support. It has made a difference to the regeneration of the whole town. Blaenavon now has a future—although not without challenges—and the town can become culturally, economically and socially sustainable. Blaenavon needs not only the specific measures that I have outlined but also a general commitment from Government that it is in this for the long haul.

The challenge is different in Pontypool. The town must regain its status as the borough's commercial hub. Pontypool is still coming to terms with life after coal and iron. Its problems are reflected in its boarded-up shops, in the limited range of shops and in the low property values. The local authority

penodol ei hun. Wyneba Blaenafon a Phont-y-pŵl y problemau a rennir gan lawer o drefi'r Cymoedd—heriau adfywio. Yn fasnachol, yr her yw denu'r sector preifat i'r ardal, ac yn gymdeithasol, gwneud cymunedau'n gynaliadwy. I Flaenafon, yr her yw darganfod y ffordd orau o adeiladu ar statws safle treftadaeth y byd a defnyddio twristiaeth i lywio newid. Mae a wnelo hefyd â'r ffordd orau i wneud Broad Street yn ardal fasnachol a phreswyl hyfyw a bywiog.

